Rhaglen Gyflawn

# Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
# North Wales Corporate Joint Committee

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**

Dyddiad ac Amser

**1.30 y.h., DYDD GWENER, 6ED MEDI, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**(am fynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni)**


Pwynt Cyswllt

**Sioned Mai Jones**

**01286 679665**

**sionedmaijones@gwynedd.llyw.cymru**

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**

Aelodau Cyngor

Cyng. Jason McLellan - Cyngor Sir Ddinbych
Cyng. Gary Pritchard - Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. Charlie McCoubury - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyng. Mark Pritchard - Cyngor Wrecsam
Cyng. Dave Hughes - Cyngor Sir y Fflint
Cyng. Dyfrig L Siencyn - Cyngor Gwynedd

Aelod Eryri

Cyng. Edgar Wyn Owen – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Prif Swyddogion

Dafydd Gibbard - Cyngor Gwynedd – Prif Weithredwr y Cyd-Bwyllgor
Dylan Williams - Cyngor Sir Ynys Môn
Rhun ap Gareth - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Neal Cockerton - Cyngor Sir y Fflint
Graham Boase - Cyngor Sir Ddinbych
Ian Bancroft - Cyngor Wrecsam
Emyr Williams – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Swyddogion Statudol

Dewi Aeron Morgan – Prif Swyddog Cyllid
Iwan G Evans – Swyddog Monitro

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** 5 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2024 fel rhai cywir.

**5. DIWEDDARIAD AR SEFYDLU'R CBC A MODEL LLYWODRAETHU ARFAETHEDIG** 10 - 15

Alwen Williams (Prif Weithredwr Dros Dro y CBC) ac Iwan Evans (Swyddog Monitro) i gyflwyno’r adroddiad.

**6. DIWEDDARIADAU CYFANSODDIADOL** 16 - 57

Iwan Evans (Swyddog Monitro) i gyflwyno’r adroddiad.

**7. PARTH BUDDSODDI SIR Y FFLINT A WRECSAM** 58 - 62

Alwen Williams (Prif Weithredwr Dros Dro Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd) i gyflwyno’r adroddiad.

**8. RHAGOLWG O WARIANT 2024/25 CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD** 63 - 66

Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid a Swyddog Cyllid Statudol y CBC) a Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol) i gyflwyno’r adroddiad.

**9. CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL: DIWEDDARIAD CYNNYDD AC ARGYMHELLION** 67 - 72

Alwen Williams (Prif Weithredwr Dros Dro Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd) i gyflwyno’r adroddiad.

**10. SAFONAU'R GYMRAEG: HYSBYSIAD CYDYMFFURFIO** 73 - 109

Alwen Williams (Prif Weithredwr Dros Dro Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd) i gyflwyno’r adroddiad.

**11. PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL (IRPW) - ADOLYGIAD O GYDNABYDDIAETH ARIANNOL AELODAU LLEYG CYDBWYLLGORAU CORFFOREDIG** 110 - 116

Iwan Evans (Swyddog Monitro) i gyflwyno'r adroddiad.

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**
**21/06/24**

**Yn bresennol:** Cadeirydd: Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd)

**Y Cynghorwyr:** Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych), Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) ac Edgar Owen (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

**Prif Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd), Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Fran Lewis (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Andrew Farrow (Cyngor Sir y Fflint), Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Gary Williams (Cyngor Sir Ddinbych) ac Iwan Jones (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

**Swyddogion Statudol**
Dewi Morgan (Prif Swyddog Cyllid) ac Iwan G Evans (Swyddog Monitro).

**Swyddogion eraill yn bresennol**
Alwen Williams (Prif Weithredwr Dros Dro y CBC), Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol), Delyth Jones Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Claire Incledon (Cyfreithiwr) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn yn Gadeirydd ar gyfer 2024/25.**

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Mark Pritchard yn Is-gadeirydd ar gyfer 2024/25.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-

- Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn) gyda'r Cynghorydd Gary Pritchard yn dirprwyo;
- Y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)
- Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) gyda Fran Lewis yn dirprwyo;
- Neil Cockerton (Cyngor Sir y Fflint) gydag Andrew Farrow yn dirprwyo;
- Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych) gyda Gary Williams yn dirprwyo;
- Emyr Williams (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) gydag Iwan Jones yn dirprwyo.

Croesawyd y Cynghorydd Edgar Owen i'w gyfarfod cyntaf o'r Cyd-bwyllgor yn sgil ei benodi'n Gadeirydd newydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Nodwyd y byddai Emyr Williams (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) yn ymddeol yn fuan. Diolchwyd iddo am ei gyfraniad i waith y Cyd-bwyllgor a dymunwyd iddo bob hapusrwydd i'r dyfodol.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro y CBC fuddiant personol yn eitem 9, ond gan ei bod yn bwysig ei bod yn rhan o'r drafodaeth gyffredinol ar drosglwyddiad swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais i'r CBC, ac na fu trafodaeth ar y rhan o'r adroddiad sy'n ymwneud yn benodol ag ymestyn ei secondiad yn y rôl Prif Weithredwr Dros Dro, ni adawodd y cyfarfod.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 22 Mawrth, 2024 fel rhai cywir.

**7. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS 2024/25**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dewi Morgan, Prif Swyddog Cyllid.

**PENDERFYNWYD derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys ar gyfer 2024/25.**

**8. ADRODDIAD ALLDRO A FFURFLEN FLYNYDDOL 2023/24**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Sian Pugh, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol.

**PENDERFYNWYD:**

1. **Nodi a derbyn gwir wariant ac incwm y Cydbwyllgor Corfforedig ar gyfer 2023/24 fel y'i cyflwynwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad.**
2. **Cymeradwyo trosglwyddo'r tanwariant yn 2023/24 i gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi ar gyfer ariannu costau unwaith ac am byth yn y dyfodol.**
3. **Cymeradwyo Ffurflen Flynyddol Swyddogol y Cydbwyllgor Corfforedig ar gyfer 2023/24 (amodol ar Archwiliad Allanol), yn unol â'r amserlen statudol, sef 30 Mehefin 2024. (Mae wedi'i chwblhau a'i hardystio'n briodol gan Bennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd fel Swyddog Cyllid Statudol y Cydbwyllgor Corfforedig (Atodiad 2 i'r adroddiad)).**

**9. DIWEDDARIAD: SWYDDOGAETHAU BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU – TROSGLWYDDO I'R CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro y CBC.

**PENDERFYNWYD:**

1. **Derbyn yr adroddiad ar y diweddariad cynnydd ar y gwaith i sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ac ymateb i'r tasgau sy'n ofynnol gan ei swyddogaethau statudol (Atodiad 1 i'r adroddiad).**
2. **Derbyn y cynllun wedi'i ddiweddaru ynghyd â'r dyddiad diwygiedig o'r 1af o Dachwedd ar gyfer trosglwyddo Cynllun Twf Gogledd Cymru i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.**
3. **Cymeradwyo'r trefniadau interim i ryddhau amser y Cyfarwyddwr Portffolio am ddau ddiwrnod yr wythnos i ymgymryd â rôl y Prif Weithredwr Dros Dro a'i**

**ymestyn hyd at 31 Hydref, 2024. (Bydd yr holl gostau cyflogaeth a chostau cysylltiedig yn parhau i gael ei dalu gan CBC y Gogledd).**

**4. Gofyn am adroddiad pellach ar gynnydd yn y broses drosglwyddo a monitro o'r amserlen.**

**TRAFODAETH**

Holwyd ai adnoddau a chyllid y Cyd-bwyllgor Corfforedig oedd yn mynd i mewn i'r gwaith caffael ar gyfer symud y Parth Buddsoddi ar gyfer Wrecsam a Sir y Fflint yn ei flaen. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod cytundeb wedi'i wneud eisoes i neilltuo £100,000 o gyllideb y Cyd-bwyllgor er mwyn hwyluso'r gwaith o fynd drwy'r Pyrth i gyflawni'r Parth Buddsoddi.
- Gan ein bod yn wynebu Etholiad Cyffredinol ar 4 Gorffennaf, bod trefniant ychwanegol mewn lle a chytundeb gan Gyngor Sir y Fflint a Chyngor Wrecsam i ddarparu hyd at £25,000 yr un o gyllid ar gyfer unrhyw waith sydd wedi cael ei gyfeirio tuag at ddatblygu'r cynllun pe na fyddai'r llywodraeth newydd yn dilyn y broses o Barthau Buddsoddi.

Holwyd ymhellach oedd yna unrhyw amheuaeth ynglŷn â dyfodol y polisïau hyn. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Nad oedd unrhyw lywodraeth wedi rhoi arwydd y byddai yna drefniant newydd mewn lle, ond roedd angen sicrwydd ynglŷn â hyn unwaith y byddai'r llywodraeth wedi'i sefydlu.
- Yn sgil mynd drwy'r broses o fynd drwy'r Pyrth i ddarparu'r cais i gadarnhau'r Parth Buddsoddi, byddai cyfran o'r £160 miliwn sy'n cael ei ddarparu ar gyfer y Parth Buddsoddi yn gyfran all gael ei ddefnyddio ar gyfer costau gweinyddol, felly byddai'n bosib' gwneud cais am y costau datblygu o'r arian yna unwaith y byddai'r Parth Buddsoddi wedi'i gymeradwyo.

Nododd Arweinydd Cyngor Sir y Fflint ei fod yn siomedig bod y Parth Buddsoddi yn dod drwy'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ac y byddai'n well ganddo petai yna gorff wedi'i sefydlu rhwng Sir y Fflint a Wrecsam a'u partneriaid, megis Airbus, i reoli'r prosiect. Nododd ymhellach y gofynnwyd mewn dau gyfarfod o'r Cyd-bwyllgor o ble fyddai'r adnoddau yn dod, gan fod hwn yn Barth Buddsoddi ar gyfer Sir y Fflint a Wrecsam, ac awgrymodd efallai y dylid edrych ar gostau amrywiol brosiectau sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd daearyddol penodol.

Nodwyd y deellid bod yr adnodd gweithredu ar gyfer y Cyd-bwyllgor drwy secondiad gan Lywodraeth Cymru bellach wedi dod i ben, a holwyd faint o ergyd oedd hyn i'n gallu i fwrw ymlaen â'r gwaith o sefydlu'r Cyd-bwyllgor. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y secondiad wedi terfynu yn gynt na'r disgwyl oherwydd penderfyniad personol i fynd yn ôl i Lywodraeth Cymru a dyna pam bod yna fynd ati rŵan i ail-edrych ar y strwythurau er mwyn cael strwythur mwy cynaliadwy mewn lle i gefnogi'r gwaith o drosglwyddo.
- Bod y Bwrdd Prosiect Gweithredol yn cyfarfod bob dydd Llun a'r gwahanol ffrydiau gwaith yn cyfarfod ar wahân hefyd, a bod hynny wedi gosod rhywfaint o strwythur o gwmpas y gwaith a'r tasgau sydd angen eu cyflawni.
- Bod gwaith ar droed i weld oes modd cael naill ai adnoddau parhaol neu adnoddau ychwanegol dros dro i lenwi'r bwlch gweithredol.

Eglurodd y Swyddog Monitro fod unrhyw benderfyniadau ynglŷn â throsglwyddo staff i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn llwyr ddarostyngedig i'r dyddiad trosglwyddo'r Cynllun Twf i'r CBC. Gan hynny, os oedd y dyddiad trosglwyddo yn symud ymlaen i'r 1af o Dachwedd, dyna'r dyddiad cyntaf y gallai'r staff drosglwyddo hefyd.

**10. PENODI AELODAU CYFETHOLEDIG I'R IS-BWYLLGORAU CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Iwan Evans, Swyddog Monitro.

Diolchodd y Swyddog Monitro i Claire Incledon (Cyfreithiwr) am y gwaith o gael y cytundebau yn eu lle ac wedi'u harwyddo.

**PENDERFYNWYD:**

1. **Penodi fel aelodau cyfetholedig i is-bwyllgorau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a ganlyn:**
   **(i) is-bwyllgor cynllunio strategol**
   **(ii) is-bwyllgor trafnidiaeth strategol**
2. **Awdurdodi'r Swyddog Monitro i dderbyn (a phenodi fel aelodau cyfetholedig) newidiadau i aelodaeth yr is-bwyllgorau hyn a hysbyswyd yn ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro, ar yr amod bod y penodiadau hyn yn cael eu datgan i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn y cyfarfod nesaf.**

**11. HYSBYSIAD CYDYMFFURFIO DRAFFT SAFONAU'R GYMRAEG RHEOLIADAU RHIF 1**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Prif Swyddog Dros Dro y CBC.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod y safonau yn debyg iawn i'r safonau sydd wedi'u gosod ar y 6 awdurdod yn unigol, a'i bod yn debygol hefyd y byddai'r safonau sy'n cael eu gosod ar yr holl gydbwyllgorau ar draws Cymru yn ymdebygu i'w gilydd.

**PENDERFYNWYD awdurdodi'r Prif Weithredwr i ymateb i'r ymgynghoriad mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd.**

**TRAFODAETH**

**12. DATGANIAD POLISI TÂL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Iwan Evans, Swyddog Monitro.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd nad oedd unrhyw beth yn y Datganiad Polisi Tâl yn anarferol nac yn wahanol i bolisi tâl unrhyw gyrff eraill.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu datganiad polisi tâl Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar gyfer 2024/25.**

**TRAFODAETH**

**13. DYDDIADAU ARFAETHEDIG AR GYFER CYFARFODYDD Y DYFODOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Iwan Evans, Swyddog Monitro.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r calendr drafft at gyfer y cyfnod hyd at fis Mai 2025.**

Dechreuodd y cyfarfod am 13:30 a daeth i ben am 14:20.

____________________________________
(Cadeirydd)

# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

6 Medi, 2024

| | |
|---|---|
| TEITL: | Diweddariad ar Sefydlu'r CBC a Model Llywodraethu Arfaethedig |
| AWDUR: | Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro<br>Iwan Evans, Swyddog Monitro |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Diweddaru aelodau'r CBC ar y cynnydd sydd wedi'i wneud i sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC), sy'n cynnwys trosglwyddo'r Cynllun Twf, ei gyllid, a'r Swyddfa Rheoli Portffolio (PMO), a chyflwyno'r egwyddorion sy'n sail i'r model llywodraethu arfaethedig ar gyfer y CBC.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod y CBC yn derbyn y diweddariad ar y cynnydd sydd wedi'i wneud i baratoi ar gyfer trosglwyddiad arfaethedig y Cynllun Twf, ei gyllid a'r PMO i'r CBC.

2.2. Bod y CBC yn cefnogi'r strwythur llywodraethu a awgrymir fel sail ar gyfer trafodaeth gyda phartneriaid hyd nes y ceir adroddiad pellach.

## 3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Bydd y CBC yn barti i'r cytundebau a fydd yn galluogi trosglwyddo'r Cynllun Twf i'w reolaeth. Mae angen ei hysbysu o'r rhaglen hon a'r cynnydd ond hefyd i roi golwg gychwynnol ar y trefniadau llywodraethu ôl-drosglwyddo arfaethedig i hwyluso'r trafodaethau gyda phartneriaid y Cynllun Twf.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Ionawr 2022, roedd Cabinet a Phwyllgorau Gweithredol pob un o'r chwe Awdurdod Lleol, wedi cytuno mewn egwyddor y dylid trosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y Bwrdd Uchelgais) trwy gytundeb dirprwyo i'r CBC. Eglurwyd bod penderfyniad yr adroddiad hwn yn caniatáu i'r trosglwyddiad ddechrau a chael ei gwblhau. Esboniwyd bod y fframwaith statudol a sefydlu'r CBC yn golygu bod angen symud ymlaen â'r trosglwyddiad arfaethedig.

4.2. Deilliodd yr ysgogiad strategol cyffredinol i drosglwyddo o'r gydberthynas mewn aelodaeth rhwng y Bwrdd Uchelgais a'r CBC, y dymuniad i osgoi gormodedd o gyrff rhanbarthol sydd â swyddogaethau tebyg, a manteision ac effeithlonrwydd cyfreithiol a gweithredol amrywiol y CBC yn bod gweithredu fel ei endid corfforedig ei hun.

4.3. Roedd y penderfyniad gwreiddiol yn benderfyniad mewn egwyddor gan fod y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r CBC yn parhau i ddatblygu ac yn wir daeth y set derfynol o Reoliadau cychwynnol i rym ar 1 Ebrill 2023. Mae'r rheoliadau hyn yn uniongyrchol berthnasol a goblygiadol ar gyfer y trosglwyddiad arfaethedig, yn enwedig o ran trethiant a staffio. Cydnabyddir nad oeddem yn gallu sicrhau rhai darpariaethau statudol disgwyliedig, yn enwedig ynghylch cytundebau dirprwyo. Fodd bynnag, ystyrir y bydd y trefniadau trosglwyddo arfaethedig yn darparu fframwaith llywodraethu a fydd yn bodloni ac yn mynd i'r afael â'r materion a godir, er drwy lwybr gwahanol.

4.4. Ar 1 Mehefin 2024, roedd eitem 9, Atodiad 1 yn rhoi diweddariad i'r CBC ar gynnydd i sefydlu'r CBC. Roedd hyn yn cynnwys y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam, yn ogystal â'r Cynllun Datblygu Strategol. Cyfeiriodd at yr angen i'r CBC ymgymryd â dyletswyddau a swyddogaethau statudol, megis Safonau Cymru a chydymffurfio â dyletswyddau cyrff cyhoeddus fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol. Mynegwyd fod angen creu Bwrdd Prosiect Gweithredol er mwyn i CBC y Gogledd drosglwyddo'r swyddogaethau i'r CBC.

## 5. STRWYTHUR LLYWODRAETHU ARFAETHEDIG - SWYDDOGAETH LLES ECONOMAIDD

5.1. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r pŵer sydd gan y CBC i hyrwyddo lles economaidd y rhanbarth. Mae hwn yn bŵer nid yn ddyletswydd ac mae'n cyd-fyw â'r rolau sydd gan y Cynghorau Cyfansoddol a chyrff eraill mewn perthynas â datblygu economaidd. Roedd y penderfyniad mewn egwyddor gwreiddiol mewn perthynas â throsglwyddo'r Cynllun Twf yn rhagweld Is-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd. Fodd bynnag, mae'r CBC yn ei gyfanrwydd bellach wedi mabwysiadu brand Uchelgais Gogledd Cymru, a chynigir sefydlu Is-bwyllgor Lles Economaidd i gefnogi gwaith y CBC a chyflawni'r swyddogaeth hon. Gellir dod o hyd i'r model arfaethedig yn ***Atodiad 1*** yr adroddiad hwn.

5.2. Y prif ddadleuon cefnogol dros fabwysiadu'r strwythur hwn yw:

- Bydd yn galluogi i'r CBC ei hun i gynnal rôl strategol ar draws ei holl swyddogaethau.
- Bydd y CBC yn parhau i reoli cynnwys y portffolios, dyrannu cyllid a dewis prosiectau.
- Mae'n mynd i'r afael â risg capasiti gan fod y CBC yn cymryd rôl weithredol ar draws ei swyddogaethau a'i ddyletswyddau. Mae'r adroddiad ar y Parth Buddsoddi a'r galwadau cynyddol ar y CBC yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r mater hwn yn datblygu.
- Gall yr Is-bwyllgor Lles Economaidd ganolbwyntio ar weithredu rhaglenni'r CBC, ac yn enwedig cymeradwyo achosion Busnes Prosiectau'r Cynllun Twf.
- Bydd yn hwyluso cyfethol sy'n adlewyrchu model y Bwrdd Uchelgais Economaidd o fewn y swyddogaeth Lles Economaidd.

5.3. Un o nodau'r trosglwyddiad oedd cynnal trefniadau cyfredol cyn belled ag y bo'n ymarferol ynghylch Cytundeb Llywodraethu 2 (GA2). O ganlyniad, cynigiodd y dylid cadw'r trefniadau cefnogaeth ac ymgynghorol presennol, y Grŵp Gweithredol, y Bwrdd Portffolio a bwrdd y Sector Preifat a adwaenir ar hyn o bryd fel y Bwrdd Cyflawni Busnes ac iddynt weithredu fel cynghorwyr i'r CBC a'r Is-bwyllgor. O ystyried bod gan y CBC gylch gwaith ehangach na'r Cynllun Twf, cynigir bod Cylch Gorchwyl ac aelodaeth y Bwrdd Cyflawni Busnes presennol yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r cylch gwaith ehangach hwn a bod Cadeirydd Bwrdd Cynghori'r Sector Preifat yn cael ei recriwtio fel Cyfarwyddwr Anweithredol Gweithredol. Awgrymodd hefyd y byddai cynrychiolwyr sy'n gweithredu fel Cynghorwyr i'r Bwrdd Uchelgais yn cael eu cyfethol i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd ar sail heb bleidlais. Ond hefyd, bod cynrychiolydd Awdurdod Parc

Cenedlaethol Eryri a chadeirydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol hefyd yn cael eu cyfethol ar yr un sail.


5.4. Bydd yn rhaid i'r CBC, maes o law (o fewn y flwyddyn ariannol hon) adolygu ei lywodraethu cyffredinol, pwy mae'n ei gyfethol ac i ba gorff. Fodd bynnag, mae nifer o ffactorau i'w hystyried wrth fynd i'r afael â chyfethol. Rhaid edrych ar y materion hyn yng nghyd-destun pwerau a dyletswyddau ehangach y CBC a rolau posibl ar gyfer partneriaid a rhanddeiliaid eraill. Mae'r Canllawiau Statudol ar y CBC yn rhoi pwyslais ar "gynnwys eraill". Mae'r Canllawiau'n adnabod ystod o randdeiliaid ar draws sectorau a allai gael eu cyfethol neu gefnogi a chymryd rhan yn y CBC. Fodd bynnag, mae angen ystyried a datblygu hyn yn gyfannol. Am y rheswm hwn, mae'r trefniadau cyfethol arfaethedig yn y strwythur yn y bôn wedi'u hanelu at hwyluso trosglwyddo'r Cynllun Twf a chynnal, cyn belled ag y bo modd, y model cyfredol sydd i'w gael yn y Bwrdd Uchelgais. Ond bydd angen ailedrych arno fel rhan o ddatblygiad cyffredinol llywodraethu'r CBC.

## 6. DIWEDDARIAD AR GYNNYDD I SEFYDLU'R CBC

6.1. Mae swyddog ar sail contract wedi'i benodi i ymgymryd â rôl Arweinydd Rhaglen Weithredu'r CBC. Dechreuodd hyn ar 15th Gorffennaf i gymryd lle adnodd a secondwyd gan Lywodraeth Cymru i ymgymryd â'r rôl a ddaeth i ben ar 7th Mehefin.

6.2. Mae bwrdd rhaglen weithredu wedi'i sefydlu gydag adolygiadau cynllunio yn cyd-fynd â phob ffrwd waith weithredu sy'n cael ei chynnal yn ystod mis Gorffennaf/Awst i adnabod a mynd i'r afael â hyder/heriau cyflawni. Mae'r bwrdd rhaglen yn canolbwyntio ar ffrydiau gwaith sy'n cynnwys cyfreithiol a llywodraethu, Adnoddau Dynol, TG a Digidol, Cyllid, Systemau ac Adnoddau a Chyfathrebu sydd i gyd yn ymwneud â throsglwyddiad arfaethedig y Cynllun Twf, ei gyllid a'r PMO.

6.3. Y dyddiad targed ar gyfer trosglwyddo a mynd yn fyw yw 1 Tachwedd, sy'n dibynnu ar dderbyn y cymeradwyaethau gofynnol ar gyfer trosglwyddo. Mae'r bwrdd gweithredu hefyd yn monitro ac yn rheoli risgiau, materion a dibyniaethau (mewnol ac allanol) sy'n gysylltiedig â throsglwyddo swyddogaethau a pharodrwydd i fynd yn fyw. Mae crynodeb o'r llinell amser gweithredu wedi'i chynnwys yma.



6.4. Cyflwynir adroddiad ar wahân i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, y Parth Buddsoddi a Safonau'r Gymraeg. Mae'r amserlen ar gyfer datblygu'r Cynllun Datblygu Strategol yn cael ei hadolygu. Mae'n debygol y bydd angen cymorth contract allanol i gefnogi datblygiad Cytundeb Cyflawni Gogledd Cymru. Bydd diweddariad pellach yn cael ei gyflwyno i'r CBC yn y dyfodol. Mae gwaith ar y gweill i gynllunio cyfarfod cyntaf yr Is-bwyllgor Cynllunio maes o law.

6.5. Er mwyn gweithredu'r trosglwyddiad mae yna faterion cyfreithiol allweddol sy'n cael eu datblygu:

i. Cytundeb gyda'r Llywodraethau ar drosglwyddo (novation) y Cynllun Twf drosodd i'r CBC a'r model ar gyfer cyflawni hyn. Mae'r egwyddor i drosglwyddo wedi derbyn cefnogaeth y llywodraeth.

ii. Creu Cytundeb Gweithio ar y Cyd rhwng partïon GA2 a'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Bydd y cytundeb yn olynydd i GA2 ac mewn sawl ffordd bydd yn adlewyrchu'r trefniadau presennol. Fodd bynnag, bydd statws corfforedig gwahanol y CBC yn golygu y bydd angen mynd i'r afael ag agweddau ar y cytundeb mewn ffyrdd gwahanol. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r ffaith bod GA2 wedi creu Cyd-bwyllgor o'r Cynghorau Cyfansoddol gyda phwerau dirprwyedig tra bod y CBC (er gwaethaf ei enw) yn gorfforaeth statudol. Y nod, fodd bynnag, yw adlewyrchu a cheisio ailadrodd y trefniadau partneriaeth o fewn y model trosglwyddo "codi a symud". Bwriad y trefniant llywodraethu arfaethedig a nodir uchod yw paratoi'r ffordd i'r gwaith hwn barhau.

iii. Mae'r gwaith ar sefydlu fframwaith craffu ar gyfer y CBC ar draws ei holl swyddogaethau yn mynd rhagddo a'r bwriad yw bod y gwaith hwn yn cael ei wneud ochr yn ochr â'r prosiect trosglwyddo.

## 7. GOBLYGIADAU ARIANNOL

7.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a cheisio cymeradwyaeth ar gyfer y strwythur llywodraethu fel y nodir yn yr adroddiad. Er y bydd costau yn amlwg yn gysylltiedig â llywodraethu'r CBC wrth symud ymlaen, mae'r rhain eisoes wedi'u cyllidebu, naill ai fel rhan o gyllideb y CBC neu Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiadau gwariant newydd.

## 8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

8.1. Mae'r adroddiad yn nodi goblygiadau cyfreithiol a llywodraethu'r penderfyniad a geisir.

---

ATODIADAU:

**Atodiad 1:** Strwythur Llywodraethu Arfaethedig

---


YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Cydawdur yr adroddiad

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Rwy'n fodlon bod y wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchiad cywir o'r sefyllfa bresennol o ran sefydlu'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig a'r camau nesaf sydd i'w dilyn."


CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG
AELODAU GYDA PHLEIDLAIS
Arweinwyr y 6 Awdurdod Lleol
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
AELODAU CYFETHOLEDIG
I'w benderfynu gan y CBC
Cynllun Twf
Cymeradwyo Prosiectau i Bortffolio'r Cynllun Twf
Cymeradwyo dyrannu cyllid a newidiadau i gyllid
Monitro perfformiad, cyflawni a risgiau
Cymeradwyo prosiectau ABLI y Cynllun Twf a gyfeiriwyd oherwydd risgiau anarferol
Cyd-ddewis Aelodau i'r is-bwyllgorau
IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD
AELODAU GYDA PHLEIDLAIS
6 Aelod Cabinet Portffolio Economi yr Awdurdodau Lleol
CYFETHOLEDIG - HEB BLEIDLAIS
Colegau a Phrifysgolion
Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes
Cadeirydd y Bartneriaeth Sgiliau
Cynrychiolydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Bwrdd Cynghori'r Sector Preifat (i'w gadarnhau)
Bwrdd Portffolio
Gweithio o fewn dyraniad cymeradwyo ariannol a'r Achos Busnes Portffolio
Cymeradwyo Achosion Busnes Amlinellol
Cymeradwyo Achosion Busnes Llawn
Cymeradwyo Cytundebau Ariannu
= Ymgynghorol
= Dirprwyedig
PRIF WEITHREDWR Y CBC
Dirprwyaeth benodol o benderfyniadau a ganiateir yr Is-bwyllgor Lles Economaidd.
Cymeradwyo amrywiadau diffiniedig i gytundebau ariannu.

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

6 Medi, 2024

| | |
|---|---|
| TEITL: | Diweddariadau Cyfansoddiadol |
| AWDUR: | Iwan Evans, Swyddog Monitro |

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Rhoi diweddariad ar y Cyfansoddiad i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Mabwysiadu:

i. Adrannau 1 - 3
ii. y cynllun dirprwyo
iii. rheolau gweithdrefnol ariannol

2.2. Dirprwyo i'r Swyddog Monitro'r pŵer i wneud y mân addasiadau a ganlyn i'r Cyfansoddiad:

(a) diwygiadau cyfreithiol neu dechnegol nad ydynt yn effeithio o bwys ar y Cyfansoddiad;
(b) newidiadau sy'n ofynnol i'w gwneud er mwyn dileu unrhyw anghysondeb, amwysedd neu wall teipograffeg;
(c) geiriad er mwyn rhoi ar waith unrhyw benderfyniad gan y CBC neu ei is-bwyllgorau neu swyddog yn defnyddio pwerau dirprwyedig;
(d) newidiadau sy'n ofynnol i adlewyrchu unrhyw newid i deitl unrhyw swydd neu rôl.

3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Rhaid i'r CBC gael cyfansoddiad cynhwysfawr a gweithredol er mwyn iddo allu cyflawni ei swyddogaethau.

3.2. Mae gan y CBC ddyletswydd i baratoi a chyhoeddi Cyfansoddiad yn unol â Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r darpariaethau pellach hynny yn y Cyfansoddiad sydd angen eu mabwysiadu **(gweler yr Atodiadau**).

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae'n ofyn statudol i'r CBC gael Cyfansoddiad, ac mae'r arweiniad statudol yn darparu fod yn "rhaid cynnwys copi o orchmynion sefydlog y CBC, copi o god ymddygiad y CBC ac unrhyw wybodaeth y mae'r CBC yn ei hystyried yn briodol. Bydd y Cyfansoddiad hefyd yn dymuno ystyried materion o'r math a amlinellir yn Rheoliadau'r CBC yn cynnwys, er enghraifft, yr Atodlen i'r Rheoliadau Sefydlu."

4.2. Gan fod y gwaith yn mynd rhagddo i wreiddio swyddogaethau'r CBC wrth ddatblygu'r llywodraethiant ynghylch cyflawni ei gynllunio strategol a'i swyddogaethau trafnidiaeth, ac yn sgil ein bod ar fin trosglwyddo strwythurau a chyllid i gefnogi darparu economaidd yn y rhanbarth, mae'n bwysig fod gan y CBC y pwerau angenrheidiol yn eu lle i gefnogi ei benderfyniadau. Gwedd bwysig yn hyn fydd y pwerau sy'n gysylltiedig â chyllid, caffael a gwariant a'r angen i sicrhau bod y penderfyniadau hyn yn digwydd ar y lefel gywir o fewn y strwythur staffio a bod y CBC yn cadw'r rheolaeth iawn i gymeradwyo a monitro gwariant yn unol â'r cynllun dirprwyo.

4.3. Rhannwyd y tabl isod yn flaenorol ac mae bellach wedi'i ddiweddaru i ddangos y cynnydd:

| Teitl | Cynnydd |
|---|---|
| 1. PWRPAS, DIFFINIADAU, CYNNAL | Yn yr adroddiad |
| 2. MYNEDIAD AT WYBODAETH A CHYFRANNU I WAITH Y CBC | Yn yr adroddiad |
| 3. RHEOLAU SEFYDLOG | Mabwysiadwyd |
| 4. RHEOLAU SEFYDLOG IS-BWYLLGORAU | Mabwysiadwyd |
| 5. IS-BWYLLGORAU | Mabwysiadwyd |
| 6. SWYDDOGION | Yn yr adroddiad |
| 7. CONTRACTAU A MATERION CYFREITHIOL | Mabwysiadwyd |
| 8. CYNLLUN DIRPRWYO | Yn yr adroddiad |
| 9. RHEOLAU ARIANNOL | Yn yr adroddiad |
| 10. RHEOLAU SEFYDLOG CAFFAEL | Mabwysiadwyd |
| 11. COD YMDDYGIAD YR AELODAU | Mabwysiadwyd |
| 12. PROTOCOL AELODAU SWYDDOGION | I'w baratoi mewn ymgynghoriad â'r Is-bwyllgor Safonau |
| 13. CANU'R GLOCH | I'w baratoi mewn ymgynghoriad â'r Is-bwyllgor Safonau |

4.4. Yr argymhelliad yw mabwysiadu:

i. **Rhannau 1 - 3 y Cyfansoddiad** (wedi'u hamlinellu yn 1 a 2 yn y tabl uchod) Mae'r rhain yn ddarpariaethau safonol ar gyfer unrhyw Gyfansoddiad ac yn gosod y drefn o ran y pwrpas a'r pwerau sydd ar gael i'r CBC:

**Adran 1** - yn rhoi cyflwyniad cyffredinol i'r Cyfansoddiad, rôl a swyddogaethau'r CBC.
**Adran 2** - yn amlinellu diffiniadau a dehongliadau'r termau a ddefnyddir yn y Cyfansoddiad.
**Adran 3** - yn darparu gwybodaeth o ran sut all Aelodau a'r cyhoedd fod yn rhan o waith y CBC.

Mae yna adran ar wahân sy'n amlinellu rôl a grymoedd y Prif swyddogion (cyfeirir ato yn 6 yn y tabl uchod).

ii. **Y cynllun dirprwyo**. Bydd yr aelodau'n chwilio am sicrwydd bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y lefel gywir ac wrth ddefnyddio pwerau dirprwyedig dan y cynllun bydd y materion hynny a ystyrir yn ddyrys neu'n sylweddol o ran risg yn cael eu hadrodd i'r CBC er cymeradwyaeth.

Mae'r cynllun dirprwyo yn cynnig y dylai'r CBC gadw'r cyfrifoldeb am gymeradwyo unrhyw wariant rhaglen cyfalaf sydd dros £50k, a chyfrifoldeb y Prif Weithredwr fydd penderfyniadau sy'n is na'r ffigwr hwn pan fo darpariaeth yn y gyllideb.

Pan fo'r CBC yn derbyn cyllid megis arian cyfalaf neu fenthyciad ar ôl ei gymeradwyo gan y CBC cynigir i'r arian hwn gael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr i'w brosesu fel grant uniongyrchol trwy achosion busnes prosiectau unigol. Bydd y CBC yn derbyn adroddiad chwarterol yn amlinellu'r prosiectau, gwerthusiadau achosion busnes a'r gwariant.

Mae'r cynllun dirprwyo'n datgan wrth wneud penderfyniadau dirprwyedig, neu ystyried gwneud penderfyniadau o'r fath rhaid i bob aelod o staff ystyried a ydynt yn gwneud penderfyniad sy'n cynnwys gwariant sylweddol yng nghyllideb y CBC. Mae gwariant sylweddol wedi'i ddiffinio fel gwariant sydd dros £50,000. Os mai dyma yw'r achos, neu os oes posib i'r penderfyniad effeithio ar enw da'r CBC, greu risg sylweddol i'r CBC neu effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth, sefydliadau partner neu bwyllgorau y tu allan i'r CBC o ran eu henw da neu yn ariannol, rhaid ystyried a ddylai'r CBC benderfynu ar y materion hyn. Mae pob mater sy'n cynnwys gwariant unigol o £250,000 neu fwy yn benderfyniadau a gedwir gan y CBC.

O ran materion cytundebol, mae'r cynllun dirprwyo yn adlewyrchu egwyddorion presennol y Rheolau Gweithdrefnol Contractau a chedwir y trothwyon ariannol o £5,000 a £50,000 ar gyfer penderfyniadau dirprwyedig swyddogion. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn gyfartal â Rheolau cyfredol ac yn darparu ar gyfer swyddogion i awdurdodi prynu pethau sydd werth hyd at £5,000 a gall y swyddogion hynny sydd ag awdurdod dirprwyedig brynu ar sail tri dyfynbris sy'n destun Rheolau Gweithdrefn Contractau gwaith, nwyddau a gwasanaethau rhwng £5,000 a £50,000.

Mae'r Prif Weithredwr yn cadw'r grym i wneud penderfyniadau ar gontractau sydd werth dros £50,000 hyd at y terfyn arfaethedig o £250,000 i alluogi gwneud penderfyniadau ar lefel dderbyniol yn unol â lefelau dirprwyo a welir yn nheulu llywodraeth leol. Mae'r Rheolau Gweithdrefn Contractau yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd i gynnwys gofynion Deddf Caffael 2023 a Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 a bydd yn rhaid adrodd am unrhyw newidiadau maes o law er mwyn diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau hynny. Yn yr un modd, wrth i'r CBC fynd trwy'r camau trawsnewidiol hyn ac ymsefydlu, mae'n bosib y bydd yr Aelodau maes o law yn dymuno ailymweld â'r lefelau dirprwyo i sicrhau nad yw'r broses gwneud penderfyniadau'n ei rwystro rhag cyflawni ei swyddogaethau'n amserol.

iii. **Rheolau Gweithdrefnol Ariannol** - mae'r rhain yn cydymffurfio â CIPFA ac yn darparu ar gyfer proses i sicrhau bod penderfyniadau trafodaethol yn dilyn proses glir a chynhwysfawr, sy'n agored i gael ei chraffu a'i harchwilio. Mae'r Rheolau'n cyd-fynd â'r Rheolau Gweithdrefnol Contractau a fabwysiadwyd ac yn adlewyrchu'r rhai y mae Cyngor Gwynedd wedi'u mabwysiadu.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Dim

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad.

---

ATODIADAU:

**Atodiad 1:** Adrannau 1 - 3

**Atodiad 2:** Y Cynllun Dirprwyo

**Atodiad 3:** Rheolau Gweithdrefnol Ariannol

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Awdur yr adroddiad.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

“Rwyf wedi cael y cyfle i roi mewnbwn i'r broses o baratoi'r Cyfansoddiad hwn. Rwyf yn fodlon ei fod yn gadarn ac yn diwallu ei ddiben, ac rwy'n cefnogi'r penderfyniad a geisir.”

**ADRAN 1**

**1. CYFLWYNIAD**

**1.1 Pwrpas a Chynnwys y Cyfansoddiad**

Mae'r ("CBC") Cyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru yn gorff corfforedig a sefydlwyd gan Reoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru 2021 - "Rheoliadau Sefydlu".

1.1.2 Mae gan y CBC ddyletswydd i baratoi a chyhoeddi Cyfansoddiad (adran 37(5) Deddf Llywodraeth Leol 2000)

1.13 Mae'r tudalennau Cynnwys ar ddechrau'r Cyfansoddiad hwn yn darparu arweiniad ar beth sydd yn y Cyfansoddiad a ble y gellir dod o hyd iddo.

1.1.4 Mae'r Cyfansoddiad y disgrifio sut mae'r CBC wedi ei lunio, ei rôl, swyddogaethau, aelodaeth a'r rheolau gweithdrefn.

1.1.5 Yn Adran 3 (Cael Gwybodaeth a Chymryd Rhan) rydym wedi darparu gwybodaeth i aelodau'r cyhoedd ac Aelodau am sut y gallwch gael gwybodaeth am y CBC. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn helpu pobl sydd â diddordeb yng ngwaith y CBC, a sut y gallwch gymryd rhan ynddo.

1.1.6 Gallwch gael gwell dealltwriaeth o rôl a swyddogaethau'r CBC yn adrannau [ ] o'r Cyfansoddiad hwn, gan gynnwys rôl y CBC a'i is-bwyllgorau yn adrannau [ ]

Mae Adran [ ] yn darparu gwybodaeth am y strwythurau rheoli a Swyddogion y CBC. Mae gan rai Swyddogion ddyletswydd benodol i sicrhau bod y CBC yn gweithredu o fewn y gyfraith ac yn defnyddio adnoddau yn ddoeth. Dywed Cyfrifoldeb dros swyddogaethau yn adran [ ] beth a lle mae'r penderfyniadau yn cael eu gwneud yn y CBC, a pha Swyddogion sydd ag awdurdod i wneud pa benderfyniadau.

1.1.7 Yn Adrannau [ ] ceir y Codau Ymddygiad a'r Protocolau sy'n gosod y safon ymddygiad i Swyddogion ac Aelodau. Mae'r holl Swyddogion a'r Aelodau wedi cytuno i gydymffurfio gyda'r Codau a'r protocolau hyn.

**1.2 Sut mae'r CBC yn Gweithredu**

**Y "CBC"**

1.2.1 Mae'r holl Aelodau wedi cytuno i ddilyn Cod Ymddygiad, i sicrhau safonau uchel yn y ffordd maent yn ymgymryd â'u dyletswyddau. Y Pwyllgor Safonau sy'n gyfrifol am hyfforddi a chynghori ar y Cod Ymddygiad.

1.2.2 Cyhoeddir dyddiadau cyfarfodydd y CBC ac mae'n cyfarfod yn rheolaidd. Gall gyfarfod o bell (trwy ddolen ar-lein) neu wyneb-yn-wyneb mewn lleoliad fydd yn cael ei hysbysu ymlaen llaw cyn unrhyw gyfarfod. Fel arfer, mae cyfarfodydd y CBC ar agor i'r cyhoedd oni bai bod gwybodaeth o natur gyfrinachol neu eithriedig yn cael ei thrafod.

1.2.3 Mae aelodaeth CBC yn cynnwys:

(i) 'Aelodau Cyngor' y CBC yw arweinyddion gweithredol y chwe Chyngor Cyfansoddol:

(a) Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

(b) Cyngor Sir Ddinbych

(c) Cyngor Bwrdeistref Sir y Fflint

(d) Cyngor Gwynedd

(e) Cyngor Sir Ynys Môn

(f) Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

(ii) Aelod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ("Aelod Eryri"), a

(iii) Unrhyw Aelod Cyfetholedig

1.2.4 Caiff Aelod Eryri ei benodi gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (y "Parc Cenedlaethol") ac mae'n rhaid iddo fod yn un o'r deiliaid swyddi a ganlyn:

(a) Cadeirydd y Parc Cenedlaethol;

(b) Dirprwy Gadeirydd y Parc Cenedlaethol; neu

(c) Gadeirydd pwyllgor sydd â chyfrifoldeb am faterion cynllunio fel y gellir ei sefydlu gan y Parc Cenedlaethol.

1.2.5 Os nad yw Aelod o'r Cyngor yn medru gweithredu fel aelod am unrhyw gyfnod, rhaid i'r Cyngor Cyfansoddol y mae'r Aelod Cyngor yn aelod ohono benodi aelod arall o'r weithrediaeth neu fod yn eilydd i'r Aelod Cyngor am y cyfnod hwnnw. Os na all Aelod Eryri weithredu fel aelod am unrhyw gyfnod gall y Parc Cenedlaethol benodi un o'r deiliaid swyddi eraill a restrir uchod ym mharagraff 1.2.4 i gymryd lle Aelod Eryri am y cyfnod hwnnw. Mae darpariaethau Rheoliad 7(2) o'r "Rheoliadau Sefydlu" yn gymwys.

1.2.6 Mae Rheoliad 7(2) o'r "Rheoliadau Sefydlu" yn gwneud darpariaeth ar gyfer atal Aelodau'r Cyngor a/neu Aelod Eryri.

1.2.7 Bydd pob Aelod Cyngor yn gweithredu fel aelod o'r CBC yng nghyswllt holl swyddogaethau'r CBC.

1.2.8 Bydd Aelod Eryri yn gweithredu fel aelod o'r CBC yng nghyswllt swyddogaeth y Cynllun Datblygu Strategol ac unrhyw swyddogaeth sy'n ategol neu'n gysylltiedig â'r swyddogaeth honno.

1.2.9 Gall y CBC, drwy gytundeb ysgrifenedig, gyfethol un neu fwy o unigolion fel aelodau'r CBC ("Aelod Cyfetholedig"). Bydd Rheoliad 9 o'r "Rheoliadau Sefydlu" yn gymwys mewn perthynas ag Aelodau Cyfetholedig o'r fath a fydd yn gweithredu yn unol â'u penodiad.

**IS-BWYLLGORAU**

2.1 Rhaid i'r CBC sefydlu is-bwyllgor a adwaenir fel Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio) i

(a) adolygu a chraffu materion ariannol y CBC;

(b) gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â materion ariannol y CBC;

(c) adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol y CBC;

(d) gwneud adroddiadau ac argymhellion i'r CBC ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny;

(e) adolygu ac asesu gallu'r CBC i ymdrin â chwynion yn effeithiol;

DRAFT

(f) gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r CBC i ymdrin â chwynion yn effeithiol;

(g) goruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol y CBC;

(h) adolygu unrhyw ddatganiadau ariannol a baratoir gan y CBC;

(i) ymgymryd ag unrhyw swyddogaethau eraill fel y pennir gan y CBC.

2.1.2 Bydd y CBC yn mabwysiadu cylch gorchwyl yr is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn 1 Mehefin 2022 a gall y CBC ddiwygio'r cylch gorchwyl hwnnw o bryd i'w gilydd.

2.1.3. Bydd y CBC yn penodi Pwyllgor Safonau yn unol â'r cylch gorchwyl a fabwysiadwyd gan y CBC cyn 1 Mehefin 2022 a gall y CBC ddiwygio'r cylch gorchwyl hwnnw o bryd i'w gilydd.

2.1.4. Gall y CBC benodi is-bwyllgor i wneud argymhellion i'r CBC a bydd yn mabwysiadu cylch gorchwyl ar gyfer yr is-bwyllgor a gall y rhain gael eu diwygio gan y CBC o bryd i'w gilydd.

2.1.5. Gall y CBC sefydlu un neu fwy o is-bwyllgorau at ddiben cyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau, yn amodol ar y Rheolau Sefydlog, i gyflawni mewn perthynas ag ardal pob cyngor cyfansoddol y swyddogaeth o ddatblygu ac adolygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a pholisïau trafnidiaeth, paratoi ac adolygu cynllun Datblygu Strategol, ac arfer y swyddogaeth llesiant economaidd, ac unrhyw beth i'w hwyluso neu sy'n gysylltiedig neu'n ffafriol i arfer ei swyddogaethau. Efallai y bydd y CBC yn sefydlu Is-bwyllgorau eraill o'r fath fel y cred sy'n angenrheidiol i gefnogi ei swyddogaethau.

2.1.6. Gall is-bwyllgor a benodir gan y CBC gynnwys, neu gynnwys yn gyfan gwbl, bersonau nad ydynt yn aelodau o'r CBC.

2.1.7 Rhaid i swyddogaethau is-bwyllgor, nifer aelodau is-bwyllgor a thymor swydd pob aelod gael eu pennu gan y CBC a chaiff yr is-bwyllgor ond arfer y swyddogaethau hynny fel y dirprwyir iddo gan y CBC.

2.1.8 Bydd y CBC, wrth sefydlu is-bwyllgor yn sefydlu'r trefniadau pleidleisio fel rhan o gylch gorchwyl yr is-bwyllgor.

2.1.9 Mae'r Rheolau Sefydlog yn berthnasol i gyfarfod o is-bwyllgor y CBC fel y maent yn gymwys i gyfarfod o'r CBC.

2.1.10 Bydd unrhyw ddirprwyaeth i is-bwyllgor yn ddarostyngedig i'r Rheolau Sefydlog.

DRAFT

**ADRAN 2**

**2. DIBEN, DIFFINIADAU, DEHONGLIAD A DIWYGIO’R CYFANSODDIAD**

2.1 Pwrpas y Cyfansoddiad yw darparu fframwaith ar gyfer llywodraethu da i:

2.1.1 alluogi'r CBC i ddarparu arweinyddiaeth glir i'r gymuned mewn partneriaeth â dinasyddion, busnesau a sefydliadau eraill, gan gynnwys ei gynghorau cyfansoddol, awdurdod parc cenedlaethol a chyrff cyhoeddus eraill;

2.1.2 cefnogi cynnwys dinasyddion yn weithredol yn y broses gwneud penderfyniadau;

2.1.3 helpu Aelodau i gynrychioli eu hetholwyr yn fwy effeithiol;

2.1.4 galluogi i benderfyniadau gael eu gwneud yn effeithlon ac yn effeithiol;

2.1.5 creu dull pwerus ac effeithiol o ddal y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn atebol i'r cyhoedd;

2.1.6 sicrhau na fydd unrhyw un yn craffu ar benderfyniad lle'r oedd ganddynt ran uniongyrchol yn gwneud y penderfyniad hwnnw;

2.1.7 sicrhau ei bod yn gwbl glir i bobl leol pwy sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau a'u bod yn egluro'r rhesymau am benderfyniadau; a

2.1.8 darparu ffordd o wella darpariaeth gwasanaethau i'r gymuned.

**2.2 Diffiniadau yn y Cyfansoddiad**

2.2.1 Cyfansoddiad y CBC yw'r ddogfen hon.

2.2.2 O fewn y Cyfansoddiad mae gan y geiriau a'r ymadroddion canlynol yr ystyr a nodir isod:

“Cyllideb” yw’r gyllideb refeniw a chyfalaf gyffredinol a gymeradwywyd gan y CBC (adran 4);

"Prif Weithredwr" yw’r Swyddog y mae'n rhaid ei benodi yn ôl y gyfraith i gyflawni swyddogaethau penodol.

"Prif Swyddog" yw’r Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Ariannol (swyddog a.151).

"Cyfarfod Blynyddol" yw’r Cyfarfod Blynyddol a gynhelir ym mis Mehefin bob blwyddyn.

"Aelod Eryri" yw’r person a benodwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri fel ei gynrychiolydd ar y CBC.

"Dyddiau clir" yw nifer y dyddiau y mae'n rhaid cyhoeddi hysbysiad a gwŷs cyfarfod cyn cyfarfod. Nid yw'r dyddiau clir yn cynnwys (a) y diwrnod y caiff y ddogfen ei chyhoeddi a/neu ei derbyn; a (b) diwrnod y cyfarfod; (c) penwythnosau a gwyliau banc.

"Gwybodaeth Gyfrinachol" – mae hyn yn golygu’r ystyr a nodir yn Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (Cyffredinol) (Rhif 2)(Cymru) 2021 – Gweler Adran 16.

"Cyngor Cyfansoddol" yw un o'r 6 Chyngor y mae eu haelodaeth yn gyfystyr â'r CBC (para. 1.2.3 (i))

"Aelod Cyfetholedig" yw’r person a benodir gan y CBC ar unrhyw delerau y mae'n eu pennu.



DRAFT

"Cydbwyllgor Corfforaethol" yw’r corff corfforaethol, a sefydlwyd gan Reoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru 2021 i arfer y swyddogaethau canlynol: (a) Lles economaidd (adran 76 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021) (b) datblygu polisïau trafnidiaeth a pharatoi cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol (Rhan 2 Deddf Trafnidiaeth 2000) a (c) paratoi cynlluniau datblygu strategol (Rhan 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004).

"Aelod o'r Cyngor" yw Arweinydd un o'r Cynghorau Cyfansoddol.

"Deddfwriaeth Diogelu Data" yw Deddf Diogelu Data 2018, Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (UK GDPR) a'r holl gyfreithiau eraill sy'n ymwneud â defnyddio, diogelu a phreifatrwydd data personol.

"Sefydlu Rheoliadau" yw Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru 2021.

"Gwybodaeth Eithriedig" – bydd ystyr hyn yn cael ei chymhwyso ymhellach i Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (Cyffredinol) (Rhif 2)(Cymru) 2021 – Gweler Adran 16(7).

"Blaen-Raglen Waith" - mae'r Flaen-Raglen Waith yn ddogfen sy'n rhestru'r holl benderfyniadau y mae'r CBC yn bwriadu eu gwneud a phryd y bydd y materion hynny'n cael eu trafod. Nid yw hyn yn atal materion brys neu annisgwyl rhag cael eu hystyried.

"Aelod Annibynnol (Lleyg)" yw aelod o'r Pwyllgorau Safonau a Llywodraethu ac Archwilio nad yw'n: (a) aelod o'r CBC; (b) swyddog; neu (c) priod aelod o CBC neu swyddog, neu unrhyw swyddog arall i'r naill awdurdod neu'r llall.

"Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011" y cyfeirir ato fel "Y Mesur". Cyflwynwyd deddfwriaeth, ymhlith pethau eraill, i gryfhau democratiaeth leol, delio â newidiadau i drefniadau gweithredol, trosolwg a chraffu, cynghorau sir a thaliadau Aelodau.

"Aelod" – mae hyn yn cynnwys Aelod CBC, Aelod Eryri ac Aelod Annibynnol neu Gyfetholedig.

"Swyddog Monitro" - bydd y Swyddog Monitro yn swyddog a benodir gan y CBC, yn Swyddog y mae'n rhaid ei benodi yn ôl y gyfraith i gyflawni swyddogaethau penodol.

"Swyddogion" – ystyr hyn yw'r Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, Swyddog Adran 151 ac unrhyw aelod o staff y CBC.

"Cynllun Deisebau" yw cynllun a baratowyd ac a gyhoeddwyd yn unol ag adran 42 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (ac a adolygwyd o bryd i'w gilydd) at ddiben nodi: • sut y gellir cyflwyno deiseb i'r CBC • sut a phryd y bydd y CBC yn cydnabod derbyn deiseb • y camau y bydd y CBC yn eu cymryd mewn ymateb i ddeiseb a dderbyniwyd ganddo • yr amgylchiadau (mewn unrhyw amgylchiadau) lle na chaiff y Cyngor gymryd unrhyw gamau pellach mewn ymateb i ddeiseb a • sut bynnag erbyn pryd y bydd y CBC yn sicrhau bod ei ymateb ar gael i ddeiseb i'r person a gyflwynodd y ddeiseb ac i'r cyhoedd.

"Swyddog Priodol" yw’r Swyddog Monitro

"Budd y Cyhoedd" – mae hyn yn golygu’r prawf a nodir yn adran 16(6) a (7) Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (Cyffredinol) (Rhif 2)(Cymru) 2021

"Swyddog Adran 151" - bydd y Swyddog Adran 151 yn cael ei benodi gan y CBC, yn Swyddog y mae'n rhaid iddo gael ei benodi gan y gyfraith i gyflawni swyddogaethau penodol.

"Swyddogaeth Cynllun Datblygu Strategol" yw’r swyddogaeth wrth baratoi cynllun datblygu strategol (Rhan 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004)

"Is-bwyllgorau" - Yr is-bwyllgorau yw: • Is-bwyllgor Cynllunio Strategol • Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol • Llesiant Economaidd • Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio • Safonau • Trosolwg a Chraffu. Noder - bydd cyfeiriadau at Bwyllgor hefyd yn cynnwys Is-bwyllgor;

**2.3 Dehongli'r Cyfansoddiad**

2.3.1 Rydym wedi ceisio gwneud y Cyfansoddiad mor glir a hawdd ei ddeall â phosibl. Yn anochel, bydd gan bobl farn wahanol am beth mae rhai darnau yn ei olygu.

2.3.2 Yn ystod cyfarfodydd, gall y person sy'n cadeirio'r cyfarfod ddehongli rheolau'r weithdrefn berthnasol. Yn ystod y cyfarfod, mae dehongliad y Cadeirydd yn derfynol.

2.3.3 Ym mhob sefyllfa arall, bydd y Swyddog Monitro yn penderfynu ar ddehongliad a chymhwysiad y Cyfansoddiad.

**2.4 Y Ddyletswydd i Fonitro ac Adolygu'r Cyfansoddiad**

2.4.1 Bydd y Swyddog Monitro yn monitro ac yn adolygu gweithrediad y Cyfansoddiad i sicrhau bod nodau ac egwyddorion y Cyfansoddiad yn cael effaith lawn.

2.4.2 Bydd y Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am adolygu'r Rheoliadau Ariannol a nodir yn Adran [ ] y Cyfansoddiad a bydd yn gwneud unrhyw newidiadau a diwygiadau angenrheidiol fel sy'n ofynnol o bryd i'w gilydd. Byddant yn gwneud trefniadau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried unrhyw newidiadau arfaethedig a fydd yn eu tro yn gwneud argymhellion i'r CBC ynghylch unrhyw welliannau a allai fod yn angenrheidiol.

**2.5 Protocol ar gyfer Monitro ac Adolygu'r Cyfansoddiad gan Swyddog Monitro**

Rôl allweddol i'r Swyddog Monitro yw gwneud argymhellion ar gyfer y ffyrdd y gellid diwygio'r Cyfansoddiad er mwyn cyflawni'r dibenion a nodir yn yr adran hon yn well. Wrth ymgymryd â'r dasg hon, gall y Swyddog Monitro:

2.5.1 arsylwi cyfarfodydd o wahanol rannau o'r strwythur Aelodau a Swyddogion;

2.5.2 ymgymryd ag olrhain llwybr archwilio o sampl o benderfyniadau;

2.5.3 cofnodi a dadansoddi materion a godwyd gyda nhw gan Aelodau, Swyddogion, y cyhoedd a rhanddeiliaid perthnasol eraill; a,

2.5.4 cymharu arferion yn y CBC hwn â'r rhai mewn awdurdodau tebyg, neu enghreifftiau cenedlaethol o arfer gorau.

**2.6 Newidiadau i'r Cyfansoddiad**

2.6.1 Bydd newidiadau i'r Cyfansoddiad ond yn cael eu cymeradwyo gan y CBC ar ôl i'r Swyddog Monitro eu hystyried.

2.6.2 Os, ym marn resymol y Swyddog Monitro, newid yw: (a) mân amrywiad; neu (b) y mae'n ofynnol ei wneud i ddileu unrhyw anghysondeb, amwysedd neu gywiriad teipograffig; neu (c) y

DRAFT

mae'n ofynnol ei wneud er mwyn rhoi unrhyw benderfyniad y CBC neu ei bwyllgorau ar waith, ac os felly gall y Swyddog Monitro wneud newid o'r fath. Bydd unrhyw newid o'r fath a wneir gan y Swyddog Monitro yn dod i rym ar unwaith. Bydd newidiadau o'r fath yn cael eu hadrodd i gyfarfod nesaf y CBC er gwybodaeth.

2.6.3 Gall y Swyddog Monitro ddiwygio unrhyw ran o'r Cyfansoddiad lle mae'n ofynnol gwneud newid o'r fath er mwyn cydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth ddeddfwriaethol. Bydd diwygiadau o'r fath yn dod i rym pan fydd y Swyddog Monitro felly'n penderfynu neu'r ddeddfwriaeth (lle bo'n berthnasol) yn darparu hynny. Bydd newidiadau o'r fath yn cael eu hadrodd i gyfarfod nesaf y CBC er gwybodaeth.

**2.7 Atal y Cyfansoddiad**

2.7.1 Gellir atal unrhyw un o’r rheolau gweithdrefn a gynhwysir yn y Cyfansoddiad i'r graddau a ganiateir yn y rheolau hyn a'r gyfraith.

2.7.2 Ni fydd cynnig i atal unrhyw Reolau yn cael ei gymryd heb rybudd oni bai bod holl Aelodau'r Cyngor yn bresennol. Bydd maint a hyd yr ataliad yn gymesur â'r canlyniad sydd i'w gyflawni, gan ystyried dibenion y Cyfansoddiad a nodir yn yr Adran hon.

**2.8 Cyhoeddi**

2.8.1 Bydd y Swyddog Monitro yn sicrhau bod copïau o'r Cyfansoddiad hwn ar gael i'w harchwilio yn swyddfeydd y CBC ac ar eu gwefan.

2.8.2 Bydd y Swyddog Monitro yn darparu dolen i gopi o'r Cyfansoddiad hwn i bob Aelod o'r CBC ar ôl ei gyflwyno iddo / iddi ddatganiad derbyn swydd yr unigolyn hwnnw i'r Aelod sy'n cael ei benodi i'r CBC ac wedi hynny sicrhau bod fersiwn gyfredol ar gael i'w harchwilio a'i chyhoeddi ar wefan y CBC.

2.8.3 Bydd y Swyddog Monitro yn sicrhau bod y Cyfansoddiad yn cael ei ddiweddaru yn ôl yr angen yn unol â pharagraff 2.6.

DRAFT

**ADRAN 3**

**3. CAEL GWYBODAETH A CHYMRYD RHAN**

**3.1 Cael Gwybodaeth**

**3.1.1 Gwybodaeth sydd ar gael i Aelodau'r Cyhoedd**

(a) Pryd y cynhelir cyfarfodydd. Mae rhaglen o gyfarfodydd ar gael drwy gysylltu â'r CBC yn uniongyrchol neu drwy'r wefan.

(b) Blaen-Raglen Waith: O'r Flaen-Raglen Waith, gweler pa benderfyniadau fydd yn cael eu gwneud gan y CBC a pha faterion y bydd yr Is-bwyllgorau yn eu hystyried a phryd y bydd y materion hyn yn cael eu trafod.

(c) Gwybodaeth sydd ar gael cyn Cyfarfod: 5 diwrnod clir cyn cyfarfod, bydd yr agenda, unrhyw adroddiad nad yw'n gyfrinachol neu wedi'i eithrio sy'n debygol o gael ei drafod a phapurau cefndir i'r adroddiad hwnnw ar gael i'w harchwilio yn swyddfeydd y Cyngor ac ar y wefan. Os ychwanegir eitem at yr agenda yn nes ymlaen, bydd yr agenda ddiwygiedig yn agored i'w harchwilio o'r adeg pan ychwanegir yr eitem at yr agenda a bydd unrhyw adroddiad nad yw'n gyfrinachol neu wedi'i eithrio ar gael i'r cyhoedd cyn gynted ag y bydd ar gael ac yn cael ei anfon at Aelodau.

(d) Ni fydd adroddiadau cyfrinachol neu eithriedig a'r holl bapurau cefndir i adroddiadau o'r fath ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd na'u rhoi ar y wefan. Ni fydd gwybodaeth sy'n gyfrinachol neu eithriedig (fel y'i diffinnir yn Adran [ ]) yn cael ei datgelu i aelodau'r cyhoedd.

(e) Gwybodaeth sydd ar gael ar ôl cyfarfod: am gyfnod o chwe blynedd, bydd yr agenda, adroddiadau nad ydynt yn gyfrinachol a chofnodion y cyfarfod ar gael i'w harchwilio a/neu ar y wefan. Ni fydd y papurau cefndir nad ydynt yn gyfrinachol yn cael eu cyhoeddi ar y wefan ond byddant yn parhau ar agor i'w harchwilio am gyfnod o bedair blynedd.

(f) Cyfrifon CBC: Gall aelodau'r cyhoedd archwilio cyfrifon y CBC a rhoi eu barn yn hysbys i'r archwilydd allanol (adrannau 29 a 30 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004). O dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, bydd y cyfrifon ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio am ugain (20) diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad a bennir gan yr archwilydd. Ni fydd gwybodaeth gyfrinachol neu wedi'i heithrio (fel y'i diffinnir ym mharagraffau [ ]) yn cael ei datgelu i aelodau'r cyhoedd ar unrhyw adeg.

**3.1.2 Gwybodaeth ar gael i Aelodau'r CBC**

(a) Gall Aelodau weld unrhyw wybodaeth, sydd ar gael i aelod o'r cyhoedd.

(b) Yn ogystal, caiff Aelod weld unrhyw wybodaeth y mae angen iddo ef / iddi hi ei gwybod er mwyn cyflawni ei rôl ef / hi fel Aelod o'r CBC (a elwir hefyd yn "angen gwybod"). Ni fydd Aelod yn gwneud

DRAFT

gwybodaeth sy'n gyfrinachol neu'n eithriedig (fel y'i diffinnir yn Adran [ ]) yn gyhoeddus heb gydsyniad y CBC nac yn datgelu gwybodaeth a roddir yn gyfrinachol i unrhyw un heblaw Aelod, neu berson(au) neu sefydliad(au) sydd â hawl i wybod.

(c) Rhaid i Aelod beidio ag atal unrhyw berson rhag cael gwybodaeth y mae gan y person hwnnw hawl iddi yn ôl y gyfraith ond cyn darparu'r wybodaeth honno rhaid i'r Aelod wirio'r hawl gyfreithiol honedig gyda'r Swyddog Monitro yn gyntaf - Paragraff 5(b) Rhan 2 Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008.

(d) Ni chaiff Aelod weld unrhyw wybodaeth neu ddogfen lle byddai gwneud hynny yn torri unrhyw ddarpariaeth ddeddfwriaethol megis Deddf Diogelu Data 2018, hawliau unrhyw berson mewn perthynas â chyfrinachedd, neu fuddiannau masnachol, unrhyw ddarpariaeth yn y Cyfansoddiad hwn neu unrhyw bolisi, rheol neu weithdrefn y Llywodraeth.

(e) Nid oes gan unrhyw Aelod hawl i weld unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â mater y mae ganddo fuddiant sy'n rhagfarnu ynddo.

**3.1.3 Aelodau unrhyw Bwyllgorau Craffu.**

Gall Aelod o Bwyllgor Craffu sy'n ystyried mater sy'n ymwneud â'r CBC hefyd weld unrhyw ddogfen sy'n cynnwys deunydd sy'n ymwneud â'r mater sydd gerbron y pwyllgor:

(a) unrhyw fusnes a drafodir mewn cyfarfod ffurfiol o'r CBC;

(b) unrhyw benderfyniad a wneir gan Swyddog unigol o'r CBC.

Nid oes gan Aelod o'r Pwyllgor Craffu yr hawl i:

(c) unrhyw ddogfen ar ffurf drafft;

(d) unrhyw ran o ddogfen sy'n cynnwys gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig oni bai bod yr wybodaeth honno'n berthnasol i weithred neu benderfyniad y maent yn ei adolygu neu'n craffu neu'n bwriadu craffu arno ac yn cael ei chynnwys ym Mlaen-Raglen Gwaith y Pwyllgor.

c) byddai unrhyw ran o ddogfen os byddai gwneud hynny yn torri unrhyw ddarpariaeth ddeddfwriaethol megis Deddf Diogelu Data 2018, hawliau unrhyw berson mewn perthynas â chyfrinachedd, neu fuddiannau masnachol, unrhyw ddarpariaeth yn y Cyfansoddiad hwn neu bolisi, rheol neu weithdrefn y Llywodraeth.

DS. Nid oes gan unrhyw Aelod hawl i weld unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â mater y mae ganddo/ganddi fuddiant sy'n rhagfarnu ynddo.

**3.1.4 Y wybodaeth sydd ar gael i Swyddogion**

Gall y Swyddog Monitro, Swyddog Adran 151 a'r Prif Weithredwr weld unrhyw bapurau neu gofnodion gaiff eu dal gan unrhyw ran o'r CBC neu ei Swyddogion. Gall Swyddogion eraill weld unrhyw wybodaeth a gedwir gan y CBC ar yr amod:

(a) fod angen iddynt weld y wybodaeth i ymgymryd â'u swydd; a

(b) bod gwybodaeth yn cael ei phrosesu yn gyfreithiol yn unol â Deddf Diogelu Data 2018.

**3.2 Cymryd Rhan – Aelodau o'r cyhoedd**

DRAFT

3.2.1 Rhaid i'r CBC annog pobl leol i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau gan y CBC. Gweler strategaeth cyfranogiad y cyhoedd CBC am fwy o wybodaeth. Gall aelodau'r cyhoedd gymryd rhan yn y ffyrdd canlynol:

- cael copi o'r Cyfansoddiad o wefan CBCau, neu wrth dalu ffi resymol os oes angen copi caled;
- mynychu cyfarfodydd o'r CBC a'i Is-bwyllgorau, ac eithrio pan fo materion personol neu gyfrinachol yn cael eu trafod;
- deisebu CBC yn unol â'r Cynllun Deisebau;
- canfod, o'r flaen-raglen waith, pa fusnes sydd i gael ei ystyried gan y CBC;
- gweld adroddiadau a phapurau cefndir sy'n cael eu hystyried gan y CBC ac unrhyw rai o'i Is-bwyllgorau a'r cofnod o unrhyw benderfyniadau a wneir gan y CBC neu ei Is-bwyllgorau, ac eithrio pan fyddant yn cynnwys gwybodaeth bersonol neu gyfrinachol;
- gwneud sylwadau, canmol neu gwynion i'r CBC ynghylch unrhyw faterion y mae'r CBC yn gyfrifol amdanynt. Cwyn yw pan fo rhywun yn teimlo bod y CBC wedi methu â gwneud rhywbeth neu wedi gwneud rhywbeth yn wael neu os ydynt yn teimlo eu bod wedi cael eu trin yn annheg gan y CBC;
- cwyno i'r Ombwdsmon os ydynt yn ystyried eu bod wedi dioddef anghyfiawnder gan nad yw'r CBC wedi dilyn ei weithdrefnau yn briodol. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael eu hannog i wneud hyn hyd nes y maent wedi defnyddio trefn gwyno'r CBC ei hun yn y lle cyntaf;
- cwyno i'r Ombwdsmon os oes ganddynt dystiolaeth lle maent o'r farn ei bod yn dangos nad yw aelod neu aelod cyfetholedig o'r CBC wedi dilyn y Cod Ymddygiad i Aelodau; ac
- archwilio cyfrifon y CBC a chyfleu eu barn i'r archwiliwr allanol.
- ceisio cael mater wedi'i gynnwys mewn agenda drwy ofyn i Gadeirydd y CBC neu Is-bwyllgor ychwanegu eitem i'r agenda

3.2.2 Ni ddylai aelodau'r cyhoedd fod yn dreisgar, yn ymosodol neu'n fygythiol tuag at aelodau neu swyddogion (a fydd yn cynnwys defnydd amhriodol o'r cyfryngau cymdeithasol) ac ni ddylent yn fwriadol niweidio pethau sy'n eiddo i'r CBC na'i swyddogion.

3.2.3 Dylai aelodau'r cyhoedd nodi, os ydynt yn gamau treisgar, cam-driniol neu fygythiol y gellir eu cymryd yn unol â pholisïau'r CBC mewn perthynas ag ymddygiad afresymol.

**3.3 Cymryd Rhan – Aelodau**

Gall aelodau gymryd rhan fel hyn:

3.3.1. Fel Aelod o'r CBC, mae gennych yr un hawliau ag aelodau o'r cyhoedd. Yn ogystal â'r hawliau hyn, mae gennych hefyd yr hawliau canlynol:

3.3.2 Mae gan aelodau'r CBC hawl i awgrymu eitem fusnes a mynychu unrhyw gyfarfod ffurfiol o'r CBC neu ei is-bwyllgorau. Gall aelodau o'r CBC fynychu a siarad mewn unrhyw gyfarfodydd lle maent yn Aelod o'r corff hwnnw. Lle nad ydynt yn Aelod o'r corff hwnnw, mae eu presenoldeb a'u hawl i siarad yn ôl disgresiwn Cadeirydd y corff.

**3.4 Gwneud Sylwadau/Cwynion**

3.4.1 Gall aelod o'r cyhoedd wneud sylwadau neu gwyno am wasanaethau CBC drwy: (A) cysylltu â'u Aelod Rhanbarthol; (B) cysylltu â'r Swyddog sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth neu ei reolwr; (C) defnyddio gweithdrefn gwyno'r CBC; (D) cysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn 1 Ffordd Yr Hen Gae, Pencoed, CF35 5LJ. Rhif Ffôn: 0300 790 0203 neu drwy'r wefan www.ombudsman.wales.org.uk.

3.4.2 Gellir gwneud sylwadau neu gwynion am Swyddog neu Aelod drwy: (A) Swyddog - Cysylltu â'r Swyddog neu reolwr y Swyddog. (B) Aelodau - Os yw'r gŵyn yn erbyn Aelod, yna dylid cyfeirio'r gŵyn at y Swyddog Monitro neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (manylion cyswllt uchod).

3.4.3 Os yw Aelod yn dymuno cwyno am: (i) Swyddog – gellir defnyddio'r weithdrefn a nodir yn y Protocol ar Gysylltiadau Aelodau / Swyddogion (Adran []). (ii) Aelod - gellir dilyn y weithdrefn a nodir yn [ ].

DRAFT

**11. SWYDDOGION**

11.1 Gall y CBC ymgysylltu â staff o'r fath (y cyfeirir atynt fel Swyddogion neu aelod o staff) fel y mae'n credu sy'n angenrheidiol i gyflawni ei swyddogaethau.

11.1.1 Bydd y CBC yn dynodi'r swyddi canlynol: Prif Weithredwr; Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Cyllid. Yn yr Adran hon ystyr "Prif Swyddog" yw Prif Swyddog o fewn ystyr Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog)(Cymru) 2006.

**11.2 Swyddogaethau'r Prif Weithredwr**

11.2.1 Cyflawni Swyddogaethau gan y CBC. Mae Rheoliad 3 Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol)(Rhif 2)(Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar y CBC i benodi Prif Weithredwr. Bydd y Prif Weithredwr yn adrodd i'r CBC ar y modd y cyd-gysylltir cyflawni swyddogaethau'r CBC, nifer a graddfa'r staff sy'n ofynnol ar gyfer cyflawni swyddogaethau, trefnu staff y Cyngor a phenodi a rheoli staff y CBC yn briodol.

11.2.2 Rhaid i'r Prif Weithredwr gadw'r materion canlynol o dan adolygiad:

(i) y modd y cyd-gysylltir y ffordd mae CBC yn arfer ei swyddogaethau gwahanol;

(ii) trefniadau'r CBC mewn perthynas â— (A) cynllunio ariannol, (B) rheoli asedau, a (C) rheoli risg;

(iii) nifer a graddau'r staff sy'n ofynnol gan y CBC i arfer ei swyddogaethau;

(iv) trefniant staff y CBC;

(v) penodi staff y CBC; a

(vi) y trefniadau ar gyfer rheoli staff y CBC (gan gynnwys trefniadau ar gyfer hyfforddi a datblygu).

11.2.3 Os yw'r Prif Weithredwr o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny, rhaid iddynt lunio adroddiad i'r CBC sy'n nodi eu dull o ymdrin â'r materion hyn. Cyn gynted â phosibl ar ôl paratoi adroddiad, rhaid i'r Prif Weithredwr drefnu i adroddiad gael ei anfon at bob Aelod o'r CBC.

11.2.4 Ni all y Prif Weithredwr fod yn Swyddog Monitro.

**11.3 Swyddogaethau'r Swyddog Monitro**

11.3.1 Nodir y rhain yn adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 fel y'i diwygiwyd.

11.3.2 Rhaid i'r Swyddog Monitro a ddynodir gan y CBC o dan a.5 Deddf 1989 ddarparu cymorth a chyngor i -

(a) y CBC mewn perthynas â'i gyfarfodydd

b) unrhyw is-bwyllgor o'r CBC

(c) pob aelod o'r CBC wrth gyflawni eu rôl

(d) pob person a benodir i is-bwyllgor y CBC wrth gyflawni ei rôl

11.3.3 Bydd y Swyddog Monitro yn cynnal fersiwn gyfredol o'r Cyfansoddiad.

11.3.4 Sicrhau Cyfreithlondeb a Thegwch y Penderfyniadau a Wneir. Ar ôl ymgynghori â'r Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid, bydd y Swyddog Monitro yn adrodd i'r CBC mewn perthynas ag unrhyw swyddogaeth os bydd yn ystyried bod unrhyw gynnig, penderfyniad neu hepgoriad yn arwain at anghyfreithlondeb neu os oes unrhyw benderfyniad neu hepgoriad wedi arwain at gamweinyddu. Bydd adroddiad o'r fath yn arwain at atal y cynnig neu'r penderfyniad rhag cael ei weithredu hyd nes y bydd yr adroddiad wedi cael ei ystyried.

11.3.4 Cefnogi'r Is-bwyllgor Safonau. Bydd y Swyddog Monitro yn cyfrannu at hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel drwy ddarparu cefnogaeth i'r Is-bwyllgor Safonau.

11.3.5 Derbyn Adroddiadau. Bydd y Swyddog Monitro yn derbyn ac yn gweithredu ar adroddiadau a wnaed gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a phenderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru.

11.3 6 Cynnal Ymchwiliadau. Bydd y Swyddog Monitro yn cynnal ymchwiliadau i faterion a gyfeirir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac yn llunio adroddiadau neu argymhellion mewn perthynas â nhw i'r Is-bwyllgor Safonau.

11.3.7 Rhoi cyngor ar p'un a yw'r penderfyniadau o fewn y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi. Bydd y Swyddog Monitro, ar y cyd â'r Prif Swyddog Cyllid, yn cynghori a yw penderfyniadau'r CBC yn unol â'r Fframwaith Cyllideb a Pholisi.

11.3.8 Darparu Cyngor. Bydd y Swyddog Monitro yn darparu cyngor ar sgôp y pwerau a'r awdurdod i wneud penderfyniadau, camweinyddu, amhriodoldeb ariannol, priodoldeb a materion Cyllideb a Fframwaith Polisi i'r holl Aelodau.

11..3.9 Cyfyngiadau ar Swyddi. Ni chaiff y Swyddog Monitro fod yn Brif Swyddog Cyllid nac yn Brif Weithredwr.

**11.4 Swyddogaethau'r Prif Swyddog Cyllid**

11.4.1 Gwelir y rhain yn adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

11.4.2 Sicrhau Cyfreithlondeb a Darbodusrwydd Ariannol Wrth Wneud Penderfyniadau. Ar ôl ymgynghori â'r Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro, bydd y Prif Swyddog Cyllid yn adrodd i'r CBC ac archwilydd allanol y CBC os ydynt o'r farn y bydd unrhyw gynnig, penderfyniad neu gwrs o weithredu yn golygu mynd i wariant anghyfreithlon, neu'n anghyfreithlon ac yn debygol o achosi colled neu ddiffyg neu os yw'r CBC ar fin nodi eitem o gyfrif yn anghyfreithlon.

11.4.3 Gweinyddu Materion Ariannol. Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol y CBC.

11.4.4 Cyfrannu at Reolaeth Gorfforaethol. Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn cyfrannu at reolaeth gorfforaethol y CBC, yn enwedig drwy ddarparu cyngor ariannol proffesiynol.

11.4.5 Darparu Cyngor. Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn rhoi cyngor ar gwmpas pwerau ac awdurdod i wneud penderfyniadau, camweinyddu, amhriodoldeb ariannol, priodoldeb a materion y Fframwaith Cyllideb a Pholisi i'r holl Aelodau a bydd yn cefnogi ac yn cynghori Aelodau a Swyddogion yn eu priod rolau.

11.4.6 Rhoi Gwybodaeth Ariannol. Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn rhoi gwybodaeth ariannol i'r cyfryngau, aelodau'r cyhoedd a'r gymuned.

11.4.7 Cynghori a yw penderfyniadau'r CBC o fewn y Fframwaith Cyllideb a Pholisi. Bydd y Prif Swyddog Cyllid, ar y cyd â'r Swyddog Monitro, yn cynghori a yw penderfyniadau'r CBC yn unol â'r Fframwaith Cyllideb a Pholisi.

11.4.8 Cyfyngiadau ar Swyddi (a) Ni all y Prif Swyddog Cyllid fod yn Swyddog Monitro (b) Rhaid i'r Prif Swyddog Cyllid fod yn aelod o un neu fwy o'r cyrff proffesiynol canlynol:

(i) Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr;

(ii) Cymdeithas Siartredig y Cyfrifwyr Ardystiedig;

(iii) Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth;

(iv) Sefydliad Siartredig y Cyfrifwyr Rheoli; neu

(v) unrhyw gorff arall o gyfrifwyr a sefydlwyd yn y Deyrnas Unedig ac am y tro yn cael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru at y diben hwn.

**11.5 Dyletswydd i ddarparu adnoddau digonol i'r Prif Weithredwr, Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Cyllid.**

11.5.1 Bydd y CBC yn darparu staff, llety ac adnoddau eraill o'r fath i'r Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Cyllid sydd yn eu barn hwy yn ddigonol i ganiatáu i'w dyletswyddau gael eu cyflawni.

11.5.2 Ymddygiad. Bydd Swyddogion yn cydymffurfio â Chod Ymddygiad y Swyddogion a'r Protocol ar Gysylltiadau Swyddogion / Aelodau a nodir yn Adrannau [ ] y Cyfansoddiad hwn.

11.5.3 Cyflogaeth. Bydd recriwtio, dewis a diswyddo Swyddogion yn cydymffurfio â Rheolau Gweithdrefn Cyflogi Swyddogion

11.5. Polisi Cydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer Prif Swyddogion.  Bydd y CBC yn pennu lefel ac unrhyw newid yn lefel y gydnabyddiaeth ariannol i'r Prif Swyddogion.  Diffinnir y gydnabyddiaeth ariannol yn unol ag Adran 43(3) Deddf Lleoliaeth 2011.

**CYFANSODDIAD CBC GC - CYNLLUN DIRPRWYO**

**Egwyddorion Cyffredinol**

1. Ni all y CBC ddirprwyo unrhyw rai o'r isod i unrhyw berson nac i is-bwyllgor arall:

1.1 Ei swyddogaeth mewn perthynas â chymeradwyo ac adolygu polisïau dan ddarpariaethau perthnasol Deddf Trafnidiaeth 2000 ("Swyddogaeth Polisi Trafnidiaeth");

1.2 Ei swyddogaeth mewn perthynas â pharatoi Cynllun Datblygu Strategol o dan ddarpariaethau perthnasol Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ("Swyddogaeth Cynllun Datblygu Strategol");

1.3 Y penderfyniad i gytuno ar gyllidebau'r CBC a chyfraniadau'r Cynghorau Cyfansoddol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri;

1.4 Y penderfyniad i sefydlu is-bwyllgorau CBC; a

1.5 Penderfyniadau a chyfrifoldebau penodol eraill a nodir yn y Rheoliadau Sefydlu.

2. Gall y CBC drefnu i gyflawni ei swyddogaeth drwy:

2.1 Is-bwyllgor;

2.2 Aelod o staff;

2.3 Unrhyw gyd-bwyllgor corfforedig arall;

2.4 Unrhyw gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru.

3. Yn ddarostyngedig bob amser i bara.1 uchod, mae'r CBC yn dirprwyo penderfyniadau gweithredol ar gyflawni ei swyddogaethau ac unrhyw beth sy'n ofynnol i hwyluso neu sy'n ffafriol neu'n gysylltiedig â chyflawni ei swyddogaethau fel y nodir isod.

**Dirprwyo i Aelodau Staff**

4. Mae'r cynllun hwn yn dirprwyo rhai o swyddogaethau'r CBC i aelod o staff a dylid eu dehongli yn unol â hynny.

4.1 Yn y cynllun hwn, ystyr "aelod o staff" yw deiliad unrhyw swydd a enwir yn y cynllun hwn fel un sydd â phwerau a dyletswyddau dirprwyedig, ac sy'n cael ei gyflogi gan y CBC i gymryd cyfrifoldeb dros gyflawni'r pwerau a'r dyletswyddau dirprwyedig dan sylw, oni bai bod deddfwriaeth yn darparu mai aelod o staff yn unig all gyflawni'r pŵer neu'r ddyletswydd berthnasol.

4.2 Wrth gymryd penderfyniadau, neu wrth ystyried cymryd penderfyniadau dirprwyedig, rhaid i bob aelod o staff roi sylw i'r cwestiynau canlynol: (i) A yw'r penderfyniad yn cynnwys gwariant sylweddol i gyllideb y CBC? (ii) A yw'r penderfyniad yn effeithio ar enw da'r CBC? (iii) A yw'r penderfyniad yn peri risg

DRAFT

sylweddol i'r CBC?  (iv) A yw'r penderfyniad yn effeithio ar enw da neu'n cael effaith ariannol ar ddefnyddwyr gwasanaeth, sefydliadau partner neu bwyllgorau y tu allan i'r CBC.

4.3 Mewn materion sy'n dod o fewn p.4.2 neu ar gyfer materion hynod arwyddocaol neu sensitif, rhaid i aelodau staff ystyried a ddylid mynd ag adroddiad i'r CBC.

4.4 Yn ogystal â swyddogaethau dirprwyedig i aelod o staff o dan y cynllun hwn, gall y CBC hefyd benderfynu i ddirprwyo swyddogaethau a phenderfyniadau penodol. Gellir dirprwyo unrhyw ddirprwyaeth o'r fath i aelod o staff ymhellach i aelod arall o staff awdurdodedig oni bai bod y CBC wedi cadw'r swyddogaeth yn benodol i aelod o staff.

4.5 Bydd bob amser yn agored i aelod o staff i beidio ag arfer pwerau dirprwyedig ond i gyfeirio'r mater at y CBC.

5. Bydd y Swyddog Monitro yn cadw cofnod o'r holl ddirprwyaethau i aelodau staff.

**6 Cyfyngiadau ar ddirprwyaeth i aelod o staff**

6.1 Bydd unrhyw arfer o bwerau dirprwyedig yn ddarostyngedig i:-

(a) Unrhyw gyfyngiadau statudol

(b) Cyfansoddiad y CBC, gan gynnwys Rheolau Gweithdrefn Ariannol a Rheolau Gweithdrefn Contractau Cyfansoddiad y CBC:

(c) Fframwaith cyllideb cymeradwy y CBC

(d) Unrhyw bolisïau CBC eraill

(e) Y Cod Ymddygiad i Weithwyr

6.2 Pan fo aelod o staff yn arfer pwerau dirprwyedig i ddyfarnu contract neu wneud penderfyniad sy'n arwain at wariant sylweddol o dan y cynllun dirprwyo hwn, rhaid iddo cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl gwneud y penderfyniad lunio cofnod ysgrifenedig gan gynnwys yr holl fanylion perthnasol, yn unol ag unrhyw ganllawiau a roddir gan y Swyddog Monitro.

6.3 Gwariant sylweddol at ddibenion p.6.2 yw gwariant sy'n £50,000 ac uwch.

6.4 Caiff aelod o staff arfer pwerau dirprwyedig i ysgwyddo gwariant hyd at uchafswm o £49,999 os yw hyn o fewn cyllideb gymeradwy y CBC ar gyfer y flwyddyn ariannol honno; ac yn unol â'r Cyfansoddiad.

**7. Darpariaethau Pellach**

7.1 Ym mhob achos mae awdurdod dirprwyedig yn cynnwys rheoli'r adnoddau dynol a materol sydd ar gael ar gyfer eu swyddogaethau o fewn cyfyngiadau'r cynllun hwn ac yn ddarostyngedig i unrhyw ddirprwyaethau penodol i aelod arall o staff.

7.2 Wrth arfer pwerau dirprwyedig, rhaid i aelodau o staff ymgynghori ag aelodau staff perthnasol eraill a all fod yn briodol a rhaid iddynt roi sylw i unrhyw gyngor a roddir.

7.3 Oni bai ei fod yn cael ei ddarparu'n benodol i'r gwrthwyneb, mae'r cynllun hwn yn cynnwys y pŵer i aelod o staff ymhellach ddirprwyo'n ysgrifenedig y cyfan neu unrhyw un o'r swyddogaethau dirprwyedig i aelodau eraill o staff (a ddisgrifir yn ôl enw neu swydd) naill ai'n llawn neu o dan oruchwyliaeth a rheolaeth gyffredinol yr aelod staff dirprwyol.

**8. Dirprwyaethau i Brif Swyddogion**

**(1) Prif Weithredwr**

1. Bod yn aelod o staff sy'n gyfrifol am holl swyddogaethau swyddogion priodol ymhellach i reoliad 3 Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2)(Cymru) 2021

2. Cyflawni swyddogaethau penodi a diswyddo, a chymryd camau disgyblu yn erbyn, unrhyw swyddog, yn unol â gweithdrefnau Adnoddau Dynol ac ariannol y CBC, ac eithrio pan fo swyddogaethau o'r fath wedi'u cadw i'r Pwyllgor Penodiadau.

3. Yn ddarostyngedig i bara.4.3 i ymgysylltu ag unrhyw unigolyn, person, cwmni, partneriaeth neu gwmni (a phenderfynu ar delerau'r contract), lle mae gwerth amcangyfrifedig penodiadau ar gyfer unrhyw un cynnig prosiect yn fwy na £50,000 a gellir talu costau o fewn cyllidebau a gymeradwywyd, ond nid yw'n fwy na £250,000.

4. Bod gan y Prif Weithredwr y pŵer i reoli a gweinyddu'r holl gytundebau cyllido hynny fel y cymeradwywyd, i gynnwys grantiau a benthyciadau, gan y CBC neu gan unrhyw un o'i is-bwyllgorau.

5. I wneud penderfyniadau ar:

(i) Delerau ac Amodau staff, (gan gynnwys gweithdrefnau ar gyfer diswyddo), ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud â'r Prif Weithredwr, Prif Swyddogion a swyddi Swyddogion statudol eraill;

(ii) newidiadau i ddyfarniadau cyflog staff a chynnydd blynyddol

(iii) newidiadau i Delerau ac Amodau staff sy'n destun cynnen â'r undebau llafur

(iv) ceisiadau ar gyfer ailraddio

6. Awdurdod i ystyried a chymeradwyo, fel y bo'n briodol, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Ariannol ac yn unol â darpariaethau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a pholisi a meini prawf cymeradwy y CBC, ymddeoliad cynnar staff (55 oed neu drosodd) yn yr amgylchiadau canlynol:

(1) er budd effeithlonrwydd y gwasanaeth

(2) sy'n gofyn am ymddeoliad gwirfoddol

7. Cymeradwyo polisïau cyflogaeth AD gweithredol newydd a newidiadau i'r polisïau presennol yn ôl yr angen.

8. Mewn achosion brys, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Ariannol, i benderfynu ar unrhyw fater nad yw wedi'i gadw'n benodol i'r Prif Weithredwr

**Swyddog Monitro**

1. Bod yn aelod o staff sy'n gyfrifol am holl swyddogaethau swyddogion priodol ymhellach i reoliad 8 Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol)(Rhif 2)(Cymru) 2021, a gweithredu fel Cyfreithiwr i'r CBC.

2. Penodi swyddogion priodol neu awdurdodi swyddog o'r CBC at unrhyw ddiben lle mae statud yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog gael ei benodi neu ei awdurdodi at y diben penodol hwnnw.

3. Sefydlu, amddiffyn, setlo neu gymryd rhan mewn unrhyw achos cyfreithiol mewn unrhyw achos lle mae angen camau o'r fath i weithredu penderfyniadau'r CBC neu mewn unrhyw achos lle mae ef neu hi o'r farn bod angen gweithredu o'r fath i amddiffyn buddiannau'r CBC.

4. Argymell sefydlu achos cyfreithiol gerbron llysoedd neu dribiwnlysoedd, ac awdurdodi staff i ymddangos ar ran y CBC, ar yr amod bod hyn bob amser yn unol â chyfrifoldebau gweithredol yr aelod o staff dan sylw.

5. Penodi Cwnsler i gynrychioli'r CBC mewn unrhyw achos.

6. Ymddangos yn bersonol neu awdurdodi eraill i ymddangos ar ran y CBC mewn achos llys neu dribiwnlys.

7. Llofnodi unrhyw ddogfen sy'n angenrheidiol ar gyfer unrhyw gytundeb, gweithdrefn neu achos cyfreithiol ar ran y CBC.

8. Gosod Sêl Gyffredin y CBC.

9. Gwneud newidiadau i'r Cyfansoddiad er mwyn:

(a) gwella eglurder a dileu mân anghysonderau

(b) adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol a materion cofnod.

10. Mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr i setlo cwynion a wneir o dan Bolisi Cwynion y Cyngor lle bo hynny'n briodol, a allai gynnwys ymddiheuriad, cywiro, neu mewn amgylchiadau eithriadol, taliad ariannol hyd at uchafswm o £100; ac i setlo argymhellion yr Ombwdsmon o dan Adran 21 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, hyd at uchafswm o £1,000.

11. Cyflawni swyddogaethau'r CBC mewn perthynas â chanslo absenoldeb teuluol yn unol â Rheoliad 34 Rheoliadau Absenoldeb Teulu ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013.

DRAFT

**Prif Swyddog Cyllid**

1. Bod yn aelod o staff sy'n gyfrifol am weinyddu materion ariannol y CBC yn briodol o dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

2. Hwyluso a rheoli cydlynu cynllunio ariannol tymor canolig, cynllunio cyllideb blynyddol, monitro cyllideb a pharatoi cyfrifon statudol a chyfrifon eraill, hawliadau grant cysylltiedig a chofnodion ategol.

3. Rheoli materion a gwasanaethau ariannol y CBC, gan gynnwys yr holl faterion sy'n ymwneud â'r Gyllideb Gyffredinol, Cyllideb Cynllun Datblygu Strategol, Rheoli Trysorlys, Cronfeydd wrth Gefn a Darpariaethau, Cyfrifon Atodol, a'r holl gronfeydd eraill a sefydlwyd o dan ofynion statudol.

4. Gweithredu cyfrifon banc y CBC ar gyfer rheoli materion ariannol yn ddoeth ac enwebu llofnodwyr awdurdodedig.

5. Cymeradwyo didyniadau o gyflog mewn achosion addas ac yn unol â chais staff.

DRAFT

RHEOLAU GWEITHDREFN ARIANNOL

1 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r rheolau hyn yn darparu'r fframwaith ar gyfer rheoli materion ariannol y CBC. Maent yn berthnasol i bob aelod a swyddog o'r CBC ac unrhyw un sy'n gweithredu ar ei ran, a gall methu â chydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol arwain at gamau disgyblu.

1.2 Dylid darllen a dadansoddi'r rheolau hyn ar y cyd â rhannau eraill o Gyfansoddiad a rheolau gweithdrefnol y CBC ac fe'u hystyrir yn ychwanegiad i reoliadau o'r fath, ac nid yn gyfnewid amdanynt neu'n ddirymiad ohonynt.

1.3 Ni fydd y rheolau hyn yn effeithio ar atebolrwydd cyfreithiol dan statud neu fel arall, unrhyw drydydd parti tuag at y CBC.

1.4 Ac eithrio yn rheoliadau 2.5 i 2.11 sy'n cyfeirio'n benodol at y person a benodir yn Brif Swyddog Cyllid y CBC ("Swyddog Adran 151"), pan fo'r rheoliadau hyn yn cyfeirio at "y Prif Swyddog Cyllid", bydd hyn yn golygu "y Prif Swyddog Cyllid neu swyddog cyllid arall a enwebwyd fel cynrychiolydd y Prif Swyddog Cyllid". Pan fo'r rheolau hyn yn cyfeirio at "y Prif Weithredwr" bydd hyn yn golygu'r "Prif Weithredwr, neu swyddog arall a enwebwyd fel cynrychiolydd y Prif Weithredwr". Pan fo'r rheolau hyn yn cyfeirio at "Uwch Reolwr" bydd hyn yn golygu'r swyddi perthnasol a ddynodir felly gan y Prif Weithredwr.

1.5 Oni nodir yn wahanol, lle mae'r Rheolau hyn yn cyfeirio at "flwyddyn ariannol", dyma'r cyfnod o 1 Ebrill mewn unrhyw flwyddyn hyd at 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol.

2 ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

Dyletswyddau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig

2.1 Mae gan y CBC ddyletswydd tuag at drethdalwyr gogledd Cymru o ran penderfyniadau ariannol a'u canlyniadau. Mae'r CBC yn gyfrifol am gymeradwyo amcangyfrifon gwariant a'r Gyllideb, gan ystyried sylwadau'r Prif Swyddog Cyllid yn ei adroddiad ar gadernid yr amcangyfrifon a digonolrwydd y cronfeydd ariannol wrth gefn dan Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r broses gyllidebu'n cynnwys cymeradwyo Dangosyddion Darbodus fel sy'n ofynnol gan God Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol. Mae hefyd yn gyfrifol am gymeradwyo a monitro cydymffurfiaeth â rheolaeth gyffredinol y CBC.

2.2 Mae'r CBC hefyd yn cyflawni Swyddogaethau Gweithredol ac yn gosod blaenoriaethau gwariant yn unol â'r Gyllideb. Mae'r CBC yn gyfrifol am drefnu, goruchwylio a rheoli holl gronfeydd a chyfrifon y CBC a'i holl wasanaethau, ac am gydlynu trefniadau cyllid a chyfrifo.

Dyletswyddau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

2.3 Bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gweithredu'r gofynion statudol a osodir arno yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Mae hyn yn cynnwys monitro ac adolygu priodoldeb cyllidebau, strategaeth ariannol, y cyfrifon a rheolaeth ariannol y CBC a'i holl wasanaethau trwy adolygu gweithdrefnau ariannol, hyrwyddo rheoli risg, mesurau rheoli mewnol a llywodraethu da a datblygu diwylliant sy'n milwro yn erbyn twyll.

Dyletswyddau'r Swyddog Cyllid Cyfrifol

2.5 Y Prif Swyddog Cyllid fydd y swyddog sy'n gyfrifol am weinyddu materion ariannol fel sy'n ofynnol gan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972; a bydd yn cyhoeddi a diwygio canllawiau manwl o bryd i'w gilydd yn ôl yr angen.

2.6 Yn ogystal â'r cyfrifoldeb o dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae gan y Prif Swyddog Cyllid ddyletswyddau statudol hefyd mewn perthynas â gweinyddiaeth ariannol a stiwardiaeth y CBC. Ni ellir diystyru'r cyfrifoldeb statudol hwn. Mae'r dyletswyddau statudol pellach hyn yn codi o:

(a) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988

(b) Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989

(c) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014

(d) Deddf Llywodraeth Leol 2003

2.7 Y Prif Swyddog Cyllid sy'n gyfrifol am

(a) weinyddu materion ariannol y CBC yn briodol;

(b) pennu a monitro cydymffurfiaeth â safonau rheoli ariannol;

(c) adrodd ar gadernid amcangyfrifon, a hefyd digonolrwydd y cronfeydd ariannol a rheoledig arfaethedig at ddibenion gwneud cyfrifiadau cyllidebol.

2.8 Yn unol ag Adran 114 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, rhaid i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd i'r CBC a'r archwilydd allanol os yw'n ymddangos iddo fod y CBC, un o bwyllgorau'r CBC, cyd-bwyllgor y cynrychiolir y CBC arno, neu un o'i swyddogion:

(a) wedi gwneud, neu ar fin gwneud, penderfyniad sy'n golygu mynd i wariant anghyfreithlon;

(b) wedi cymryd neu ar fin cymryd camau anghyfreithlon sydd wedi arwain at golled neu ddiffyg i'r CBC;

(c) ar fin gwneud cofnod anghyfreithlon yng nghyfrifon y CBC.

2.9 Wrth baratoi adroddiad o'r fath fel sy'n ofynnol gan Adran 114 Deddf 1988, bydd y Prif Swyddog Cyllid yn:

(a) ymgynghori â'r Swyddog Monitro ar fater anghyfreithlondeb;

(b) ymgynghori â'r Prif Weithredwr ar y mater;

(c) os oes anghytundeb neu amheuaeth, yn gofyn i'r Swyddog Monitro gael Barn Cwnsler.

2.10 Mae unrhyw adroddiad o'r fath i'w anfon at holl aelodau'r CBC a'r archwilydd allanol. Unwaith y bydd adroddiad yn cael ei wneud, mae'n ofynnol i'r CBC gynnal cyfarfod o fewn 21 diwrnod i'w ystyried. Ni ddylid dilyn y cwrs ymddygiad a arweiniodd at yr adroddiad nes bod y CBC wedi ystyried yr adroddiad.

2.11 Hefyd yn unol ag Adran 114 o Ddeddf 1988:

(a) rhaid i'r Prif Swyddog Cyllid enwebu aelod staff sydd â chymwysterau priodol i'w ddirprwyo os na fydd yn gallu cyflawni'r dyletswyddau o dan Adran 114 yn bersonol;

(b) bydd y CBC yn darparu digon o adnoddau i'r Prif Swyddog Cyllid i gyflawni'r dyletswyddau o dan Adran 114 ac Adran 151 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol.

2.12 Ni fydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r CBC oni bai ei fod wedi'i gyflwyno i'r Prif Swyddog Cyllid yn gyntaf am sylwadau ar oblygiadau ariannol argymhellion. Cyn rhoi gwybodaeth ariannol i gyrff allanol ac unigolion, rhaid i swyddogion neu aelodau ymgynghori â'r Prif Swyddog Cyllid neu ei gynrychiolydd i sicrhau cywirdeb. Rhaid ymgynghori â'r Prif Swyddog Cyllid yn bersonol pan fo unrhyw un o'i gynrychiolwyr o'r farn bod y wybodaeth yn fasnachol sensitif.

2.14 Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn argymell newidiadau o'r fath i’r Rheolau Gweithdrefn Ariannol y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol ac yn ddymunol ar gyfer gweinyddu cyllid y CBC yn briodol.

Dyletswyddau'r Prif Weithredwr

2.12 Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am gyflawni Swyddogaethau Gweithredol a blaenoriaethu gwariant yn unol â'r Gyllideb.

2.13 Bydd y Prif Weithredwr yn sicrhau bod egwyddorion cadarn gwiriad mewnol yn cael eu cymhwyso yn y CBC er boddhad y Prif Swyddog Cyllid. Yn benodol:

(a) bydd dyletswyddau darparu gwybodaeth am symiau sy'n ddyledus i'r CBC, neu gan y CBC, a chyfrifo, gwirio a chofnodi'r symiau hyn yn cael eu gwahanu cymaint â bo modd oddi wrth y ddyletswydd o'u casglu neu eu talu;

(b) ni fydd swyddogion sy'n gyfrifol am y ddyletswydd o archwilio a gwirio cyfrifon trafodion arian parod eu hunain yn cael eu cymryd yn unrhyw un o'r trafodion hyn.

2.18 Rhaid i'r Prif Weithredwr fodloni'r Prif Swyddog Cyllid fod pob cynnig a gyflwynir i'r CBC neu unrhyw Is-bwyllgor yn gyfreithlon ac y gellir mynd i'r afael â'r costau o fewn dyraniad cyllideb y gwasanaeth neu fod adroddiad yn awgrymu sut y caiff y gwariant ei ariannu.

3 TRIN BALANSAU AR DDIWEDD BLWYDDYN

3.2 Ni chaiff unrhyw wasanaeth na swyddog gynllunio i wario mwy na'r swm a awdurdodwyd yn y Gyllideb Refeniw flynyddol ynghyd ag unrhyw warged (neu lai o ddiffyg ariannol) sy'n dod ymlaen.

3.3. Bydd y CBC yn penderfynu ar y defnydd o ba falansau a gariwyd ymlaen sy'n cael eu cymhwyso, yn dilyn ymgynghori â'r Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid.

3.4 Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn adrodd i'r CBC am y tanwariant / gorwariant y gellir ei briodoli i bob gwasanaeth.

3.5 Os oes diffyg cronedig ar unrhyw wasanaeth, gall y Prif Swyddog Cyllid ar ôl ymgynghori â'r Prif Weithredwr osod cyfyngiadau o'r fath ar wariant a throsglwyddiadau ariannol y gwasanaeth hwnnw y mae'n credu sy'n angenrheidiol i leihau'r diffyg hwn.

4 POLISÏÄU CYFRIFYDDU

4.1 Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am ddewis polisïau cyfrifyddu a sicrhau eu bod yn gyfreithlon ac yn cael eu gweithredu'n gyson. Felly, bydd holl weithdrefnau a chofnodion cyfrifeg y CBC a'i swyddogion ar ffurf a gymeradwywyd gan y Prif Swyddog Cyllid.

4.2 Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn:

(a) trefnu i gasglu'r holl gyfrifon a chofnodion cyfrifeg o dan ei gyfarwyddyd;

(b) yn gyfrifol am sicrhau bod y datganiad cyfrifon blynyddol yn cael ei baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig: Datganiad o Ymarfer a Argymhellir (CIPFA/LASACC);

(c) llofnodi a dyddio'r datganiad cyfrifon, sy'n datgan ei fod yn cyflwyno sefyllfa ariannol y CBC yn deg ar y dyddiad cyfrifyddu a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth;

(d) gwneud trefniadau priodol ar gyfer archwilio cyfrifon y CBC yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio;

(e) paratoi a chyhoeddi cyfrifon y CBC ar gyfer pob blwyddyn ariannol, yn unol â'r amserlen statudol a chyda'r gofyniad i'r CBC gymeradwyo'r datganiad cyfrifon cyn y dyddiad dyledus.

4.3 Mae'r CBC yn gyfrifol am gymeradwyo'r datganiad cyfrifon blynyddol cyn gynted â phosib yn dilyn cyhoeddi adroddiad yr archwilydd allanol ar y cyfrifon, a naill ai erbyn y dyddiad y darperir ar ei gyfer mewn statud neu unrhyw ddyddiad arall a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

5 COFNODION A DATGANIADAU ARIANNOL A'R DATGANIAD CYFRIFON BLYNYDDOL

5.1 Yn ychwanegol at reoliad 17A o Reoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru 2021, rhaid i'r CBC sefydlu a chynnal cronfa i'w hadnabod fel cronfa gyffredinol CBC Gogledd Cymru.

5.2 Bydd prif gofnodion ariannol y CBC yn cael eu cadw fel y nodir gan y Prif Swyddog Cyllid, p'un a ddarperir gwasanaethau cyfrifeg ac ariannol yn uniongyrchol gan staff CBC neu gan ddarparwr allanol. Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am oruchwylio'r holl systemau a chofnodion ariannol.

5.3 Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn sicrhau, i'r graddau y bo'n ymarferol, fod Cofnodion a Datganiadau Cyfrifeg y CBC yn cydymffurfio ag arferion cyfrifyddu priodol (statudol ac anstatudol) sy'n berthnasol i'r CBC.

5.4 Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am sicrhau bod costau Gwasanaethau Canolog yn cael eu dyrannu'n deg ac yn briodol i gyfrifon a gwasanaethau'r CBC yn unol â Chod Ymarfer Adrodd ar Wasanaeth CIPFA.

CYNLLUNIO ARIANNOL

6 CYLLIDEBU

6.2 Y Gyllideb Refeniw fydd uchafswm yr hawl i wario gan unrhyw wasanaeth neu swyddog.

6.3 Bydd y gyllideb refeniw yn cael ei datganoli i bob canolfan gostau, a'i datganoli ymhellach i lefel o ddadansoddiad goddrychol fel y bo'n briodol gan y Prif Swyddog Cyllid.

6.4 Yn gynnar yn y cylch cynllunio, bydd y CBC yn ystyried y canllawiau y dylai rheolwyr gwasanaethau eu mabwysiadu wrth baratoi eu cynlluniau gwasanaeth a chanlyniadau refeniw'r cynlluniau hyn.

6.5 Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn rhagnodi ffurf fanwl cynnwys yr amcangyfrifon refeniw.

6.6 Bydd y Prif Swyddog Cyllid, yn dilyn ymgynghori â'r Prif Weithredwr, yn trefnu i'r Strategaeth Ariannol (gan gynnwys y gyllideb refeniw) gael ei pharatoi a'i chyflwyno i'r CBC.

6.7 Bydd y CBC, ar ôl ystyried cyllidebau arfaethedig pob gwasanaeth, yn pennu dim hwyrach na 31 Ionawr mewn unrhyw flwyddyn, ar y materion a ganlyn:

(a) lefel y gwariant refeniw yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod;

(b) dosbarthu gwariant refeniw rhwng gwasanaethau;

(c) lefel y balansau y dylid eu cynnal;

(d) codi ardoll CBC yn y flwyddyn ariannol ddilynol i bob awdurdod cyfansoddol;

(e) lefel y gronfa wrth gefn yn y Gyllideb Refeniw, i gwmpasu digwyddiadau annisgwyl neu ddigwyddiadau a ddisgwylir ond nid yw maint eu heffaith yn hysbys.

6.8 Os caiff adnoddau eu rhyddhau o'r rhaglen gyfalaf neu os oes modd derbyn grant allanol ar gyfer cynllun newydd yn ystod y flwyddyn, caiff y CBC gymeradwyo'r defnydd o unrhyw adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys a ddylid ychwanegu cynlluniau newydd at y rhaglen gyfalaf o ganlyniad, yn amodol ar ymgynghori â'r Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid.

Monitro a Rheoli'r Gyllideb

6.9 Mae'r Prif Weithredwr a'r Uwch Reolwyr wedi'u hawdurdodi i wario arian yn unol â'r amcangyfrifon a gymeradwywyd gan y CBC ac ymhellach i'r cynllun dirprwyo, fel y'i diwygiwyd gan unrhyw drosglwyddiad dan Reol 3 y Weithdrefn Ariannol, neu unrhyw amcangyfrifon atodol a gymeradwywyd gan y CBC.

6.10 Bydd unrhyw drosglwyddiadau yn unol â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol.

6.11 Gall amcangyfrifon atodol sy'n cymeradwyo gwariant o falansau'r CBC na ddarperir ar eu cyfer yn y Gyllideb Refeniw, gael eu cymeradwyo gan y CBC yn unig.

6.12 Mewn achosion brys pan na fydd y CBC yn cyfarfod mewn pryd i weithredu mewn argyfwng, bydd gan y Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyllid a'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, bwerau i arfer hawliau'r CBC fel y nodir uchod. Rhaid i'r Prif Weithredwr adrodd i gyfarfod nesaf y CBC pan fydd unrhyw gamau yn cael eu cymryd o dan y pwerau hyn.

6.13 Bydd Uwch Reolwyr yn sicrhau bod yr holl incwm a gwariant yn cael eu cofnodi a'u cyfrif yn briodol yn erbyn y pennawd cyllideb cywir. Ni fydd incwm na gwariant, dan unrhyw amgylchiadau, yn cael eu codio i unrhyw bennawd cyllideb heblaw am yr un cywir.

6.14 Bydd y CBC yn sefydlu fframwaith priodol ar gyfer rheoli cyllideb sy'n sicrhau bod:

(a) y gyllideb yn cael ei rheoli o fewn cyfyngiadau cyllideb blynyddol;

(b) gan bob Uwch Reolwr wybodaeth amserol, berthnasol a chywir ar dderbynebau a thaliadau ar bob cyllideb sy'n ddigon manwl i alluogi rheolwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau cyllidebol;

(c) ni chaiff gwariant ond ei ymrwymo yn erbyn pennawd cyllideb cymeradwy;

(d) bod pob swyddog sy'n gyfrifol am ymrwymo gwariant yn cydymffurfio â'r arweiniad perthnasol a'r rheoliadau ariannol hyn;

(e) mae gan bob canolfan gost un rheolwr penodol, wedi'i bennu gan yr Uwch Reolwr perthnasol. Fel egwyddor gyffredinol, dylai'r cyfrifoldeb am gyllideb gyd-fynd mor agos â phosib â'r prosesau penderfynu sy'n ymrwymo gwariant;

(f) caiff amrywiadau sylweddol o gyllidebau cymeradwy eu hymchwilio a'u hadrodd arnynt gan reolwyr cyllideb yn rheolaidd.

6.15 Bydd y Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyllid, yn sicrhau bod gwariant refeniw a chyfalaf yn aros o fewn terfyn cyllideb cyffredinol pob gwasanaeth, ac nad yw

penawdau cyllideb unigol yn cael eu gorwario, trwy fonitro'r gyllideb a chymryd camau cywirol priodol lle rhagwelir amrywiadau sylweddol o'r gyllideb gymeradwy. Dylai Uwch Reolwyr ymgynghori â'r Rheolwyr Cyllid perthnasol ar y systemau a'r dulliau y maent yn eu mabwysiadu i sicrhau rheolaeth o'r fath.

6.16 Dylai Uwch Reolwyr sicrhau bod gan bob pennawd cyllideb/canolfan gost un rheolwr penodol, wedi'i bennu gan yr Uwch Reolwr perthnasol, fydd yn gyfrifol am fonitro ac ymchwilio i amrywiadau yn erbyn y gyllideb ac am eu dwyn i sylw'r Uwch Reolwyr a'r swyddog cyllid/gweinyddiaeth adrannol.

6.17 Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn sicrhau bod gan bob Uwch Reolwr wybodaeth amserol am dderbynebau a thaliadau ar bob cyllideb, sy'n ddigon manwl i alluogi rheolwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau monitro cyllideb.

6.18 Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn cynnal trosolwg o effeithiolrwydd trefniadau rheoli cyllidebol ym mhob gwasanaeth.

6.19 Bydd Uwch Reolwyr yn cymryd camau yn ôl yr angen i osgoi mynd y tu hwnt i'w dyraniad cyllideb a sicrhau bod Rheolwyr Cyllideb yn deall eu cyfrifoldebau ariannol. Ynghlwm â hyn, bydd Uwch Reolwyr hefyd yn sicrhau bod lefelau gwasanaeth yn cael eu monitro ar y cyd â'r gyllideb a bod camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i alinio allbynnau a chyllideb gwasanaethau.

6.20 Bydd Uwch Reolwyr yn adrodd yn ddi-oed ar amrywiaethau i'r gyllideb arfaethedig i'r Prif Swyddog Cyllid ac yn cyflwyno cynllun gweithredu cyllidebol i ddod â'r gwariant yn ôl i drefn o fewn y cyllid, un ai drwy gamau cywiro, neu, os nad yw hynny'n bosib, trwy adnabod arbedion mewn rhannau eraill o'r gyllideb i wneud yn iawn am hynny.

6.21 Os na all Uwch Reolwr gadw gwariant ac adnoddau o fewn y cyllidebau cymeradwy presennol o dan ei reolaeth, bydd y Prif Swyddog Cyllid yn adrodd y mater hwnnw i'r Prif Weithredwr, a fydd yn adolygu cynllun gweithredu cyllidebol, mewn perthynas â blaenoriaethau'r CBC.

6.22 Ar ôl i’r Prif Weithredwr ystyried y mater, lle nad yw Uwch Reolwr yn gallu cydbwyso gwariant ac adnoddau o fewn cyllidebau cymeradwy presennol o dan ei reolaeth, a lle na ellir adnoddau'r gwariant o gyllideb gyffredinol y CBC, bydd yr Uwch Reolwr yn adrodd i'r CBC yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer defnyddio amcangyfrifon atodol, fel yr amlinellir yn Rheol 6.11 y Weithdrefn Ariannol.

6.23 Rhaid i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd i'r CBC yn rheolaidd ar ei sefyllfa gyffredinol. Disgwylir hefyd i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd yn briodol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor hwnnw gael sicrwydd bod y risgiau sy'n gysylltiedig â gwariant refeniw y CBC wedi cael sylw priodol, yn enwedig mewn meysydd lle mae gorwariant sylweddol neu danwariant.

6.24 Ni fydd unrhyw beth yn y Rheolau Gweithdrefn Ariannol yn atal gwario sy'n hanfodol i ddiwallu unrhyw anghenion uniongyrchol sy'n deillio o argyfwng, gan gynnwys unrhyw wariant dan Adran 138 Deddf Llywodraeth Leol 1972. Rhaid adrodd am unrhyw wariant o'r fath i'r CBC.

Rhaglenni cyfalaf (asedau)

6.26 Fel rhan o'r cylch cyllidebu, bydd y CBC yn ystyried y lefel debygol o adnoddau sydd ar gael ar gyfer cynlluniau cyfalaf ar ôl ystyried fforddiadwyedd a chynaliadwyedd yn unol â darpariaethau'r Cod Darbodus ac argaeledd cyllid grant.

6.27 Bydd y CBC yn cymeradwyo dyrannu adnoddau i gynlluniau unigol.

6.29 Bydd pob Uwch Reolwr perthnasol yn cyflwyno proffiliau gwariant ar gyfer pob cynllun unigol.

6.30 Bydd cynnwys cynllun yn y Rhaglen Gyfalaf yn ffurfio'r awdurdod angenrheidiol i'r cynllun fynd yn ei flaen.

6.31 (a) Rhaid i bob Uwch Reolwr gyflwyno gwybodaeth reolaidd i'r Prif Swyddog Cyllid yn unol â'r canllawiau sydd i'w llunio ganddo yn amlinellu'r gwariant cyfalaf rhagamcanol gwirioneddol yn erbyn y gyllideb gymeradwy a bydd y Prif Swyddog Cyllid yn cyflwyno adroddiad diweddaru chwarterol i'r CBC.

(b) Hefyd, rhoddir awdurdodaeth i ychwanegu cynlluniau at y rhaglen gyfalaf pan fo angen cynnwys cynllun o'r fath er mwyn diogelu asedau ariannol neu ffisegol y CBC neu pan fo cyfleoedd eithriadol yn codi, pan fo'r gymeradwyaeth hon yn gyson â'r gweithdrefnau a amlinellir yn Rheol 6.8 uchod.

6.32 Rhoddir cymeradwyaeth y CBC i gynnwys cynllun cyfalaf yn y rhaglen ar y sail y bydd y gwasanaeth perthnasol yn ariannu unrhyw gostau refeniw ychwanegol, ac eithrio taliadau cyllido cyfalaf, o fewn eu cyllidebau refeniw presennol, oni bai bod y CBC wedi cymeradwyo costau refeniw ychwanegol penodol o'r fath.

6.33 Bydd unrhyw ddiffyg yn y cyllid ar gyfer cynllun sydd wedi'i gynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf yn cael ei gyflawni drwy drosglwyddiad yn y gyllideb refeniw, ond os na all y CBC gyflawni'r fath ymrwymiad, cyflwynir adroddiad llawn i'r CBC ar y rhesymau dros y gorwariant.

6.34 Bydd y CBC yn cymryd camau priodol a gall gymeradwyo cronfeydd atodol mewn sefyllfaoedd lle mae angen gweithredu o'r fath, yn amodol ar y terfyn blynyddol a nodir yn Rheol 6.11 y Weithdrefn Ariannol, a dim ond ar ôl ystyried adroddiad gan yr Uwch Reolwr ar y mater. Rhaid cyfeirio unrhyw gais am arian atodol dros y nenfwd neu unrhyw newid yn y terfyn cymeradwy at y CBC.

6.35 Mewn amgylchiadau lle gwneir trosglwyddiad o'r gyllideb refeniw i'r gyllideb gyfalaf, bydd y Prif Weithredwr yn cael ei awdurdodi i gynnwys cynlluniau newydd yn y gyllideb gyfalaf lle gwneir y trosglwyddiad yn unol â darpariaethau Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol, yn amodol ar y cyfyngiadau a nodir yn y rheol ariannol honno.

6.36 Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn monitro cynhyrchu derbyniadau cyfalaf a bydd yn darparu gwybodaeth fonitro, o'i gymharu â'r rhagdybiaeth a wnaed yn rhaglen gyfalaf gymeradwy y CBC ar gyfer cynhyrchu derbyniadau cyfalaf, i'w cynnwys yn yr adroddiadau monitro cyfalaf i'r CBC.

6.37 Bydd gan y Prif Weithredwr yr hawl i ddefnyddio derbyniadau cyfalaf lle nad yw gwerth y defnydd hwnnw'n fwy na £50,000. Bydd angen cymeradwyaeth y CBC ar gyfer defnydd o'r fath lle mae'r swm yn fwy na £50,000.

7 CYNLLUN TROSGLWYDDO

7.1 Gellir cymeradwyo trosglwyddiad dim ond os:

(a) nad yw'r gwariant arfaethedig yn groes i bolisi CBC;

(b) nad yw'r baich refeniw ar y gwasanaeth yn y dyfodol yn cynyddu.

Cyllideb Refeniw

7.2 (a) Gellir caniatáu trosglwyddo rhwng penawdau mewn cyllideb gwasanaeth, un ai am flwyddyn neu'n barhaol, o Gyllidebau Refeniw yn unol â'r broses a amlinellir yn y tabl a ganlyn:

| Cyfanswm cronnol am y flwyddyn | Cymeradwyo'r Trosglwyddiad |
|---|---|
| Hyd at £50,000 | Prif Weithredwr |
| £50,000 neu uwch | CBC |

(b) Caiff y CBC ryddhau symiau penodol o unrhyw gronfa wrth gefn ganolog.

Cyllideb Gyfalaf

7.3 Dim ond y CBC all gymeradwyo trosglwyddiad rhwng cynlluniau cyfalaf sydd eisoes yn y rhaglen.

8 CYNNAL CRONFEYDD WRTH GEFN CYFFREDINOL

8.1 Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn cynghori'r CBC ar ei strategaeth ynghylch cronfeydd wrth gefn a fydd yn cynnwys y cronfeydd wrth gefn cyffredinol hynny y dylai eu dal. Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am arfer darpariaethau Adrannau 26 a 27 Deddf Llywodraeth Leol 2003.

8.2. Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn ystyried yn flynyddol addasrwydd lefelau'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol a bydd yn cyflwyno'r strategaeth ddrafft i'r CBC fel rhan o'r broses gyllidebu.

8.3 Bydd cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn cael eu cynnal yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig: Datganiad o Ymarfer a Argymhellir (CIPFA/LASAAC) a pholisïau cyfrifo cytunedig.

8.4 Gellir sefydlu cronfeydd wrth gefn penodol pan fydd y CBC yn clustnodi swm penodol at ddiben penodol ac ni chaiff y swm ei wario yn y flwyddyn dan sylw a gellir ei sefydlu hefyd er mwyn diogelu'r CBC rhag risgiau ariannol posib a allai godi, neu ar gyfer arian a ddarperir i'r CBC gan drydydd partïon.

8.5 Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am sicrhau bod cronfeydd wrth gefn o'r fath yn cael eu defnyddio at y diben a fwriadwyd. Bydd unrhyw gronfeydd wrth gefn nad ydynt yn ofynnol at y diben arfaethedig yn cael eu dychwelyd i falansau oni bai bod y CBC yn penderfynu fel arall.

8.6. Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn adolygu lefel y cronfeydd wrth gefn penodol o bryd i'w gilydd a chyn cau'r cyfrifon terfynol bydd yn ystyried eu digonolrwydd.

8.7 Os yw'n ymddangos i'r Prif Swyddog Cyllid mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol flaenorol fod cronfa wrth gefn benodol yn annigonol neu'n debygol o fod, rhaid iddo adrodd i'r CBC am y rhesymau dros y sefyllfa honno a pha gamau, os o gwbl, sy'n briodol i'w cymryd i atal sefyllfa o'r fath rhag codi mewn perthynas â'r gronfa wrth gefn gyfatebol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n cael ei hystyried.

8.8 Rhaid defnyddio unrhyw gronfeydd wrth gefn cyffredinol yn unol â Rheolau 6.11 a 6.12.

RHEOLI RISG A RHEOLI ADNODDAU

9 RHEOLI RISG

9.1 Cyfrifoldeb y Prif Weithredwr fydd sicrhau bod rheoli risg yn cael ei ddwyn i sylw staff perthnasol yn eu meysydd gwasanaeth a bod adolygiadau rheolaidd o risg yn eu meysydd gwasanaeth a bod rheolaethau rheoli risg yn cael eu datblygu. Bydd pob Uwch Reolwr yn sicrhau bod cofrestrau risg yn cael eu paratoi ar ffurf y cytunwyd arni gyda'r Prif Weithredwr.

9.3 Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn datblygu rheolaethau rheoli risg ariannol ar y cyd ag Uwch Reolwyr y CBC.

10 YSWIRIANT

10.1 Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn gweithredu bob yswiriant a allai gynnwys hunan-yswiriant. Bydd y Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyllid ac unrhyw swyddog arall, yn negodi pob hawliad yn erbyn y CBC nad yw yswiriant yn gwarantu ar ei gyfer.

10.2 Bydd Uwch Reolwyr yn rhoi hysbysiad prydlon i wasanaeth cymorth Yswiriant y CBC o'r holl risgiau, eiddo neu gerbydau newydd, y mae angen eu hyswirio ac o unrhyw newidiadau neu faterion eraill sy'n effeithio ar yswiriant presennol, i adlewyrchu'r egwyddor o ddidwylledd llwyr.

10.3 Rhaid i Uwch Reolwyr roi gwybod ar fyrder i'r Prif Swyddog Cyllid a chadarnhau hynny mewn ysgrifen am unrhyw golled, rhwymedigaeth neu ddifrod neu amgylchiadau a allai achosi cais am iawndal. Ni fydd unrhyw swyddog yn derbyn atebolrwydd i hawlydd, nag yn gwneud unrhyw ddatganiad all gael ei ddehongli felly ynghylch mater a all fod yn destun hawliad.

10.4 Bydd yr holl weithwyr priodol yn cael eu cynnwys mewn yswiriant gwarant cywirdeb (*fidelity*) addas fel sy'n ofynnol dan Adran 114 Deddf Llywodraeth Leol 1972. Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am hysbysu'r yswirwyr am unrhyw amgylchiadau sy'n ofynnol o dan delerau'r polisi, ac am wneud unrhyw hawliadau lle mae'r CBC wedi dioddef colled.

10.5 Bydd y Prif Swyddog Cyllid ar unrhyw adegau ag y gallai ystyried eu bod yn angenrheidiol, yn adolygu pob yswiriant mewn ymgynghoriad ag Uwch Reolwyr eraill fel y bo'n briodol.

10.6 Bydd Uwch Reolwyr yn ymgynghori â'r Prif Swyddog Cyllid a'r Swyddog Monitro mewn perthynas â thelerau unrhyw indemniad y gofynnir i'r CBC ei roi. Bydd Uwch Reolwyr yn ystyried ac yn trefnu Yswiriant Indemniad Proffesiynol digonol ar gyfer dyletswyddau staff yn eu gwasanaethau.

11 RHEOLAETHAU MEWNOL

11.1 Bydd Uwch Reolwyr yn sefydlu rheolaethau mewnol effeithiol, gan gynnwys trefniadau cadarn ar gyfer cynllunio, gwerthuso, awdurdodi a rheoli eu gweithrediadau er mwyn sicrhau gwelliant parhaus, economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ac ar gyfer cyflawni eu targedau perfformiad ariannol.

11.2 Y darparwr Archwilio Mewnol sy'n gyfrifol am gynghori ar systemau effeithiol o reolaeth fewnol. Dylai systemau rheolaethol mewnol effeithiol sicrhau cydymffurfiaeth gyda phob statud a rheoliad perthnasol, a datganiadau eraill perthnasol o'r arfer orau. Dylent hefyd sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i ddefnyddio'n briodol, yn economaidd, yn effeithlon ac yn unol ag awdurdodau statudol ac awdurdodau eraill sy'n llywodraethu eu defnydd.

11.4 Mae'n ofynnol i'r CBC ddarparu Datganiad o Reolaeth Fewnol yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Bydd y datganiad hwn yn cael ei ymgorffori yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol; fel rhan o'r datganiad hwn, rhaid i Brif Weithredwr a Chadeirydd y CBC wneud sylwadau ar effeithiolrwydd amgylchedd rheoli mewnol y Cyd-bwyllgor Corfforedig cyfan, fel dangosydd allweddol o lywodraethu da.

12 ARCHWILIO MEWNOL

12.1 Gweithredir swyddogaeth Archwilio Mewnol yn unol â chynnwys y Cytundeb Lefel Gwasanaeth perthnasol.

12.2 Bydd y swyddogaeth Archwilio Mewnol yn cael ei chyflawni, cyhyd ag y bo'n ymarferol, yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

12.3 Bydd y Strategaeth Archwilio Mewnol a'r cylch gwaith yn cael eu cynnwys yn siarter Archwilio Mewnol y CBC sy'n cael ei adolygu a'i chymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

12.5 Bydd y Prif Weithredwr yn sicrhau bod gan y Rheolwr Archwilio Mewnol, neu ei gynrychiolydd awdurdodedig, awdurdod:

a) i gael mynediad ar bob adeg resymol i unrhyw eiddo, tir neu safleoedd contract yn eiddo'r CBC;

b) i gael mynediad i bob cofnod, dogfen a gohebiaeth sy'n ymwneud ag unrhyw drosglwyddiadau ariannol a throsglwyddiadau eraill o'r CBC;

c) i ofyn am a derbyn eglurhad sy'n angenrheidiol yn eu barn hwy ynghylch unrhyw fater sy'n cael ei archwilio;

d) i ofyn i unrhyw un sy'n gyflogedig gan y CBC i gyflwyno arian parod, storfeydd neu unrhyw eiddo arall o dan ei reolaeth.

12.6 Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn cytuno ar y cynlluniau archwilio tymor canolig a blynyddol a baratowyd gan y Rheolwr Archwilio Mewnol sy'n ystyried nodweddion a risgiau cymharol y gweithgareddau dan sylw. Bydd y cynlluniau'n cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

12.7 Bydd yr holl reolwyr perthnasol yn ystyried ac yn ymateb yn brydlon i gamau y cytunwyd arnynt mewn adroddiadau archwilio. Bydd Uwch Reolwyr yn sicrhau bod unrhyw gamau y cytunwyd arnynt sy'n deillio o ganfyddiadau archwilio yn cael eu cyflawni mewn modd amserol ac effeithlon yn unol â'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno.

12.8 Bydd y Rheolwr Archwilio Mewnol yn adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

a) Ar ganlyniadau gwaith Archwilio Mewnol yn y cyfnod blaenorol;

b) Ar unrhyw wendidau rheolaethol sylweddol a ddarganfyddir neu a archwilir;

c) Ar unrhyw argymhellion archwilio nad ydynt wedi cael eu gweithredu o fewn yr amserlen gytunedig, pan fyddai methu â gweithredu ar yr argymhellion hynny yn ymestyn gwendid rheolaethol sylweddol.

d) Cynnydd ar gwblhau'r Cynllun Archwilio Mewnol am y flwyddyn gyfredol.

13 ARCHWILIO ALLANOL

13.1 Mae pob un o weithgareddau'r CBC yn destun archwiliad dan Ddeddfau Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a 2013, Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006, Mesurau Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

13.2 Mae'n ddisgwyliad bod archwilwyr allanol yn gweithredu yn unol â Chod Ymarfer Archwilio yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'n ddyletswydd ar holl swyddogion y CBC i osgoi atal yr archwilydd rhag cydymffurfio â'r Cod.

13.3 Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am gydlynu perthynas y CBC â Rheolwr Perthnasau Archwilio Cymru at ddibenion archwilio ac arolygu allanol. Mae'n ofynnol i swyddogion hysbysu'r Prif Weithredwr os ydynt yn credu nad yw'r archwilwyr allanol yn gweithredu yn unol â Chod Ymarfer Archwilio yr Archwilydd Cyffredinol.

13.4 Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn datblygu cydweithrediad a chysylltiadau gwaith gyda'r Rheolwr Perthnasau a'r Archwilydd penodedig, gan gynnwys rhoi a derbyn gwybodaeth berthnasol, p'un ai'n gyfrinachol ai peidio, a :-

a) sicrhau bod archwilwyr allanol yn cael mynediad ar bob adeg resymol i eiddo, personél, dogfennau ac asedau y mae'r archwilwyr allanol yn credu sy'n angenrheidiol at ddibenion eu gwaith;

b) sicrhau bod cyswllt effeithiol rhwng archwilio allanol a mewnol;

c) gweithio gyda'r archwilydd allanol a chynghori'r CBC, y Prif Weithredwr a'r Uwch Reolwyr ar eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag archwilio allanol;

d) sicrhau bod yr holl gofnodion a systemau yn gyfredol ac ar gael i'w harchwilio.

14 ATAL TWYLL A LLYGREDIGAETH

14.1 Bydd y CBC yn mabwysiadu, cynnal a chyhoeddi polisi gwrth-dwyll a gwrth-lygredigaeth effeithiol ac yn cynnal diwylliant na fydd yn goddef twyll na llygredigaeth.

14.2 Bydd rheolwyr yn ymdrin yn gyflym ac yn gadarn, ac yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol hyn a Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-lwgrwobrwyo a Gwrth-lygredigaeth y CBC, gyda'r rhai sy'n twyllo neu'n ceisio twyllo'r awdurdod, derbyn neu gynnig llwgrwobrwyon neu sy'n llygredig.

14.3 Bydd swyddogion y CBC bob amser yn sicrhau bod derbyn unrhyw anrhegion neu letygarwch yn cael ei wneud yn unol â Chod Ymarfer y CBC ar Dderbyn Rhoddion a Lletygarwch. Bydd swyddogion hefyd bob amser yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad Staff.

14.4 Bydd Aelodau'r CBC bob amser yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau, ac ni fyddant yn derbyn rhoddion na lletygarwch gan drydydd partïon ac eithrio pan fyddant yn disgyn o fewn yr hyn a ganiateir gan y Cod Ymddygiad.

14.5 Bydd y Prif Weithredwr yn rhoi gweithdrefnau canu'r gloch priodol ar waith, gan gynnwys cynnal Polisi Canu'r Gloch, a sicrhau bod y gweithdrefnau hyn yn cael eu gweithredu'n effeithiol a'u hadolygu'n rheolaidd.

14.6 Pan gyfyd unrhyw faterion sy'n cynnwys, neu y credir iddo gynnwys, anghysondebau o ran arian parod, storfeydd arian neu unrhyw drefniant i hawlio taliad amhriodol gan y CBC (gan gynnwys taflenni amser neu hawliadau costau teithio), neu eiddo arall y CBC, bydd yr Uwch Reolwr neu swyddog arall sy'n gwneud y darganfyddiad yn cydymffurfio â Strategaeth Gwrth-dwyll y CBC ac yn

hysbysu'r Prif Swyddog Cyllid a/neu'r Rheolwr Archwilio Mewnol ar unwaith, a fydd yn cymryd unrhyw gamau y maent yn credu sy'n angenrheidiol drwy ymchwilio ac adrodd.

14.7 Yn sgil ystyried adroddiad o'r fath, os yw'r Swyddog Monitro o'r farn fod cyfraith droseddol wedi cael ei thorri, ar ddisgresiwn y Prif Swyddog Cyllid, bydd y mater yn cael ei adrodd i'r Heddlu i gynnal ymchwiliad pellach. Os yw'r mater yn cynnwys rhywun sy'n gyflogedig gan y CBC, bydd camau disgyblu yn cael eu dilyn ar mater o frys yn unol â Gweithdrefn Ddisgyblu'r CBC, os caiff y mater ei gyfeirio at yr Heddlu ai peidio.

14.8 Pan gollir eiddo (yn cynnwys oherwydd tân) neu arian parod, bydd yr Uwch Reolwr neu'r swyddog arall sy'n darganfod hynny yn rhoi gwybod ar unwaith i Wasanaeth Yswiriant a Risg y CBC, fydd yn gyfrifol am wneud unrhyw hawliadau sy'n briodol ar Yswiriant y CBC.

15 ASEDAU

Diogelwch

15.1 Bydd y Prif Weithredwr yn sefydlu a chynnal tirlyfr o'r holl dir ac adeiladau sy'n eiddo i'r CBC neu'n cael eu prydlesu iddo (gan gynnwys cytundebau prydles, cytundebau tenantiaeth a thrwyddedau) nodi dyddiad caffael neu feddiannu, diben a ddelir, gwasanaeth dal, lleoliad, maint a chyfeiriad cynllun, manylion prynu, manylion am natur diddordeb a rhenti sy'n daladwy a manylion tenantiaethau a thrwyddedau a roddwyd.

15.2 Bydd pob Uwch Reolwr, mewn perthynas â thir neu adeiladau, y mae'n gyfrifol amdanynt, yn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n briodol at y dibenion y maent yn cael eu dal ar eu cyfer; nad ydynt yn cael eu harolygu yn llai aml na phob blwyddyn a bod camau digonol yn cael eu cymryd i ddiogelu teitl y CBC iddo.

15.3 Mae pob Uwch Reolwr yn gyfrifol am gynnal diogelwch eiddo bob amser ar gyfer pob adeilad, stoc, storfa, dodrefn, offer, cofnodion, arian parod, ac ati, o dan ei reolaeth ac am ddiogelwch mynediad i systemau cyfrifiadurol o dan ei reolaeth. Bydd yn ymgynghori â'r Prif Swyddog Cyllid mewn unrhyw achos lle mae'n ymddangos bod diffyg diogelwch neu lle ystyrir bod trefniadau diogelwch arbennig yn angenrheidiol.

15.6 Bydd pob swyddog yn gwneud trefniadau addas ar gyfer diogelu gwybodaeth sydd o dan ei reolaeth, boed hynny ar systemau cyfrifiadurol neu fel arall, gan gynnwys diogelwch cyfrineiriau.

15.7 Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am gynnal diogelwch priodol a diogelwch gwybodaeth ar systemau cymorth TG y CBC a bydd yn trefnu adolygu pob trosglwyddiad data o systemau is-gwmni cyn ac ar ôl trosglwyddiadau o'r fath er mwyn sicrhau cywirdeb y data.

Rhestrau Eiddo

15.14 Bydd pob adran yn cadw rhestr eiddo yn ôl lleoliad, a chofnodir ynddo ddisgrifiad digonol o ddodrefn, ffitiadau ac offer ynddo (gan gynnwys offer TGCh). Bydd y Prif Swyddog Cyllid, mewn ymgynghoriad â'r Uwch Reolwr dan sylw, yn penderfynu i ba raddau y bydd angen cofnodi eiddo'r CBC ac ym mha ffurf y cedwir y rhestrau.

15.15 Ni fydd eiddo'r CBC yn cael ei symud ac eithrio yn unol â chwrs cyffredin busnes y CBC na'i ddefnyddio heblaw at ddibenion y CBC ac eithrio yn unol â chyfarwyddiadau penodol gan yr Uwch Reolwr dan sylw.

15.16 Bydd gwarediadau eiddo dros ben, ac eithrio tir ac adeiladau, yn cael eu gwneud yn unol ag unrhyw ganllawiau a ddarperir gan y Prif Weithredwr a/neu'r Prif Swyddog Cyllid.

Eiddo Deallusol

15.26 Bydd Uwch Reolwyr yn sicrhau bod rheolaethau ar waith i sicrhau nad yw gweithwyr yn gwneud gwaith preifat yn ystod cyfnodau pan fyddant yn gweithio i'r CBC a bod gweithwyr yn ymwybodol o hawliau cyflogwr mewn perthynas ag eiddo deallusol.

15.27 Ni fydd unrhyw uwch-gyflogai, yn ystod ei gyflogaeth, yn ymgymryd â gwaith heblaw am waith i'r CBC neu ar ei ran, heb gymeradwyaeth yr Uwch Reolwr, yn unol â'r Cod Ymddygiad Staff.

15.28 Os bydd cyflogai yn gwneud neu'n darganfod neu'n cymryd rhan mewn gwneud neu ddarganfod unrhyw Eiddo Deallusol sy'n ymwneud â'r CBC neu'n gallu cael ei ddefnyddio gan y CBC, rhaid i'r cyflogai roi manylion llawn yr Eiddo Deallusol i'r Uwch Reolwr perthnasol ar unwaith.

16 RHEOLAETH TRYSORLYS

Rheolaeth Trysorlys a Bancio

16.1 Bydd pob trefniant sy'n ymwneud â chyfrifon bancio'r CBC, a sieciau a chyfarwyddiadau trosglwyddiadau banc, yn cael ei wneud gan neu o dan drefniadau a gymeradwywyd gan y Prif Swyddog Cyllid. Bydd cyfrifon banc yn enw Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru ac nid yn enw unrhyw swyddog, ei enw na'i swyddogaeth. Ni chaiff unrhyw drosglwyddiad banc ei awdurdodi oni bai fod y Prif Swyddog Cyllid wedi gwneud y trefniadau.

16.2 Bydd y Prif Swyddog Cyllid ac, yn amodol ar ei oruchwyliaeth, pob person arall sy'n gweithredu cyfrif banc ar ran y CBC, yn gwneud trefniadau diogel ac effeithlon ar ei ran ar gyfer archwilio sieciau taledig yn brydlon a chysoni annibynnol o lyfr arian parod â datganiadau banc.

Buddsoddiadau a Benthyca

16.3 Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am fenthyca, buddsoddiad dros dro, ail-fenthyca ac ad-dalu arian, yn amodol ar unrhyw gyfyngiad a osodir gan ddeddfwriaeth y llywodraeth a Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheolaeth Trysorlys mewn Awdurdodau Lleol, o fewn terfynau a bennir gan y CBC yn y Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys, y Strategaeth Darpariaeth Isafswm Refeniw a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, Dangosyddion Darbodus y CBC a'r Atodlenni Rheolaeth Trysorlys. Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn adrodd ar y gweithgareddau hyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

16.5 Bydd buddsoddiadau a wneir yn enw enwebeion dan drefniadau a wneir gyda rheolwyr cronfeydd yn cael eu clustnodi i gyfrifon dynodedig sy'n nodi buddiant buddiol y CBC yn unigryw.

16.6 Ni fydd unrhyw swyddog yn ymrwymo i unrhyw brydlesau na threfniant arall i dalu am nwyddau neu wasanaethau dros gyfnod o amser heb gymeradwyaeth y Prif Swyddog Cyllid.

17 STAFFIO

17.1 Bydd y Prif Weithredwr yn darparu rheolaeth gyffredinol i staff. Bydd y CBC yn cytuno ar werthusiad priodol neu systemau eraill ar gyfer penderfynu ar dâl swydd.

17.2 Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn sicrhau bod darpariaeth gyllidebol yn bodoli ar gyfer yr holl weithwyr presennol a newydd a rhaid i Uwch Reolwyr ymgynghori â'r Prif Swyddog Cyllid ar unrhyw ddiwygiadau i'r sefydliad staffio drwy ffurflen newid strwythur.

17.3 Bydd Uwch Reolwyr yn sicrhau bod trefniadau priodol yn gweithredu o fewn eu gwasanaethau er mwyn hysbysu'r Prif Swyddog Cyllid cyn gynted â phosib ac ar y ffurf a ragnodir ganddo, o bob mater sy'n effeithio ar dalu daliadau o'r fath ac yn benodol:

(a) penodiadau, ymddiswyddiadau, diswyddiadau, atal o'r gwaith, secondiadau a throsglwyddiadau;

(b) absenoldeb o ddyletswydd oherwydd salwch neu reswm arall, ar wahân am absenoldeb sydd wedi'i ganiatáu;

(c) newidiadau mewn tâl, ar wahân i'r hicynau a'r dyfarniadau tâl arferol a chytundebau sy'n effeithio ar bawb;

(d) y wybodaeth angenrheidiol i gynnal cofnodion gwasanaeth ar gyfer pensiwn, treth incwm, yswiriant cenedlaethol ac ati.

17.4 Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn gweithredu fel cynghorydd i'r Uwch Reolwyr ar feysydd fel cyfraniadau Yswiriant Gwladol a phensiynau, fel y bo'n briodol.

17.5 Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn sicrhau bod y gyllideb staffio yn rhagolwg cywir o lefelau staffio a'i bod yn cyfateb i ddarpariaeth briodol o'r gyllideb refeniw (gan gynnwys ar-gostau a gorbenion).

SYSTEMAU A GWEITHDREFNAU ARIANNOL

19 CYFFREDINOL

PWRPAS:

19.1 Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn ysgwyddo cyfrifoldeb am weithredu'r systemau cyfrifeg sydd ar waith i gefnogi'r CBC, ffurf cyfrifon a'r cofnodion ariannol ategol. Mae Uwch Reolwyr yn gyfrifol am weithredu prosesau ariannol yn briodol yn eu gwasanaethau eu hunain.

19.2 Rhaid cael cydsyniad y Prif Swyddog Cyllid ar gyfer unrhyw newidiadau a wneir gan yr Uwch Reolwyr i'r gweithdrefnau cydnabyddedig er mwyn ateb anghenion penodol eu gwasanaethau hwy.

INCWM A GWARIANT

20 Incwm

20.1 Rhaid i bob swyddog sy'n derbyn arian ar ran y CBC gydnabod ei dderbyn a chadw cofnodion mewn dull a gymeradwyir o bryd i'w gilydd gan y Prif Swyddog Cyllid, gan gynnwys cyfrif manwl a chronolegol o'r holl dderbynion ac adneuon.

20.8 Bydd holl drefniadau casglu symiau sy'n ddyledus i'r CBC dan reolaeth y Prif Swyddog Cyllid a rhaid anfon yr holl gyfrifon drwyddo ef oni chytunir fel arall ganddo.

20.9 O ran grantiau oherwydd y CBC, bydd yr Uwch Reolwr priodol yn sicrhau bod hawliadau grant yn cael eu cyflwyno'n brydlon yn unol ag amserlen y sefydliad sy'n talu er mwyn optimeiddio llif arian. Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am ardystio cywirdeb ariannol unrhyw hawliad ac yn hyn o beth, rhaid i Uwch Reolwyr sicrhau bod trefniadau priodol yn eu lle i sicrhau bod Cyfriflyfr Ariannol y CBC yn cynnwys manylion amserol a chywir am yr holl wariant perthnasol.

20.10 Ni fydd unrhyw ddebyd mewn perthynas â swm sy'n ddyledus i'r CBC unwaith y bydd wedi'i sefydlu yn cael ei ryddhau ac eithrio drwy daliad, trwy gyhoeddi nodyn credyd swyddogol neu fel y

darperir ar ei gyfer yn rheoliad ariannol 20.13. Ni dderbynnir sieciau ôl-ddyddiedig na sieciau trydydd parti fel tâl am ddyled. Rhaid rhoi gwybod i'r Prif Swyddog Cyllid ar unwaith am unrhyw flaendaliadau arian parod o fwy na £10,000, neu gyfres o adneuon arian parod gan yr un talwr lle mae'r cyfanswm yn fwy na £10,000, a fydd yn gwneud trefniadau o'r fath fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Gwyngalchu Arian 2003.

20.11 Bydd y Prif Weithredwr yn hysbysu'r Prif Swyddog Cyllid cyn gynted â phosib am bob arian sy'n ddyledus i'r CBC o dan gontractau, prydlesau, cytundebau tenantiaeth, cytundebau ar gyfer gwerthu eiddo ac unrhyw gytundebau eraill sy'n ymwneud â derbyn arian gan y CBC. Dylai unrhyw symiau sydd i'w talu'n uniongyrchol i gyfrifon banc y CBC gan drydydd partïon gael eu hysbysu i'r Prif Swyddog Cyllid cyn eu derbyn.

20.13 Ni fydd symiau sy'n ddyledus i'r CBC yn cael eu dileu ac eithrio ac eithrio:

(a) gydag awdurdod y Prif Swyddog Cyllid yn achos dyledion unigol sydd â chyfanswm hyd at £5,000, ac yn achos dyledion lle bo'r dyledwr wedi ei wneud yn fethdalwr, neu fod cwmni cyfyngedig wedi ei ddiddymu, trwy ddyfarniad llys;

(b) gydag awdurdod y Prif Swyddog Cyllid a'r Cadeirydd yn achos dyledion heblaw'r rhai hynny y cyfeirir atynt yn (a).

20.14 Gall y Prif Swyddog Cyllid ddatgan, yn gyffredinol neu trwy fanylu, na chaniateir cyflenwi nwyddau neu wasanaethau penodol ar delerau credyd, neu y bydd iddynt gael eu cyflenwi ar ôl derbyn tâl ymlaen llaw, neu dâl ar y pryd, yn unig.

Archebu a Thalu am waith, nwyddau a gwasanaethau

Archebu

20.15 Rhaid i bob gwasanaeth anfon archebion ar ffurf a gymeradwywyd gan y Prif Swyddog Cyllid am bob gwaith, nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen ac eithrio gwasanaethau proffesiynol, cyflenwadau cyhoeddus, rhent, trethi a thaliadau arian parod. Rhaid i’r Uwch Reolwr neu uwch swyddog arall a gafodd yr awdurdod ganddo, lofnodi’r cyfryw archebion, a rhaid i’r swyddog hwnnw fodloni ei hun pan anfonir yr archeb fod y gwariant wedi'i awdurdodi ac y gellir ei dalu o’r amcangyfrifon a gymeradwywyd.

20.16 Pan ddefnyddir dulliau archebu electronig amgen rhaid i’r Uwch Reolwr perthnasol sicrhau bod y rheolaethau priodol yn eu lle, a bod y defnydd o'r fath weithdrefnau yn cael eu cymeradwyo gan y Prif Swyddog Cyllid.

20.17 Pan gaiff gwaith, nwyddau neu wasanaethau eu harchebu ar lafar, mewn amgylchiadau brys, bydd archeb ysgrifenedig swyddogol yn cael ei chyflwyno ar yr un diwrnod neu’r diwrnod wedyn, yn cadarnhau’r archeb. Bydd swyddogion a awdurdodir gan y Prif Weithredwr i lofnodi gorchmynion ar ei rhan yn cael eu cytuno gyda'r Uwch Reolwr ac anfonir eu henwau at y Prif Swyddog Cyllid ynghyd â llofnodion enghreifftiol a rhaid diwygio'r manylion hyn pan fydd deilyddion y swyddi yn newid.

20.18 Bydd pob archeb yn cydymffurfio â chyfarwyddiadau'r CBC mewn perthynas â phrynu a safoni cyflenwadau a deunyddiau yn ganolog.

20.19 Bydd copi o bob archeb, os oes angen, yn cael ei roi i'r Prif Swyddog Cyllid.

20.20 Lle amcangyfrifir y bydd gwerth yr archeb rhwng £5,000 a £50,000 (cyn TAW), ac nad archebir oddi wrth gyflenwyr pryniant canolog, dylid cael tri dyfynbris. Bydd unrhyw orchymyn

perthnasol, am ba bynnag swm, yn ddarostyngedig i'r Rheolau Gweithdrefn Contract, sy'n ffurfio rhan o Gyfansoddiad y CBC.

20.21 Rhaid i bob Uwch Reolwr, mewn perthynas â'r gwaith, y nwyddau a'r gwasanaethau hynny a brynir yn rheolaidd, ar gyfnodau rheolaidd o ddim mwy na deuddeg mis brofi prisiau trwy gael o leiaf dri dyfynbris ysgrifenedig yn unol â Gorchmynion Sefydlog y Contract, ar yr amod na fydd y gofyniad hwn yn gymwys pan fo gwerth prynu blynyddol unrhyw waith, nwyddau neu wasanaethau yn llai na £5,000.

Taliadau

20.22 Bydd yr holl daliadau o gyfrifon y CBC yn cael eu gwneud gan y Prif Swyddog Cyllid a fydd yn cyhoeddi'r fath gyfarwyddiadau yn hyn o beth fel y pennir yn angenrheidiol ganddo. Ac eithrio fel y darperir yn 20.23 isod, rhaid i'r Uwch Reolwr priodol neu swyddog arall a gafodd ei awdurdodi'n benodol ganddo, ardystio pob cyfrif ar gyfer ei dalu gan dystio fod y cyfrif yn wir daladwy gan y CBC, a rhaid i'r ardystiad fod ar ffurf a gymeradwywyd gan y Prif Swyddog Cyllid.

20.23 Pan ddefnyddir dulliau archebu electronig amgen rhaid i'r Uwch Reolwr perthnasol sicrhau bod y rheolaethau priodol yn eu lle, a bod y defnydd o'r fath brosesau yn cael ei gymeradwyo gan y Prif Swyddog Cyllid.

20.24 Rhaid i'r Prif Weithredwr anfon enwau'r swyddogion a awdurdodir i ardystio cyfrifon o'r fath at y Prif Swyddog Cyllid, ynghyd ag enghraifft o'u llofnodion hwy, a rhaid diwygio'r rhain os digwydd unrhyw newid.

20.25 Bydd ardystio cyfrif yn golygu:

(a) bod y nwyddau wedi eu derbyn, eu harchwilio a'u cymeradwyo fel y rhai a archebwyd, a'u bod yn foddhaol, a bod y prisiau yn unol â'r contract neu'r archeb; a bod y copïau cyfatebol o'r archebion swyddogol wedi eu nodi i ddangos fod y nwyddau wedi cael eu derbyn a bod y cyfrif wedi ei basio i'w dalu;

b) bod y gwaith a roddwyd neu'r gwasanaeth a wnaethpwyd wedi ei gyflawni'n foddhaol, a lle bo hynny'n berthnasol, fod y defnyddiau a ddefnyddiwyd o'r safon ofynnol, a bod y prisiau'n gywir;

(c) bod y cyfrif yn rhifyddol gywir (oni bai bod y Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol mewn unrhyw achos penodol drwy drefniant);

(d) bod y cofnodion priodol wedi'u gwneud mewn rhestrau eiddo, cofnodion stoc, yn ôl yr angen;

(e) na phasiwyd y cyfrif i'w dalu o'r blaen, a bod y CBC yn gyfrifol am ei dalu.

20.26 Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn dibynnu ar ardystiad o'r fath i olygu fod yr ardystiwr yn gwarantu fod y taliad yn cwrdd â'r amodau uchod ac y caiff felly dalu'r swm dan sylw.

20.28 Rhaid i'r gwasanaethau nodi ar bob cyfrif drwy ddefnyddio codau a baratowyd gan y Prif Swyddog Cyllid neu fel arall, o dan ba bennawd gwariant y dylid talu'r cyfrif.

20.29 Pan fo anfoneb yn anfoneb TAW, ni wneir unrhyw newidiadau iddo. Dylid dychwelyd unrhyw anfoneb TAW anghywir i'r cyflenwyr i'w cywiro. Os newidir unrhyw anfoneb nad yw'n anfoneb TAW, yna rhaid gwneud hynny mewn inc a rhaid i'r swyddog sy'n gwneud y newid ei lofnodi, gan roi crynodeb byr o'r rhesymau lle na fo hynny'n amlwg.

20.30 Rhaid i bob Uwch Reolwr hysbysu’r Prif Swyddog Cyllid mewn ffurf sy’n ofynnol ganddo mor fuan ag sydd modd, a heb fod yn hwyrach na dyddiad ym mhob blwyddyn a roddwyd iddo, am bob gwariant dyledus am y flwyddyn ariannol flaenorol.

20.31 Bydd gan y Prif Swyddog Cyllid yr hawl i wneud pob taliad y profwyd ei ddilysrwydd, sy’n *intra-vires* ac sy’n cydymffurfio â Rheolau Gorchmynion Sefydlog a Gweithdrefn Ariannol y CBC.

20.32 Bydd pob Uwch Reolwr yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r cyfryw gyfarwyddiadau y bydd y Prif Swyddog Cyllid yn eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd mewn perthynas â thaliadau sy’n dod o dan amodau Cynllun Tynnu Treth Diwydiant Adeiladu Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi.

Cardiau Credyd a Chardiau Talu

20.33 Ni fydd unrhyw gerdyn credyd neu gerdyn talu o unrhyw fath at ddibenion y Cyngor yn cael ei gadw na’i ddefnyddio gan unrhyw swyddog oni chytunir hynny ymlaen llaw gyda’r Prif Swyddog Cyllid ar ôl derbyn cais gan yr Uwch Reolwr priodol. Lle caniateir prynu gyda cherdyn chredyd neu gerdyn talu, rhaid i’r swyddog sy’n defnyddio’r cyfleuster hwnnw ddarparu dogfennau digonol i gefnogi pob pryniant yn cynnwys anfoneb/derbynneb TAW ddilys lle mae TAW yn daladwy. Ni chaniateir unrhyw brynu preifat trwy ddefnyddio cerdyn credyd neu gerdyn talu o’r fath.

Taliadau i Weithwyr ac Aelodau

20.34 Telir yr holl gyflogau, pensiynau, iawndal a thaliadau eraill i weithwyr neu bensiynwyr y CBC gan y Prif Swyddog Cyllid neu o dan drefniadau a gymeradwywyd ac a reolir ganddo. Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn gweithredu'r holl gytundebau a gymeradwywyd yn genedlaethol ar amodau gwasanaeth pan y’u derbynnir.

20.35 Rhaid penodi pob gweithiwr yn unol â rheolau’r CBC ac yn unol â’r sefydliadau, graddau a graddfeydd cyflog cydnabyddedig.

20.36 Rhaid i’r holl gofnodion amser a dogfennau tâl eraill fod ar ffurf a osodwyd neu a gytunwyd gyda’r Prif Swyddog Cyllid, a rhaid eu hardystio gan yr Uwch Reolwr priodol neu ar ei ran. Rhaid i bob Uwch Reolwr anfon enwau’r swyddogion a awdurdodir i lofnodi'r fath gofnodion at y Prif Weithredwr, ynghyd ag enghraifft o’u llofnodion hwy, a rhaid diwygio’r rhain os digwydd unrhyw newid.

20.37 Bydd taliadau lwfansau teithio neu dreuliau eraill i aelodau, gan gynnwys aelodau cyfetholedig y CBC neu ei bwyllgorau sydd â hawl i hawlio a derbyn lwfansau teithio neu lwfansau eraill yn cael eu hardystio gan y Prif Weithredwr neu swyddog arall a ddynodwyd ganddo cyn cael eu talu gan y Prif Swyddog Cyllid.

20.38 Bydd pob hawliad gan swyddogion am dalu lwfansau car, lwfans cynhaliaeth, costau teithio a chostau ychwanegol mewn ffurf ac yn unol ag amserlen a gymeradwyir gan y Prif Swyddog Cyllid ar gyfer gwahanol gategorïau o swyddogion, a bydd yn cael ei adolygu gan yr Uwch Reolwr perthnasol, ei ddirprwy neu swyddog arall a awdurdodir yn benodol ganddo yn ôl yr angen.

20.40 Bydd gan y Prif Swyddog Cyllid yr hawl i wneud pob taliad y profwyd ei ddilysrwydd, sy’n *intra-vires* ac sy’n cydymffurfio â Rheolau Gorchmynion Sefydlog a Gweithdrefn Ariannol y CBC.

21 TRETHIANT

21.1 Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn rhoi cyngor i Uwch Reolwyr, yng ngoleuni'r arweiniad a gafwyd gan gyrff priodol a’r ddeddfwriaeth berthnasol, ar yr holl faterion treth sy’n cael effaith ar y CBC.

21.2 Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn cadw cofnodion treth y CBC, gan wneud pob taliad treth a derbyn credydau treth a chyflwyno datganiadau treth incwm erbyn y dyddiad i'w talu fel y bo'n briodol.

21.3 Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn:

(a) Rhoi cyfrif i Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi am yr holl dreth a dynnwyd o daliadau i weithwyr o dan drefniadau Talu Wrth Ennill (PAYE).

(b) Cwblhau ffurflen fisol yn dangos mewnbynnau ac allbynnau TAW i Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi.

(c) Cyfrifoldeb y Prif Swyddog Cyllid fydd rhoi cyfrif i'r asiantaeth briodol am bob math arall o drethi sydd yn daladwy i neu gan y CBC a rhoi i'r cyfryw asiantaethau unrhyw wybodaeth arall y byddai'n ddilys iddynt ei angen.

(d) Darparu manylion i Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi ynghylch cynllun didyniad treth y diwydiant adeiladu.

(e) Rhoi arweiniad cyfredol i Uwch Reolwyr parthed eu cyfrifoldebau mewn perthynas â materion treth ac i weithwyr unigol y Cyngor ar faterion treth.

21.4 Bydd Uwch Reolwyr yn cadw cofnodion priodol ac yn cyflwyno manylion i'r Prif Swyddog Cyllid yn ôl y gofyn i gydymffurfio â rheoliadau trethiant.

21.5 Bydd Uwch Reolwyr yn:

(a) Sicrhau na fydd unrhyw bryniant trethadwy dan ddeddfwriaeth TAW, os yw pris y pryniant hwnnw yn cynnwys elfen o TAW ai peidio, yn cael ei dalu amdano nes bo'r Prif Swyddog Cyllid wedi derbyn anfoneb sy'n cydymffurfio â rheoliadau TAW neu gadarnhad ar ddu a gwyn y rhyddheir derbynneb TAW ddilys wrth dalu.

(b) Sicrhau bod atebolrwydd TAW cywir ynghlwm wrth bob incwm dyledus a bod pob TAW y gellir ei adennill ar bryniadau yn cyd-fynd â gofynion didyniad treth y diwydiant adeiladu.

(c) Sicrhau bod y contractwr, lle gwneir gwaith adeiladu a chynnal a chadw, yn bodloni gofynion didyniad treth y diwydiant adeiladu angenrheidiol.

(d) Sicrhau bod enw pob un sy'n gweithio i'r CBC wedi'i ychwanegu at restr gyflogau'r CBC ac y tynnir treth o unrhyw daliadau, heblaw lle bo'r personau hynny yn wirioneddol hunangyflogedig neu wedi eu cyflogi gan asiantaeth staff gydnabyddedig.

TREFNIADAU ALLANOL

23 PARTNERIAETHAU

23.1 Bydd y CBC yn cymeradwyo dirprwyaethau, gan gynnwys fframweithiau a chytundebau ar gyfer partneriaethau a mentrau ar y cyd. Y CBC yw'r ffocws ar gyfer ffurfio partneriaethau a mentrau ar y cyd gyda sefydliadau lleol eraill yn y sector preifat, gwirfoddol a chymunedol cyhoeddus i fynd i'r afael ag anghenion lleol.

23.2 Gall y CBC ddirprwyo swyddogaethau – gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â phartneriaethau – i swyddogion. Mae'r rhain wedi'u nodi yn y cynllun dirprwyo sy'n ffurfio rhan o Gyfansoddiad y CBC.

23.3 Bydd cynrychiolydd y CBC ar unrhyw bartneriaeth neu fenter ar y cyd yn hyrwyddo ac yn cynnal yr un safonau ymddygiad uchel sy'n berthnasol ledled y CBC.

23.4 Wrth ymrwymo i gytundeb partneriaeth, rhaid i'r CBC ystyried y trefniadau llywodraethu corfforaethol cyffredinol a'r materion cyfreithiol.

23.5 Y Prif Swyddog Cyllid sy'n gyfrifol am sicrhau bod y trefniadau cyfrifo sydd i'w mabwysiadu ar ran partneriaethau a mentrau ar y cyd yn dderbyniol.

24 GRANTIAU A CHYLLID ALLANOL ARALL

24.1 Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn sicrhau bod yr holl gyllid a hysbysir gan gyrff allanol yn cael ei dderbyn a'i gofnodi'n briodol yng nghyfrifon y CBC a bod unrhyw ofynion archwilio yn cael eu bodloni.

24.2 Rhaid i Uwch Reolwyr sicrhau nad oes unrhyw brosiect sydd i'w ariannu gan gyllid allanol yn dechrau nes y derbynnir cymeradwyaeth briodol a bod ffynhonnell yr arian allanol wedi'i gadarnhau.

24.3 Bydd Uwch Reolwyr yn:

(a) Sicrhau y cydymffurfir ag amodau allweddol cyllid ac unrhyw ofynion statudol a bod cyfrifoldebau'r corff atebol, boed yn Gyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru neu drydydd parti, yn cael eu deall yn glir.

(b) Gweithredu yn unol â Rheol 6.8 wrth fynd i'r afael â chyllideb ac ymrwymiadau'r gronfa bosib.

(c) Sicrhau bod unrhyw ofynion cyllid cyfatebol yn cael eu hystyried yn briodol a bod cyllidebau refeniw yn y dyfodol yn adlewyrchu'r gofynion hyn, cyn ymrwymo i gytundebau hirdymor.

(d) Sicrhau bod yr holl hawliadau am arian yn cael eu gwneud erbyn y dyddiad dyledus.

(e) Sicrhau bod cynigion yn cael eu costio'n briodol a bod cymeradwyaeth y CBC yn cael ei sicrhau cyn i unrhyw drafodaethau gael eu cwblhau i weithio i drydydd partïon.

(f) Sicrhau bod y CBC, cyn belled ag y bo modd, yn ymwybodol o unrhyw risg sylweddol bosib.

(g) Sicrhau nad yw contractau o'r fath yn effeithio'n andwyol ar y gwasanaethau a ddarperir i'r CBC.

(h) Darparu gwybodaeth briodol i'r Prif Swyddog Cyllid er mwyn gallu cofnodi nodyn yn y datganiad cyfrifon yn ôl y gofyn.

24.4. Ni ddylid rhagdybio y bydd y CBC yn ysgwyddo costau ychwanegol, fel costau diswyddo, sy'n deillio o'r grant neu ddiwedd cyllid allanol arall. Ac eithrio mewn achosion eithriadol, disgwylir y bydd y costau hyn yn cael eu talu o'r cyllid allanol neu gyllideb yr adran berthnasol os nad yw hynny'n bosibl. Mae unrhyw gais am ddefnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn ddarostyngedig i Reolau 6.11 a 6.12.

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

6 Medi, 2024

| | |
|---|---|
| TEITL: | Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam |
| AWDUR: | Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Parth Buddsoddi newydd yn Sir y Fflint a Wrecsam sy'n canolbwyntio ar Weithgynhyrchu Uwch. Mae'r Parth Buddsoddi yn canolbwyntio ar fuddsoddiadau yn Sir y Fflint a Wrecsam ond disgwylir iddo gael effeithiau buddiol ehangach ar draws y Gogledd.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Er mwyn cefnogi datblygiad pellach y Parth Buddsoddi, gofynnir am ddau benderfyniad:

- Awdurdodi'r Prif Weithredwr dros dro i barhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Cynghorau Sir y Fflint a Wrecsam a rhanddeiliaid lleol i baratoi dogfennau'r Porth sy'n weddill ar ffurf drafft, o dan gyfarwyddyd a chyngor Uwch Swyddog Cyfrifol arfaethedig y Parth Buddsoddi, Prif Weithredwr dros dro y CBC. Bydd penodiad yr Uwch Swyddog Cyfrifol (SRO) yn cael ei ffurfioli ym Mhorth 3, a'i gyflwyno i'r CBC maes o law.
- Cefnogi, mewn egwyddor, y Model Llywodraethu arfaethedig sy'n gosod allan y ffurf arfaethedig o'r strwythurau penderfyniadau ar gyfer y Parth Buddsoddi.
- Cyflwyno dogfennaeth arfaethedig y Porth i'w chymeradwyo, gan y CBC yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd, cyn cyflwyno'n ffurfiol i Lywodraethau'r DU a Chymru.

## 3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae'r broses ar gyfer datblygu Parthau Buddsoddi yn gydweithredol o ran natur ac mae'n dibynnu ar rannu dogfennaeth i'w hadolygu ar draws rhanddeiliaid lleol, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (MHCLG). Y bwriad yw rhannu dogfennau Porth drafft wrth iddynt gael eu paratoi am adborth a chytundeb.

## 4. Y CBC A'R PARTH BUDDSODDI

4.1. Wrth gynnig Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam, adnabyddwyd y CBC fel y corff partner rhanbarthol gan Lywodraethau y DU a Chymru ar gyfer y cynigion. O ganlyniad, y CBC yn gorfforaethol fydd y corff atebol ar gyfer y Parth Buddsoddi. Mae hyn yn golygu, ar gamau allweddol, y bydd y CBC yn gyfrifol am arwyddo cymeradwyo cyflawniad ac allbynnau. Er enghraifft, bydd angen penderfyniad CBC ar gymeradwyo cyflwyno y Pyrth yn derfynol. Bydd y CBC yn gwneud cais am y llythyr cyllido blynyddol ac yn ei dderbyn, a bydd Swyddog Adran 151 y CBC yn cymeradwyo adroddiad chwe misol y Corff Atebol ar wariant a chynnydd allbynnau.



Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

4.2. Un o amcanion yr adroddiad yma oedd tynnu sylw at natur y swyddogaeth, y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau y mae'r CBC yn ei ysgwyddo wrth ddatblygu a chyflawni y Parth Buddsoddi. Fel y nodi’r yn yr adroddiad mae'n rôl lle mae partneriaeth ar y lefel leol yn gynhenid ac yn allweddol. Serch hynny, nid yw rôl y CBC yn cynrychioli yr hyn y gellid ei alw'n rôl weinyddol yn unig, mae hefyd yn gyfrifoldeb corfforaethol ar y CBC fel sefydliad.

4.3. Bydd gan y CBC benderfyniadau i'w gwneud wrth ddatblygu'r Parth Buddsoddi. Yr hyn y mae'r adroddiad hwn yn ceisio ei wneud yw paratoi ar gyfer y penderfyniadau hynny, codi ymwybyddiaeth o'r broses ond hefyd sefydlu dull cydweithredol a phartneriaeth o lywodraethu a fydd yn bwydo ac yn siapio’r prosiect ac yn llywio'r CBC yn ei benderfyniadau.

5. Y PYRTH

5.1. **Porth 1: Gweledigaeth** - wedi'i gytuno ac yn nodi gweledigaeth ac uchelgais yr ardal i dyfu'r sector gweithgynhyrchu a chynyddu cynhyrchiant, arloesedd, buddsoddiad, a nifer y swyddi gweithgynhyrchu o ansawdd.

5.2. **Porth 2: Sector a Daearyddiaeth** - yn nodi'r cyd-destun economaidd a dealltwriaeth o'r sector gweithgynhyrchu fel y gallwn ddangos ein dealltwriaeth o'r ymyriadau allweddol y gallai buddsoddiad y Llywodraeth eu gwneud i helpu i gyflymu buddsoddiad, arloesedd, datblygu sgiliau a thwf swyddi. Mae'r porth hwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Parth Buddsoddi gadarnhau lleoliadau unrhyw Safleoedd Treth ac Ardaloedd Buddsoddi Ardrethi a Gedwir sy'n cynrychioli'r cyfle gorau i gefnogi twf safleoedd gweithgynhyrchu. Yn olaf, mae Porth 2 hefyd yn ystyried cynllunio ac ymchwil. Prifysgol Wrecsam yw Partner Gwybodaeth y Parth Buddsoddi gyda Phrifysgol Bangor yn ymwneud fel partner arloesi allweddol.

5.3. I gefnogi ein harfarniad o'r ymyriadau prosiect a'r safleoedd treth sydd ar gael ledled Wrecsam a Sir y Fflint, lansiwyd 'Galwad am Brosiectau a Safleoedd' agored a redwyd rhwng 15-26 Gorffennaf. Cyflwynwyd cynigion trwy brofforma safonol gyda dros 45 o syniadau prosiect a derbyniwyd 21 o Safleoedd Treth arfaethedig ac Ardaloedd Buddsoddi Ardrethi a Gedwir.

5.4. **Cynigion prosiect -** cyfanswm y 45 syniad prosiect oedd tua £250milion o fuddsoddiad a fyddai'n ofynnol o'r cyllid Parth Buddsoddi arfaethedig ac roeddent yn cynrychioli tua £1bn o arian cyfatebol preifat. Mae trafodaethau parhaus gyda phartneriaid lleol yn nodi cyfleoedd pellach na chyflwynwyd eto a fydd yn cael eu cyflwyno dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Bydd hyn yn cryfhau'r achos ymhellach dros Barth Buddsoddi sy'n canolbwyntio ar dwf sector gweithgynhyrchu uwch sy'n arwyddocaol yn fyd-eang. Mae'r data a dderbyniwyd trwy'r alwad agored am brosiectau yn dangos y gallai'r Parth Buddsoddi greu tua 5,000 o swyddi newydd ac felly gynyddu cyflogaeth gweithgynhyrchu oddeutu 20% dros gyfnod y Parth Buddsoddi o ddeng mlynedd.

5.5. **Safleoedd Treth ac Ardaloedd Buddsoddi Ardrethi a Gedwir** - hyrwyddwyd cyfanswm o 21 safle a rhoddwyd 7 ar y rhestr fer (4 yn Sir y Fflint a 3 yn Wrecsam). Mae'r safleoedd ar y rhestr fer i gyd yn cydymffurfio â pholisi cynllunio lleol. Cynhelir cyfarfodydd ar 4 a 5 Medi i helpu i benderfynu ar y lleoliadau sydd i'w cynnig fel Safleoedd Treth. Bydd y ddau safle sydd â'r cyfle mwyaf ar gyfer ardrethi busnes a gedwir yn cael eu dynodi ar gyfer cadw ardrethi busnes. Bydd Cyngor Sir y Fflint a Wrecsam yn gallu ail-fuddsoddi hanner cant y cant o incwm o dwf ardrethi busnes a dderbynnir o'r ardaloedd dynodi hyn ar gyfer tymor deng mlynedd y Parth Buddsoddi. Gellir cyfeirio'r incwm hwn at gefnogi twf economaidd ar draws y Parth Buddsoddi ac i gefnogi benthyca ar gyfer buddsoddi mewn prosiectau allweddol.

5.6. **Porth 3: Llywodraethu** – yn nodi agweddau llywodraethu a Chorff Atebol y Parth Buddsoddi. Mae'r rhain i'w rheoli gan y CBC drwy'r Is-bwyllgor Lles Economaidd. Bydd bwrdd partneriaeth Parth Buddsoddi newydd yn cael ei sefydlu ar ffurf 'Cysgodol' i gefnogi sefydlu'r rhaglen a dod yn weithredol unwaith y bydd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y Parth Buddsoddi wedi'i lofnodi. Mae'r Grŵp Llywio dan arweiniad y sector preifat a gefnogodd ddatblygiad Porth 1 yn cael ei hysbysu am y cynnydd a wneir. Mae'r Model Llywodraethu arfaethedig wedi'i gynnwys yn ***Atodiad 1***.

5.7. **Porth 4: Ymyriadau -** yn darparu manylion ynghylch dyraniadau ariannol yr ymyriadau (prosiectau) ac allbynnau disgwyliedig y rhaglen Parth Buddsoddi.

5.8. **Porth 5: Cynllun Cyflawni** - yn crynhoi'r trefniadau cyflawni ar gyfer y Parth Buddsoddi.

5.9. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar Borth 2 a 3 ac mae drafftiau'n cael eu paratoi ar gyfer ymgynghori ddechrau mis Medi yn dilyn arfarnu'r Safleoedd Trethi. Bydd Porth 4 a 5 yn cael eu datblygu ym mis Hydref.

## 6. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

6.1. Mae disgwyl i Lywodraeth y DU gadarnhau cyllid a rhaglen y Parth Buddsoddi yn Natganiad yr Hydref ar 30th Hydref, 2024. Mae Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, y CBC a Chynghorau Sir y Fflint a Wrecsam yn cyfarfod yn wythnosol i yrru datblygiad y Parth Buddsoddi yn ei flaen.

6.2. Y bwriad yw dod â chynnig y Parth Buddsoddi i gyfarfod CBC Tachwedd i'w gymeradwyo. Os cytunir arno, bydd y cyflwyniad yn cael ei ystyried gan Llywodraethau y DU a Chymru ym mis Rhagfyr a mis Ionawr fel y gellir paratoi Memorandwm i'w gymeradwyo gan y CBC ym mis Mawrth. Ochr yn ochr â hynny, bydd Cynllun Cyflawni Blynyddol yn cael ei baratoi a'i gytuno gyda'r ddau Lywodraeth (DU a Chymru) i ganiatáu talu cyllid blwyddyn 1 ym mis Ebrill 2025 a'r rhaglen i ddechrau.

6.3. Bydd angen ystyriaeth bellach i nodi proses recriwtio ac adnoddau'r tîm sy'n angenrheidiol er mwyn i'r rhaglen ddechrau. Bydd cynllunio pellach ar hyn yn digwydd unwaith y bydd penderfyniad y Llywodraeth ar y rhaglen yn glir.

## 7. GOBLYGIADAU ARIANNOL

7.1. Mae darpariaeth ar gyfer £100,000 o fewn cyllideb CBC 2024/25 ar gyfer datblygu cynnig y Parth Buddsoddi. Gellir hawlio'r cyllid hwn yn ôl-weithredol o ddyraniad cyllideb weinyddol y Parth Buddsoddi unwaith y cytunir arno a'i fod yn weithredol. Hyd nes y bydd mwy o eglurder gan Lywodraeth y DU ar Barthau Buddsoddi, mae Cynghorau Sir y Fflint a Wrecsam wedi cytuno i warantu'r costau o fwrw ymlaen â datblygu cynnig y Parth Buddsoddi hyd at werth £50,000. Penodwyd AMION Consulting i gefnogi'r CBC a'i bartneriaid ar baratoi'r cynnig a'i gyflwyniad. Bydd y cyllid a sicrhawyd yn galluogi paratoi'r dogfennau drafft hyd at ddiwedd mis Hydref a gofynnwyd am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r cyd-ddatblygiad sy'n weddill a'r rhaglen.

## 8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

8.1. Y bwriad yw i'r CBC ymrwymo i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llywodraethau'r DU a Chymru. Bydd y CBC hefyd yn cyflogi neu'n ymrwymo i gontractau gwasanaeth gyda phartneriaid awdurdodau lleol ac ymgynghorwyr i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Parth Buddsoddi. Wrth gyflwyno'r rhaglen, bydd y CBC yn goruchwylio'r gwaith o reoli proses

sicrwydd prosiect ac yn ymrwymo i Gytundebau Cyllid Grant gyda phrifysgolion, sgiliau, awdurdodau lleol a busnesau lleol. Mae angen gwerthuso ystyriaethau rheoli cymhorthdal ymhellach ond disgwylir iddynt gael eu cynnwys mewn Cynllun Rheoli Cymhorthdal ar draws y rhaglen.

---

ATODIADAU:

Atodiad 1: Model o'r Strwythur Llywodraethu Arfaethedig

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:


i. Swyddog Monitro:

"Bwriad yr adroddiad yw gosod allan rôl y CBC wrth ddatblygu a chyflawni'r Parth Buddsoddi. Mae'n bwysig bod aelodau'r CBC yn ymwybodol o natur swyddogaethau a dyletswyddau'r CBC mewn perthynas â'r prosiect hwn. Bydd angen i'r CBC gymeradwyo'r Pyrth ac yn benodol ym Mhorth 3 cymeradwyo a mabwysiadu strwythur llywodraethu fydd yn cefnogi ac yn hwyluso cyflawni a siapio'r prosiect mewn partneriaeth. Mae angen iddo hefyd sicrhau y gall gyflawni swyddogaeth corff atebol yn unol a'r gofynion."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Mae cyflwyno'r Parthau Buddsoddi yn ddatblygiad sylweddol i'r CBC, gyda'r posibilrwydd o oblygiadau sylweddol o ran adnoddau. Mae swyddogion cyllid yn mynychu'r cyfarfodydd wythnosol fel y disgrifir ym mharagraff 4.1 er mwyn cynghori fel y bo'n briodol, ac i sicrhau bod gwybodaeth am y datblygiadau yn cael eu cynnal. O ganlyniad, nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiadau i'r penderfyniad a geisir o safbwynt ariannol, a byddaf yn parhau i gynghori'r CBC wrth i faterion fynd rhagddynt.

Mae'r materion a nodwyd yn Rhan 5 uchod wedi cael eu hystyried yn yr adroddiad Gwariant Rhagamcanol sy'n eitem ar wahân ar agenda'r cyfarfod, ac nid oes anghysondebau rhwng y ddau adroddiad."



Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol - Rhanddeiliaid y Llywodraeth
Llywodraeth Cymru
Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd
Is-Bwyllgor Lles Economaidd
Bwrdd Cynghori Cysgodol y Parth Buddsoddi
Aelodaeth Arfaethedig
Cadeirydd Annibynnol
Cadeirydd y CBC
Cynrychiolaeth Wleidyddol Sir y Fflint
Cynrychiolaeth Wleidyddol Wrecsam
AS Lleol
Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
Cynrychiolaeth Llywodraeth Cymru
Prifysgol Wrecsam
AMRC
Cyngor Busnes Gogledd Cymru
Cynrychiolwyr y Sector Preifat
Cefnogaeth Llywodraethu Rhanddeiliaid a'r Sector
Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
Cyngor Business Gogledd Cymru
Grŵp Llywio Cysyniad y Parth Buddsoddi
Tîm Cyflawni
Tîm Craidd Parth Buddsoddi
Cyngor Sir y Fflint
Swyddogaethau Cefnogol Mewnol ac Allanol y CBC
Cyngor Wrecsam
Coleg Cambria
Prifysgol Wrecsam
Partneriaid Prosiect
AMRC
Perchnogion / Datblygwyr Safleoedd Treth
Cyflenwi gan yr Awdurdodau Lleol
Cynllunio
Rheolaeth Safle Treth
Buddsoddiad Ardrethi a gedwir
Arweinydd Gwybodaeth
Arweinydd Arloesi

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

6 Medi, 2024

| | |
|---|---|
| TEITL: | Rhagolwg o wariant 2024/25 Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd |
| AWDUR: | Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC)<br>Sian Pugh, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol |

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu rhagolwg o wariant y Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) ar gyfer 2024/25.

1.2. Er mwyn gweithredu'n effeithiol, mae angen i'r Cyd-Bwyllgor fod yn ymwybodol o'i sefyllfa ariannol yn erbyn ei gyllideb flynyddol gymeradwy.

2. Y PENDERFYNIADAU A GEISIR

2.1. Nodi a derbyn rhagolwg o wariant y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ar gyfer 2024/25 fel y cyflwynir yn *Atodiad 1*.

3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Nodi tanwariant a ragwelir o £203,923 yn erbyn ei gyllideb yn 2024/25, sy'n bennaf oherwydd tanwariant ar y gyllideb staffio.

4. CEFNDIR A YSTYRIAETHAU PHERTHNASOL

4.1. Yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr 2024, cymeradwyodd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ei gyllideb ar gyfer 2024/25.

4.2. Parheir i fonitro ac adolygu'r gyllideb drwy gydol blwyddyn ariannol 2024/25, a chyflwynir adroddiad y trydydd chwarter i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig ym mis Ionawr 2025.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. **Rhagolwg o Wariant 2024/25 fesul pennawd**

5.1.1 Mae **Atodiad 1** yn darparu dadansoddiad manwl o ragolygon gwariant fesul pennawd yn erbyn ei gyllideb flynyddol.

5.1.2 Rhagwelir y bydd y sefyllfa alldro net ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024/25 yn danwariant o £203,923.



Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

### Gweithwyr

5.1.3 Rhagwelir tanwariant o £289,614 ar y pennawd gweithwyr ar gyfer 2024/25.

5.1.4 Mae cyllideb y gweithwyr yn cynnwys Prif Weithredwr dros dro (2 ddiwrnod yr wythnos), Cynorthwyydd Personol (1 diwrnod yr wythnos), Rheolwr (Swyddogaethau Statudol), Rheolwr Prosiect (1 diwrnod yr wythnos), tair swydd Cynllunio ac un swydd Trafnidiaeth. Mae'r gwariant a ragwelir hyd at fis Mawrth 2025 yn cynnwys costau Prif Weithredwr dros dro (2 ddiwrnod yr wythnos) Cynorthwyydd Gweithredol (un diwrnod yr wythnos), costau secondiad Rheolwr Rhaglen Weithredu o Lywodraeth Cymru, un swydd cynllunio (dyddiad cychwyn amcangyfrifedig Hydref 2024) yn ogystal â chostau swydd Swyddog Iaith rhan amser.

5.1.5 Mae cost lwfans yr aelodau lleyg yn seiliedig ar dri cyfarfod sy’n cael eu cynnal ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac un cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau.

### Teithio

5.1.6 Amcangyfrif mai cost y lwfans teithio hanfodol a chostau cynhaliaeth staff hyd at fis Mawrth 2025 yw £1,500, sy'n rhoi tanwariant o £4,500 ar y pennawd teithio yn 2024/25.

### Cyflenwadau a gwasanaethau

5.1.7 Er y rhagwelir gorwariant net o £54,590 yn erbyn y pennawd cyflenwadau a gwasanaethau ar gyfer 2024/25, mae £80,517 o'r gorwariant hwn yn ymwneud â chostau ymgynghori a ariennir o Grant Trafnidiaeth 2023/24, a dangosir yr incwm fel gwarged o dan yr incwm grant. Mae tanwariant o £18,800 ar gostau yswiriant ac mae gweddill y tanwariant net o £7,127 wedi ei wasgaru ar draws gweddill y penawdau.

### Gwasanaethau Cefnogol

5.1.8 Rhagwelir tanwariant o £20,044 ar y pennawd gwasanaethau cefnogol ar gyfer 2024/25. Mae’r tanwariant ar y pennawd cefnogaeth corfforaethol oherwydd gostyngiad yn nifer y cyfarfodydd ffurfiol yn ystod 2024/25. Bydd y tanwariant ar y pennawd cyfreithiol yn cael ei ddefnyddio i ariannu rhan o'r gorwariant ar y costau cyfreithiol gan ymgynghorwyr allanol a ddangosir o dan y costau sefydlu.

### Costau sefydlu

5.1.9 Mae’r gwariant o £82,662 ar gyfreithiol yn cynnwys costau cwmni cyfreithiol allanol yn ogystal â dau ymgynghorydd cyfreithiol sydd wedi’u comisiynu i ddarparu cyngor a chymorth arbenigol ar sefydlu’r CBC.

5.1.10 Mae'r £103,500 ar ymgynghorwyr allanol yn ymwneud â chostau rheoli prosiect sy'n gysylltiedig â gweithredu'r CBC.

5.1.11 Y gobaith yw y bydd y gwariant o £100,000 ar y Parthau Buddsoddi yn cael ei ariannu o lwfans gweinyddol grant Parth Buddsoddi y Llywodraeth, ond heb gadarnhad ffurfiol, mae Cynghorau Sir Wrecsam a Sir y Fflint rhyngddynt wedi gwarantu £50,000 o’r gwariant hwn gyda’r £50,000 sy’n weddill i’w ariannu o gronfa wrth gefn y CBC.

5.2. Cyfraniadau Awdurdodau Cyfansoddol

5.2.1 Cymeradwywyd yr ardoll ar yr awdurdodau cyfansoddol ar gyfer 2024/25 gan y CBC yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr, 2024.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Mae Prif Weithredwr dros dro y CBC yn ogystal â'r Swyddog Monitro wedi cyfrannu at yr adolygiad hwn.

---

ATODIADAU:

Atodiad 1: Cyllideb Refeniw 2024/25 Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd – Adolygiad Awst 2024

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.

**Cyllideb Refeniw 2024/25 Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd - Adolygiad Awst 2024**

**Atodiad 1**

| | Cyllideb | | | | | Rhagolwg gwariant | | | | | Rhagolwg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cynllunio Strategol | Trafnidiaeth | Parthau Buddsoddi | Cyd-Bwyllgor Corfforedig | Cyfanswm Cyllideb | Cynllunio Strategol | Trafnidiaeth | Parthau Buddsoddi | Cyd-Bwyllgor Corfforedig | Cyfanswm Gwariant | Gorwaraint / (Tanwariant) |
| **Gwariant** | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) |
| **Gweithwyr** | | | | | | | | | | | |
| Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal) | 222,440 | 111,540 | 0 | 95,380 | 429,360 | 33,541 | 17,130 | 0 | 90,565 | 141,236 | (288,124) |
| Lwfans aelodau lleyg | 0 | 0 | 0 | 4,880 | 4,880 | 0 | 0 | 0 | 3,390 | 3,390 | (1,490) |
| **Cyfanswm Gweithwyr** | **222,440** | **111,540** | **0** | **100,260** | **434,240** | **33,541** | **17,130** | **0** | **93,955** | **144,626** | **(289,614)** |
| **Teithio** | | | | | | | | | | | |
| Teithio a chynhaliaeth | 3,000 | 2,000 | 0 | 1,000 | 6,000 | 500 | 0 | 0 | 1,000 | 1,500 | (4,500) |
| **Cyfanswm Teithio** | **3,000** | **2,000** | **0** | **1,000** | **6,000** | **500** | **0** | **0** | **1,000** | **1,500** | **(4,500)** |
| **Cyflenwadau a gwasanaethau** | | | | | | | | | | | |
| Offer a chyfarpar | 4,500 | 3,000 | 0 | 0 | 7,500 | 1,500 | 100 | 0 | 1,705 | 3,305 | (4,195) |
| Cyflenwadau amrywiol | 1,000 | 1,000 | 0 | 1,000 | 3,000 | 500 | 500 | 0 | 500 | 1,500 | (1,500) |
| Ymgysylltu a chyfarfodydd | 770 | 770 | 0 | 3,830 | 5,370 | 770 | 770 | 0 | 1,915 | 3,455 | (1,915) |
| Ffioedd Archwilio Cymru | 0 | 0 | 0 | 21,100 | 21,100 | 0 | 0 | 0 | 21,100 | 21,100 | 0 |
| Ymgynghorwyr allanol | 132,500 | 132,670 | 0 | 10,000 | 275,170 | 132,500 | 213,670 | 0 | 10,000 | 356,170 | 81,000 |
| Yswiriant | 15,000 | 15,000 | 0 | 30,000 | 60,000 | 5,600 | 5,600 | 0 | 30,000 | 41,200 | (18,800) |
| **Cyfanswm Cyflenwadau a gwasanaethau** | **153,770** | **152,440** | **0** | **65,930** | **372,140** | **140,870** | **220,640** | **0** | **65,220** | **426,730** | **54,590** |
| **Gwasanaethau Cefnogol** | | | | | | | | | | | |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid | 0 | 0 | 0 | 28,210 | 28,210 | 0 | 0 | 0 | 28,210 | 28,210 | 0 |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro) | 7,500 | 7,500 | 0 | 15,000 | 30,000 | 902 | 902 | 0 | 16,242 | 18,046 | (11,954) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 8,330 | 7,730 | 0 | 19,620 | 35,680 | 6,700 | 6,100 | 0 | 16,330 | 29,130 | (6,550) |
| Technoleg Gwybodaeth | 2,310 | 1,540 | 0 | 3,120 | 6,970 | 770 | 0 | 0 | 4,660 | 5,430 | (1,540) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol** | **18,140** | **16,770** | **0** | **65,950** | **100,860** | **8,372** | **7,002** | **0** | **65,442** | **80,816** | **(20,044)** |
| **Costau sefydlu** | | | | | | | | | | | |
| Cyfreithiol | 0 | 0 | 0 | 50,000 | 50,000 | 0 | 0 | 0 | 82,662 | **82,662** | 32,662 |
| Ymgynghorwyr Allanol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 103,500 | **103,500** | 103,500 |
| Parthau Buddsoddi | 0 | 0 | 100,000 | 0 | 100,000 | 0 | 0 | 100,000 | 0 | **100,000** | 0 |
| **Cyfanswm Costau sefydlu** | **0** | **0** | **100,000** | **50,000** | **150,000** | **0** | **0** | **100,000** | **186,162** | **286,162** | 136,162 |
| **Cyfanswm Cyllideb Gwariant** | **397,350** | **282,750** | **100,000** | **283,140** | **1,063,240** | **183,283** | **244,772** | **100,000** | **411,779** | **939,834** | **(123,406)** |
| **Llywodraeth Cymru - Grant Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol** | 0 | (100,000) | 0 | 0 | **(100,000)** | 0 | (180,517) | 0 | 0 | **(180,517)** | **(80,517)** |
| **Parthau Buddsoddi** | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | (50,000) | 0 | **(50,000)** | **(50,000)** |
| **Cyfraniad o gronfa** | (26,100) | 0 | (100,000) | (72,320) | **(198,420)** | (26,100) | 0 | (50,000) | (72,320) | **(148,420)** | **50,000** |
| **Cyfanswm Cyllideb Gwariant Net** | **371,250** | **182,750** | **0** | **210,820** | **764,820** | **157,183** | **64,255** | **0** | **339,459** | **560,897** | **(203,923)** |

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

6 Medi, 2024

| | |
|---|---|
| TEITL: | Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol: Diweddariad cynnydd ac argymhellion |
| AWDUR: | Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro |

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Diben yr adroddiad hwn yw cyflwyno diweddariad pellach ar y gwaith i ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP) sy'n cynnwys sefydlu'r strwythurau llywodraethu angenrheidiol i alluogi i'r CBC gyflawni ei ddyletswydd statudol.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Nodi, yn unol â chymeradwyaeth CBC a roddwyd ar 21 Mehefin 2024, mae Swyddog Monitro'r CBC wedi penodi'r canlynol yn aelodau cyfetholedig o'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth:

- Cyng. Goronwy Edwards (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)
- Cyng. Barry Mellor (Cyngor Sir Ddinbych)
- Cyng. Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint)
- Cyng. Dafydd Meurig (Cyngor Gwynedd)
- Cyng. Dafydd Rhys Thomas (Cyngor Sir Ynys Môn)
- Cyng. David A Bithell (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)

2.2. Nodi'r diweddariad a gynhwysir yn ***Atodiad 1*** sy'n cynnwys copi o'r drafft:

- Datganiad gweledigaeth Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Amcanion SMART
- Themâu trawsbynciol

2.3. Bydd cam nesaf y gwaith i ddatblygu'r RTP yn cael ei arwain gan yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth a bydd yn cynnwys argymhellion ar yr uchod a'r cydrannau canlynol sy'n ofynnol i ddatblygu'r RTP:

- Cynllun prosiect manwl (adeiladu ar Gynllun Gweithredu'r RTP)
- Adroddiad Cwmpasu Arfarniad Lles Integredig (Asesiadau Statudol)
- Cynllun Ymgysylltu â Rhan-ddeiliaid
- Rhestr o bolisïau, rhaglenni a phrosiectau
- Paratoi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus

2.4. Bydd cyfarfod cyntaf Is-bwyllgor Trafnidiaeth y CBC yn cael ei gynnal ar 1 Hydref. Bydd amserlen gynhwysfawr a blaengynllun yn cael eu cyflwyno i'r Is-Bwyllgor yn y cyfarfod yma. Mae'r Is-Bwyllgor yn gyfrifol am ddatblygu polisi allweddol a pharatoi'r RTP, sy'n darparu gwasanaeth cludiant strategol cyd-gysylltiedig ac integredig yng Ngogledd Cymru. Bydd yr Is-Bwyllgor yn adrodd ei argymhellion yn rheolaidd i'r CBC ar:

- y camau a gymerwyd i ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol;
- amserlen a chynnydd tuag at ei gyflwyno i Weinidogion Cymru am gymeradwyaeth;
- datblygu polisi sy'n cyd-fynd â Strategaeth Trafnidiaeth Cymru a'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol i'w weithredu gan yr awdurdodau trafnidiaeth lleol;
- monitro ac adolygu 'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a swyddogaethau strategol rhanbarthol eraill, fel y nodir yn ei gylch gorchwyl.

3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae'n ofynnol i CBC y Gogledd gynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP) a Chynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTDP) yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth, 2025. Er mwyn cyflawni hyn, dylai'r Is-Bwyllgor Trafnidiaeth ystyried cydrannau datblygol y RTP drafft ac arwain y gwaith i gytuno ar y ddogfennaeth ofynnol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

3.2. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda chefnogaeth ymgynghorwyr, ARUP, sydd wedi creu map ffordd mewn perthynas â chamau cyflenwi critigol (***Atodiad 2***), a fydd yn cael ei ddatblygu i sicrhau bod materion yn cael sylw priodol drwy'r Is-Bwyllgor a'u dwyn at sylw’r CBC mewn modd amserol ar gyfer cymeradwyo materion allweddol.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021, un o swyddogaethau statudol Cyd-bwyllgor Corfforedig yw datblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Penodwyd Arup gan Uchelgais Gogledd Cymru ar ran Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ym mis Mawrth 2024 i ddarparu cymorth ymgynghorol i ddatblygu'r RTP.

4.2. Cyflwynwyd yr Achos dros Newid drafft ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, gan gynnwys y weledigaeth a'r amcanion, i'r CBC ar 22 Mawrth, 2024. Ers hynny, mae'r amcanion hyn wedi'u mireinio a'u cryfhau i bedwar amcan penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac amserol (SMART) gyda phum thema drawsbynciol sy'n cael eu hystyried yn hanfodol er mwyn helpu i gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion.

4.3. Ar 21 Mehefin, 2024 cadarnhaodd y CBC benodiad yr aelodau cyfetholedig i'r Is-Bwyllgor Trafnidiaeth, ac ni chynghorwyd unrhyw newidiadau yn y cyfnod interim.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Mae datblygiad y RTP yn un o ddyletswyddau craidd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ac mae cyllideb yn ei le ar ei gyfer.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Mae'r goblygiadau cyfreithiol mewn perthynas â llywodraethu wedi’u nodi yng nghorff yr adroddiad.

ATODIADAU:

**Atodiad 1:** Diweddariad Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP)

**Atodiad 2:** Map ffordd mewn perthynas â chamau cyflenwi critigol

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro:**

“Mae'r adroddiad wedi bod yn destun cyngor gan y Gwasanaeth Cyfreithiol. Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w hychwanegu mewn perthynas â phriodoldeb.”

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

"Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol."

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

ATODIAD 1

DIWEDDARIAD CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL (RTP)

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer creu Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBC) a ffurfiwyd i hyrwyddo cydweithredu rhanbarthol trwy fframwaith cyson a reolir yn ddemocrataidd. Mae'n ofynnol i'r CBC gydymffurfio â'r holl ddyletswyddau cyrff cyhoeddus a chânt gyfrifoldeb statudol dros baratoi Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP)[1] y mae'n rhaid iddynt nodi polisïau trafnidiaeth i weithredu'r Llwybr Newydd: Strategaeth Trafnidiaeth Cymru 2021[2], yn darparu gweledigaeth hirdymor ar gyfer y 25 mlynedd nesaf. Mae CBC y Gogledd yn cynnwys cynrychiolwyr o chwe ardal awdurdod lleol Ynys Môn, Wrecsam, Conwy, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, a Gwynedd, ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Gweledigaeth, Amcanion a Themâu Trawsbynciol arfaethedig

Datganiad Gweledigaeth drafft Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yw:

*Bydd gan Ogledd Cymru rwydwaith trafnidiaeth integredig ddiogel, cynaliadwy, fforddiadwy, gwydn ac effeithiol sy'n cefnogi twf economaidd, ffyniant a lles.*

Yn wreiddiol, nododd Achos dros Newid RTP Gogledd Cymru 15 amcan drafft i helpu i danategu'r weledigaeth honno. Cyflwynwyd y rhain i'r CBC ar 22 Mawrth, 2024. Ers hynny, argymhellodd gwaith pellach gyda rhanddeiliaid awdurdodau lleol, cydweithwyr Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru ystyriaethau a gwelliant i'r amcanion. Mae pedwar amcan SMART bellach yn cael eu cynnig, mae'r rhain yn sefydlu targedau ac yn helpu i sicrhau cysondeb rhwng blaenoriaethau'r RTP a Llwybr Newydd ac ystyried y nodau llesiant fel sy'n ofynnol gan y canllawiau RTP.

Bydd yr amcanion SMART drafft diwygiedig yn cael eu cyflwyno i'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth yn eu cyfarfod cyntaf ar 1 Hydref 2024. Y rhain yw:

1. Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol: Byddwn yn galluogi 30% neu fwy o bobl yng Ngogledd Cymru i weithio o bell erbyn 2030 trwy gynllunio gwell defnydd tir a gwell cysylltedd digidol, a ddylai leihau'r angen cyffredinol i deithio a galluogi teithiau byrrach sy'n fwy addas ar gyfer dulliau cynaliadwy.
2. Gwell hygyrchedd a dewis trafnidiaeth: Byddwn yn datblygu seilwaith a gwasanaethau sy'n rhoi dewis i bobl am sut maen nhw'n teithio ar gyfer pob taith ac yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy trwy wella mynediad i aneddiadau allweddol, cyflogaeth, safleoedd addysgol ac atyniadau twristaidd. Dylid gwella hygyrchedd pob atyniad taith allweddol, gan gefnogi'r targed rhannu modd cenedlaethol o 45% o deithiau i'w gwneud trwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus erbyn 2040.

[1] Mae'r CBC hefyd yn gyfrifol am baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol

[2] Mae Llwybr Newydd: Strategaeth Trafnidiaeth Cymru 2021 - ar-lein yn: https://www.gov.wales/llwybr-newydd-wales-transport-strategy-2021


Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

3. **Galluogi datgarboneiddio drwy bontio i fflyd dim allyriadau:** Byddwn yn datblygu seilwaith ategol a chymhellion cymorth i alluogi o leiaf 50% o gerbydau modur a phob bws cyhoeddus sy'n gweithredu yng Ngogledd Cymru i fod yn ddi-allyriadau erbyn 2035.
4. **Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy:** Byddwn yn datblygu rhwydwaith trafnidiaeth gwydn, diogel, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac effeithlon sy'n sicrhau twf economaidd cynaliadwy trwy wella hygyrchedd i feysydd cyflogaeth presennol a rhai sydd wedi'u cynllunio. Bydd gan o leiaf 50% o aelwydydd yng Ngogledd Cymru ystod gynyddol o deithio o fewn awr ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan gefnogi mynediad i safleoedd cyflogaeth allweddol a chanolfannau rhanbarthol.

Yn ogystal ag amcanion y Cynllun Datblygu Rhanbarthol ac yn seiliedig ar adborth a thrafodaeth gychwynnol rhwng Aelodau Arup ac Awdurdodau Lleol a Swyddogion sy'n gyfrifol am Drafnidiaeth a Chynllunio a Thrafnidiaeth Cymru, ystyrir bod y themâu trawsbynciol a ganlyn yn hanfodol er mwyn helpu i gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion:

**Gwerth cymdeithasol** – cydnabod bod manteision trafnidiaeth yn ymestyn y tu hwnt i ystyriaeth gul o welliannau amser teithio meintiol. Mae cydnabod yr effeithiau a'r manteision cymdeithasol a llesiant y mae systemau trafnidiaeth yn eu cynnig i gymunedau yn bwysig, yn enwedig i gymunedau gwledig ac ynysig yn gymdeithasol.
**Tegwch** - mae tegwch neu gydraddoldeb opsiynau trafnidiaeth yn golygu sicrhau bod pawb yng Ngogledd Cymru yn cael mynediad teg at opsiynau trafnidiaeth. Mae'n cydnabod bod gan wahanol bobl anghenion gwahanol, yn enwedig y rhai sy'n perthyn i grwpiau difreintiedig, neu'r rhai mewn cymunedau gwledig.
**Dan arweiniad y gymuned** - grymuso cymunedau lleol a grwpiau eiriolaeth i gymryd rhan a chymryd perchnogaeth o hyrwyddo a datblygu datrysiadau trafnidiaeth, yn ogystal â gweithredu gwasanaethau yn y gymuned.
**Integreiddio** - cydnabod bod newid moddol yn gofyn am ddull cyfannol, integredig o gynllunio teithiau, gan weithio ar draws gwahanol ddulliau a sectorau i'w gwneud yn haws i bobl deithio o ddrws i ddrws gan ddefnyddio dulliau trafnidiaeth gynaliadwy.
**Fforddiadwyedd** - cydnabod heriau cyflawni yn y cyd-destun ariannol a masnachol presennol i'r sector cyhoeddus ac economi'r DU.

Ar ôl ystyriaeth gan yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth, bydd y Weledigaeth, yr amcanion SMART a'r themâu trawsbynciol yn cael eu cyflwyno i'r CBC i'w cymeradwyo a'u cynnwys yn y RTP drafft ar gyfer Gogledd Cymru.

# **Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol |** Regional Transport Plan
# **Dyddiadau allweddol |** Key dates

**Tachwedd | November 2023**

**Cyflwyno Cynllun Gweithredu ar gyfer Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft cychwynnol i Lywodraeth Cymru**

Implementation Plan for the Regional Transport Plan to Welsh Government

**Mawrth | March 2024**

**Achos Dros Newid Drafft i'r CBC ac i Lywodraeth Cymru**

Draft Case for Change to the CJC and Welsh Government

**Medi | September 2024**

**Diweddariad i'r CBC a chyflwyno'r amcanion a themâu trawsbynciol**

Update to the CJC and present the SMART objectives and cross-cutting themes

**Hydref | October 2024**

**Cyfarfod Cyntaf yr Is-Bwyllgor Trafnidiaeth**

First meeting of the Transport Sub-Committee

**Tachwedd | November 2024**

**Ymgynghoriad cyhoeddus (agored am 14 wythnos)**

Public consultation (open for 14 weeks)

**Mawrth | March 2025**

**Adroddiad yr ymgynghoriad**

Consultation report

**Mawrth | March 2025**

**Cyflwyno y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i Lywodraeth Cymru**

Present the Regional Transport Plan to Welsh Government

**Mehefin | June 2025**

**Cyhoeddir Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol**

Regional Transport Plan is published

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

6 Medi, 2024

| | |
|---|---|
| TEITL: | Safonau'r Gymraeg: Hysbysiad Cydymffurfio |
| AWDUR: | Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro |

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno Hysbysiad Cydymffurfio terfynol y Gymraeg Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd– adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Cyflwynwyd yr hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 16 Awst, 2024 gyda dyddiad gosod o 28 Chwefror, 2025 erbyn pryd y mae angen cydymffurfio'n llawn yn unol â'r safonau. Darperir copi o lythyr y Comisiynydd a'r safonau yn ***Atodiad 1*** ac ***Atodiad 2*** yr adroddiad hwn.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Derbyn Safonau'r Gymraeg sydd wedi'u gosod ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC) (***Atodiad 2*** ).

2.2. Gofyn i'r Prif Weithredwr dros dro ddatblygu cynnig sy'n nodi'r opsiynau a'r costau i gomisiynu adnoddau swyddog sydd ei angen ar gyfer gweithredu, monitro ac adrodd ar safonau'r Gymraeg.

3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBC) yn gyrff cyhoeddus a sefydlir gan Reoliadau a wnaed dan Ran 5 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Maent yn atebol i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy'n gymwys ac yn berthnasol ym meysydd darparu gwasanaeth, creu polisïau, gweithrediadau, hyrwyddo a chadw cofnodion.

3.2. Mae angen adnabod opsiynau priodol ar gyfer adnoddau i sicrhau bod y CBC yn gallu gweithredu mewn modd sy'n cydymffurfio â'r safonau a osodwyd. Gall yr opsiynau i'w hystyried gynnwys caffael adnoddau swyddog i'w rannu ar draws y Cyd-Bwyllgorau Corfforedig os yw'n briodol ac yn ymarferol i wneud hynny. Dylid hefyd ystyried caffael y gwasanaeth drwy unrhyw un o'r Cynghorau cyfansoddol, a allai fod gyda'r capasiti i gynnig hyn i'r CBC drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yw'r ddeddfwriaeth a greodd safonau'r Iaith Gymraeg. Mae'r safonau'n hyrwyddo ac yn hwyluso defnydd yr iaith Gymraeg ac yn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru. Mae'r Mesur hefyd yn gwneud y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru.

4.2. Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn destun Safonau'r Gymraeg yr un modd â'u cynghorau unigol a sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) 2021 wedi diwygio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gan ychwanegu Cyd-bwyllgorau Corfforedig at y rhestr o gyrff a chategorïau o gyrff y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r safonau fel y cânt eu gosod gan Gomisiynydd y Gymraeg.

4.3. Mae'r safonau'n sicrhau cysondeb priodol a disgwyliadau clir ynghylch sut mae'n rhaid i CBC ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg i bartneriaid, rhan-ddeiliaid, a'r cyhoedd ynghyd â sut mae'n rhaid iddynt hyrwyddo defnydd yr iaith drwy ei wasanaethau.

4.4. Fe wnaeth Comisiynydd y Gymraeg gychwyn y broses ymgynghori cyhoeddus dan adran 47 Mesur y Gymraeg drwy gyflwyno'r hysbysiad cydymffurfio drafft ar 25 Mawrth, gan ddechrau cyfnod ymgynghori lle gellid cyflwyno tystiolaeth i amlygu a oedd un neu ragor o'r safonau oedd wedi'u cynnwys yn yr hysbysiad cydymffurfio drafft yn afresymol ac/neu'n anghymesur yn nhyb y CBC. Daeth y cyfnod ymgynghori hwn i ben ar 26 Gorffennaf, 2024. Bydd yr aelodau'n cofio bod y CBC wedi ystyried yr ymgynghoriad yn ei gyfarfod ar 21 Mehefin ac nad oedd wedi codi unrhyw faterion penodol gyda'r cynnig. O dan Adran 54 Mesur y Gymraeg, gall sefydliad y rhoddwyd Hysbysiad Cydymffurfio iddo apelio yn erbyn ei gynnwys a'r gofyn. Cynghorir y CBC y gellir derbyn yr Hysbysiad Cydymffurfio yn ei ffurf bresennol, a gallwn symud ymlaen i gydymffurfio â'i ofynion oddi mewn i'r amserlenni a ragnodwyd.

4.5. Mae Safonau 145 a 146, oedd wedi'u cynnwys yn yr hysbysiad cydymffurfio drafft, wedi cael eu tynnu o'r hysbysiad cydymffurfio terfynol. Ni fydd y safonau hyn yn cael eu gosod ar unrhyw un o'r pedwar CBC rhanbarthol. Mae'r safonau hyn yn gofyn am strategaeth 5-mlynedd sy'n gosod sut bydd y sefydliad yn hyrwyddo ac yn hwyluso defnydd y Gymraeg yn ehangach yn yr ardal ddaearyddol a gynrychiolir gan y sefydliad. Mae ardal ddaearyddol y CBC yn cynnwys ardal a wasanaethir gan chwe awdurdod lleol a pharc cenedlaethol Eryri sydd eisoes wedi mabwysiadu strategaethau hyrwyddo ac eisoes wedi gosod targed ar gyfer cynnal/cynyddu siaradwyr Cymraeg yn eu hardaloedd. Byddai gosod y safonau hyn ar y CBC yn dyblygu llawer o'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud gan yr awdurdodau lleol a pharc cenedlaethol Eryri. Cyflwynir rhesymeg fwy cynhwysfawr yn ***Atodiad 1***.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Bydd costau sy'n gysylltiedig â Safonau'r Gymraeg yn ymwneud ag amser swyddogion sy'n ofynnol i sicrhau bod safonau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael eu bodloni. Ni ddisgwylir y bydd angen swyddog llawn amser. Bydd cwmpas y gwaith a'r gost debygol yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad yn y dyfodol, ond mae costau dangosol ar gyfer swyddog llawn amser, yn dibynnol ar statws y rôl, yn amrywio rhwng £39,000 a £50,000 y flwyddyn. Bydd ymarferoldeb rhannu adnoddau a chostau gyda Cyd-Bwyllgorau Corfforedig eraill yn cael eu hystyried, ochr yn ochr ag unrhyw opsiynau eraill.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Fel y nodwyd ym mharagraff 3.1, mae cydymffurfio â safonau'r Gymraeg yn ofyn cyfreithiol ar y CBC fel corff cyhoeddus. Mae'r hysbysiad cydymffurfio terfynol wedi pennu dyddiad gosod o 28 Chwefror, 2025 - erbyn hynny bydd yn ofynnol i'r CBC ddangos ei gydymffurfiaeth.

ATODIADAU:

**Atodiad 1:** Llythyr gan Gomisiynydd y Gymraeg (ynghyd ag Atodiad)

**Atodiad 2:** Safonau'r Gymraeg – Hysbysiad Cydymffurfio Terfynol 44 Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro:**

“Mae gosod Safonau Iaith Gymraeg ar gyfer y CBC yn creu dyletswyddau cyfreithiol ar gyfer y sefydliad y bydd yn rhaid cydymffurfio â nhw. Fodd bynnag, maent yna i sefydlu cyfres o safonau a disgwyliadau o ran defnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg gan y sefydliad y gall eu symud ymlaen. Dylai'r ddeialog a'r ymgynghoriad a arweiniodd at y cam hwn olygu bod modd cyflawni y gweithredu cychwynnol a chydymffurfiaeth ddilynol.”

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

"Bydd costau gweithredu'r penderfyniad a geisir yn ymwneud ag amser staff ac yn cael ei ariannu o'r gyllideb bresennol."

**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Alwen Williams
Prif Weithredwr dros dro
Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru

Trwy e-bost: Alwenwilliams@uchelgaisgoledd.cymru

16/08/2024

Annwyl Brif Weithredwr,

**SAFONAU'R GYMRAEG - HYSBYSIAD CYDYMFFURFIO**

Yn unol ag adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, atodaf hysbysiad cydymffurfio eich sefydliad.

Mae'r hysbysiad cydymffurfio yn nodi pa safonau o fewn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 sy'n rhaid i chi gydymffurfio â nhw ac erbyn pryd. Bydd copi o'r hysbysiad yn ymddangos ar fy ngwefan.

Fel y gwyddoch, ymgynghorwyd â chi ar hysbysiad cydymffurfio drafft rhwng 25 Mawrth 2024, a 26 Gorffennaf 2024. Amlinellir yn atodiad 1 y newidiadau a wnaed i'r hysbysiad cydymffurfio a roddir yn dilyn yr ymgynghoriad hwn. Mae'r atodiad hefyd yn cynnwys nodiadau ychwanegol i egluro'r rhesymau dros y newid.

Rwyf wedi rhoi ystyriaeth lawn i unrhyw dystiolaeth yr ydych wedi ei gyflwyno mewn ymateb i'r ymgynghoriad wrth benderfynu pa ddyletswyddau sydd yn rhesymol a chymesur i'w gosod arnoch chi.

Daw hysbysiad cydymffurfio i rym o'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad, sef 16/08/2024. Mae hysbysiad cydymffurfio yn aros mewn grym oni chaiff, a hyd oni chaiff, ei ddirymu.

Dylid ystyried cynnwys yr hysbysiad cydymffurfio ochr yn ochr â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 sydd ar gael drwy glicio ar y ddolen yma. Yn ogystal, ceir canllawiau ymarferol yn y cod ymarfer rwyf wedi ei gyhoeddi yma.
.
Yn unol ag adran 54(2) y Mesur, gallwch herio'r gofyniad i gydymffurfio â safon drwy wneud cais i'r Comisiynydd. Dylid cyfeirio at Weithdrefn Herio ac Apelio Comisiynydd y Gymraeg am rhagor o wybodaeth.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru


Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

Mae croeso i chi gysylltu â Dylan Jones (dylan.jones@cyg-wlc.cymru) os oes gennych gwestiynau pellach ar gynnwys yr hysbysiad cydymffurfio neu i drafod ymhellach. Hoffwn ddiolch i chi a'ch swyddogion am eich cydweithrediad ar hyd y broses hyd yma.

Yr eiddoch yn gywir,



**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg

## Atodiad 1

## Enw sefydliad: Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru

| Hysbysiad cydymffurfio drafft | Hysbysiad cydymffurfio terfynol |
|---|---|
| Safon 145 a 146<br>Diwrnod gosod: 12 mis | Peidio gosod y safon.<br><br>Nid yw'r safonau hyn yn cael eu gosod ar unrhyw un o’r pedwar CBC. Mae hynny am y rhesymau canlynol:<br><br>Mae ardal ddaearyddol y CBC yn cynnwys ardal sy’n cael ei wasanaethu gan 6 awdurdod lleol a pharc cenedlaethol sydd eisoes wedi mabwysiadu strategaethau hybu ac sydd eisoes wedi gosod targed ar gyfer cynyddu siaradwyr Cymraeg yn eu hardaloedd.<br><br>Byddai gosod y safonau hyn ar y CBC yn dyblygu llawer o’r gwaith sy’n cael ei wneud eisoes gan yr awdurdodau lleol.<br><br>Mae risg y byddai unrhyw darged a osodir gan y CBC yn un artiffisial, ac y byddai’n gwrthdaro â thargedau yr awdurdodau lleol.<br><br>Nid yw hyd a lled cyfrifoldebau’r cyd-bwyllgorau yn hysbys ar hyn o bryd. Nid yw’n eglur a yw rôl a chyfrifoldebau’r cyd-bwyllgorau yn ymestyn i faterion fyddai’n eu galluogi i fynd i’r afael â materion sydd yn cyfrannu at greu siaradwyr Cymraeg, a thuag at hybu a hwyluso defnyddio’r Gymraeg. Bydd yn bosib ail ymweld â’r mater hwn yn y dyfodol pe bai’n ymddangos fod rôl i’r cyd-bwyllgorau yn hynny o beth. |

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

## HYSBYSIAD CYDYMFFURFIO – ADRAN 44 MESUR Y GYMRAEG (CYMRU) 2011

### Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru – Dyddiad Dyroddi: 16/08/2024

| Rhif Safon | Dosbarth o Safon | Safon | Diwrnod Gosod |
|---|---|---|---|
| 1 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn cael unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg. | 28/02/2025 |
| 4 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, rhaid ichi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni. | 28/02/2025 |
| 5 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os nad ydych yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthych yn Gymraeg rhaid ichi ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth pan fyddwch yn gohebu â'r person hwnnw. | 28/02/2025 |
| 6 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg wedi ei llofnodi, neu os oes manylion cyswllt wedi eu darparu ar y fersiwn Saesneg, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gael ei thrin yn yr un modd). | 28/02/2025 |
| 7 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi ddatgan -<br>(a) mewn gohebiaeth, a<br>(b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd | 28/02/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atoch, eich bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. | |
| 8 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi gyfarch y person yn Gymraeg. | 28/02/2025 |
| 9 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r person bod gwasanaeth Cymraeg ar gael. | 28/02/2025 |
| 10 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fo person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd os yw'r person yn dymuno hynny (gan drosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg os yw hynny'n angenrheidiol). | 28/02/2025 |
| 12 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn hysbysebu rhifau ffôn, llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 28/02/2025 |
| 13 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn cynnig gwasanaeth Cymraeg ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid i rif ffôn y gwasanaeth Cymraeg fod yr un peth â rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg cyfatebol. | 28/02/2025 |
| 14 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn cyhoeddi eich prif rif ffôn, neu unrhyw rifau sydd gennych ar gyfer llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi nodi (yn Gymraeg) eich bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg. | 28/02/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 15 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os oes gennych ddangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn, rhaid ichi sicrhau nad yw’r dangosyddion perfformiad hynny yn trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg. | 28/02/2025 |
| 16 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i’ch prif wasanaeth (neu wasanaethau) ateb galwadau ffôn roi gwybod i bersonau sy’n galw, yn Gymraeg, fod modd gadael neges yn Gymraeg. | 28/02/2025 |
| 17 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eich prif rif ffôn (neu ar un o’ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i’r personau sy’n galw (pa un ai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael. | 28/02/2025 |
| 18 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os bydd person yn cysylltu ag un o’ch adrannau ar rif ffôn llinell uniongyrchol (gan gynnwys ar rifau llinell uniongyrchol aelodau staff), a bod y person hwnnw’n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg, rhaid ichi ddarparu’r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg yn ei gyfanrwydd (os yw’n angenrheidiol drwy drosglwyddo’r alwad i aelod o staff sy’n gallu delio â’r alwad yn Gymraeg). | 28/02/2025 |
| 20 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fydd person yn cysylltu â chi ar rif llinell uniongyrchol (pa un ai ar rif llinell uniongyrchol adran neu ar rif llinell uniongyrchol aelod o staff), rhaid ichi sicrhau nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg wrth gyfarch y person. | 28/02/2025 |
| 21 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn ffonio unigolyn ("A") am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw’n dymuno cael galwadau ffôn oddi wrthych yn Gymraeg; ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o’i ddymuniad, a chynnal galwadau ffôn a wneir i A o hynny ymlaen yn Gymraeg. | 28/02/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 22 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw system ffôn wedi ei hawtomeiddio sydd gennych ddarparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg. | 28/02/2025 |
| 23 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, rhaid ichi gynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg; ac os yw P yn eich hysbysu ei fod yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, rhaid ichi gynnal y cyfarfod hwnnw yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol). | 28/02/2025 |
| 25 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn gwahodd unigolyn ("A") i gyfarfod, a bod y cyfarfod hwnnw yn ymwneud â llesiant A, rhaid ichi –<br>(a) gofyn i A a yw'n dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, a<br>(b) os yw A yn eich hysbysu ei fod yn dymuno hynny, cynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol). | 28/02/2025 |
| 27 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), rhaid ichi ofyn i bob person a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. | 28/02/2025 |
| 27A | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), a bod o leiaf 10% (ond llai na 100%) o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod. | 28/02/2025 |
| 27CH | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), a bod pawb a gafodd wahoddiad wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol). | 28/02/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 28 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod y cyfarfod hwnnw yn ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd, rhaid ichi –<br>(a) gofyn i'r unigolyn hwnnw neu i bob un o'r unigolion hynny a yw'n dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, a<br>(b) os yw'r unigolyn hwnnw, neu os yw pob un o'r unigolion hynny, yn eich hysbysu ei fod yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod hwnnw yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol). | 28/02/2025 |
| 30 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi ddatgan ar unrhyw ddeunydd sy'n ei hysbysebu, ac ar unrhyw wahoddiad iddo, fod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. | 28/02/2025 |
| 31 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn anfon gwahoddiadau i gyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi eu hanfon yn Gymraeg. | 28/02/2025 |
| 32 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn gwahodd personau i siarad mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi -<br>(a) gofyn i bob person a wahoddir i siarad a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) os yw'r person hwnnw (neu o leiaf un o'r personau hynny) yn eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu). | 28/02/2025 |
| 33 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, a rhaid ichi hysbysu'r rheini sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg - | 28/02/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | (a) bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael. | |
| 34 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod y deunydd hwnnw'n cael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw destun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. | 28/02/2025 |
| 35 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hybu'r digwyddiad (er enghraifft, o ran y ffordd y mae'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu neu y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad). | 28/02/2025 |
| 36 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a gynigir i bersonau sy'n bresennol yn y digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yn y digwyddiad, ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir ynddo). | 28/02/2025 |
| 37 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. | 28/02/2025 |
| 38 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych yn ei arddangos yn gyhoeddus gael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. | 28/02/2025 |
| 40 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw ddogfennau at ddefnydd y cyhoedd yr ydych yn eu llunio gael eu llunio yn Gymraeg. | 28/02/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 47 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio dogfen at ddefnydd y cyhoedd, a phan nad oes safon arall wedi ei gwneud yn ofynnol ichi ei llunio yn Gymraeg, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg -<br>(a) os yw pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg, neu<br>(b) os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid llunio'r ddogfen yn Gymraeg. | 28/02/2025 |
| 48 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio dogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. | 28/02/2025 |
| 49 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddogfen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg. | 28/02/2025 |
| 50 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw ffurflen yr ydych yn ei llunio at ddefnydd y cyhoedd gael ei llunio yn Gymraeg. | 28/02/2025 |
| 50A | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg. | 28/02/2025 |
| 50B | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio ffurflen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg, a rhaid ichi beidio â gwahaniaethu rhyngddynt o ran unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ffurflen (er enghraifft mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen neu mewn perthynas â'r amser a ganiateir ar gyfer ymateb i gynnwys y ffurflen). | 28/02/2025 |
| 51 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn mewnosod gwybodaeth ar fersiwn Gymraeg o ffurflen (er enghraifft, cyn ei hanfon at aelod o'r cyhoedd er mwyn iddo wirio'r cynnwys neu er mwyn iddo lenwi gweddill y ffurflen), rhaid | 28/02/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ichi sicrhau bod yr wybodaeth yr ydych yn ei mewnosod yn cael ei mewnosod yn Gymraeg. | |
| 52 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi sicrhau -<br>(a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg,<br>(b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac<br>(c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan. | 28/02/2025 |
| 55 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol. | 28/02/2025 |
| 56 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg. | 28/02/2025 |
| 57 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i bob ap yr ydych yn ei gyhoeddi weithredu'n llawn yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran yr ap hwnnw. | 28/02/2025 |
| 58 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 28/02/2025 |
| 59 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb). | 28/02/2025 |
| 60 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi sicrhau bod unrhyw beiriannau hunanwasanaeth sydd gennych yn gweithio'n llawn yn Gymraeg, a rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r peiriant hwnnw. | 28/02/2025 |
| 61 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei | 28/02/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy’n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân); ac os yw’r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na’r testun Saesneg. | |
| 62 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu’n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw’n cyfleu yr un wybodaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg, rhaid i’r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy’n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. | 28/02/2025 |
| 63 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant. | 28/02/2025 |
| 64 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw wasanaeth derbynfa yr ydych yn ei roi ar gael yn Saesneg hefyd fod ar gael yn Gymraeg, a rhaid i unrhyw berson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Cymraeg beidio â chael ei drin yn llai ffafriol na pherson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Saesneg. | 28/02/2025 |
| 67 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi arddangos arwydd yn eich derbynfa sy’n datgan (yn Gymraeg) fod croeso i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg yn y dderbynfa. | 28/02/2025 |
| 68 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi sicrhau bod staff yn y dderbynfa sy’n gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn gwisgo bathodyn sy’n cyfleu hynny. | 28/02/2025 |
| 69 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw hysbysiad swyddogol yr ydych yn ei gyhoeddi neu ei arddangos gael ei gyhoeddi neu ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o’r hysbysiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono. | 28/02/2025 |
| 70 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn cyhoeddi neu’n arddangos hysbysiad swyddogol sy’n cynnwys y testun Cymraeg yn ogystal â’r testun Saesneg, rhaid | 28/02/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. | |
| 71 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu cyhoeddi sy'n ymwneud â cheisiadau am grant gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o'r dogfennau hynny yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt. | 28/02/2025 |
| 72 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn gwahodd ceisiadau am grant, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac na fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg. | 28/02/2025 |
| 72A | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi beidio â thrin ceisiadau am grant a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael ceisiadau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau). | 28/02/2025 |
| 73 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn cael cais am grant yn Gymraeg, a bod angen cyf-weld ag ymgeisydd fel rhan o'ch asesiad o'r cais, rhaid ichi gynnig cynnal y cyfweliad yn Gymraeg ac, os yw'r ymgeisydd yn dymuno hynny, rhaid ichi gynnal y cyfweliad yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol). | 28/02/2025 |
| 75 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i ymgeisydd beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am grant, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y cais yn Gymraeg. | 28/02/2025 |
| 76 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw wahoddiadau i dendro am gontract yr ydych yn eu cyhoeddi gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o unrhyw wahoddiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono. | 28/02/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 77 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg. | 28/02/2025 |
| 77A | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi beidio â thrin tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael tendrau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i dendrwyr am benderfyniadau). | 28/02/2025 |
| 78 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn cael tendr yn Gymraeg, a bod angen cyf-weld â thendrwr fel rhan o'ch asesiad o'r tendr, rhaid ichi gynnig cynnal y cyfweliad hwnnw yn Gymraeg ac, os yw'r tendrwr yn dymuno hynny, rhaid ichi gynnal y cyfweliad yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol). | 28/02/2025 |
| 80 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i dendrwr beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â thendr, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y tendr yn Gymraeg. | 28/02/2025 |
| 81 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg. | 28/02/2025 |
| 82 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth yr ydych yn ei ddarparu yn Saesneg, rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd neu ddogfen yr ydych yn ei llunio, neu wefan yr ydych yn ei chyhoeddi, sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg nodi bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg. | 28/02/2025 |
| 83 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 28/02/2025 |
| 84 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg. | 28/02/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 87 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn cyhoeddi neges dros system annerch gyhoeddus, rhaid ichi wneud y cyhoeddiad hwnnw yn Gymraeg, ac os yw’r cyhoeddiad yn cael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i’r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf. | 28/02/2025 |
| 88 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu’n adolygu neu’n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw’r rheini’n bositif neu’n andwyol) y byddai’r penderfyniad polisi yn eu cael ar -<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | 28/02/2025 |
| 89 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu’n adolygu neu’n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio’r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai’r penderfyniad polisi’n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar -<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | 28/02/2025 |
| 90 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu’n adolygu neu’n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio’r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai’r penderfyniad polisi’n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai’n cael effeithiau llai andwyol, ar -<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | 28/02/2025 |
| 91 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy’n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i’r ddogfen honno ystyried a cheisio barn | 28/02/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar -<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |
| 92 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar -<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 28/02/2025 |
| 93 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar -<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 28/02/2025 |
| 94 | Llunio Polisi | Rhaid ichi lunio a chyhoeddi polisi dyfarnu grantiau (neu, pan fo'n briodol, ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli) sy'n ei gwneud yn ofynnol ichi ystyried y materion a ganlyn pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant -<br>(a) pa effeithiau, os o gwbl (a  pha un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol), y byddai dyfarnu grant yn eu cael ar -<br>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;<br>(b) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar - | 28/02/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a<br>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg;<br>(c) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel na fyddai’n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai’n cael effeithiau llai andwyol ar -<br>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a<br>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg;<br>(ch) a oes angen ichi ofyn i’r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant ar -<br>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a<br>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | |
| 95 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn comisiynu neu’n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i’ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai ydynt yn rhai positif neu’n rhai andwyol), y byddai’r penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth yn eu cael ar -<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | 28/02/2025 |
| 96 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn comisiynu neu’n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i’ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel y byddai’n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar -<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | 28/02/2025 |
| 97 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn comisiynu neu’n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i’ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr | 28/02/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar -<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |
| 98 | Gweithredu | Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhaid ichi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnrwyd. | 28/02/2025 |
| 99 | Gweithredu | Pan fyddwch yn cynnig swydd newydd i unigolyn, rhaid ichi ofyn i'r unigolyn hwnnw a yw'n dymuno i'r contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau gael ei ddarparu yn Gymraeg; ac os yw'r unigolyn yn dymuno hynny rhaid ichi ddarparu'r contract yn Gymraeg. | 28/02/2025 |
| 100 | Gweithredu | Rhaid ichi -<br>(a) gofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â'i gyflogaeth, ac sydd wedi ei chyfeirio ato'n bersonol, yn Gymraeg, a<br>(b) os yw cyflogai yn dymuno hynny, ddarparu unrhyw ohebiaeth o'r fath iddo yn Gymraeg. | 28/02/2025 |
| 101 | Gweithredu | Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu anghenion neu ofynion ei hyfforddiant yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg. | 28/02/2025 |
| 102 | Gweithredu | Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu ei amcanion perfformiad yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg. | 28/02/2025 |
| 103 | Gweithredu | Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu neu'n cofnodi ei gynllun gyrfa yn | 28/02/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg. | |
| 104 | Gweithredu | Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi -<br>(a) gwyliau,<br>(b) absenoldebau o'r gwaith, ac<br>(c) oriau gwaith hyblyg,<br>yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ffurflenni o'r fath iddo yn Gymraeg. | 28/02/2025 |
| 105 | Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch ymddygiad yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | 28/02/2025 |
| 106 | Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch iechyd a lles yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | 28/02/2025 |
| 107 | Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch cyflogau neu fuddion yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | 28/02/2025 |
| 108 | Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch rheoli perfformiad, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | 28/02/2025 |
| 109 | Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch absenoldeb o'r gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | 28/02/2025 |
| 110 | Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch amodau gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | 28/02/2025 |
| 111 | Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch patrymau gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | 28/02/2025 |
| 112 | Gweithredu | Rhaid ichi ganiatáu i bob aelod o'ch staff -<br>(a) gwneud cwynion ichi yn Gymraeg, a<br>(b) ymateb i unrhyw gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg. | 28/02/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 112A | Gweithredu | Rhaid ichi ddatgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy’n nodi eich gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion y caiff pob aelod o staff -<br>(a) gwneud cwyn ichi yn Gymraeg, a<br>(b) ymateb i gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg; a rhaid ichi hefyd roi gwybod i bob aelod o staff am yr hawl honno. | 28/02/2025 |
| 113 | Gweithredu | Os byddwch yn cael cwyn gan aelod o staff neu’n cael cwyn ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â’r aelod hwnnw o staff, rhaid ichi –<br>(a) cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg, 30/03/2016<br>(b) os yw’r aelod o staff yn dymuno i’r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol). | 28/02/2025 |
| 115 | Gweithredu | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw’ch penderfyniad mewn perthynas â chŵyn a wneir gan yr aelod hwnnw, neu mewn perthynas â chŵyn a wneir amdano ef, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw’r aelod hwnnw o staff -<br>(a) wedi gwneud y gŵyn yn Gymraeg,<br>(b) wedi ymateb yn Gymraeg i gŵyn amdano ef,<br>(c) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â’r gŵyn yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu<br>(ch) wedi gofyn am gael defnyddio’r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â’r gŵyn. | 28/02/2025 |
| 116 | Gweithredu | Rhaid ichi ganiatáu i bob aelod o staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn ei erbyn mewn unrhyw broses ddisgyblu fewnol. | 28/02/2025 |
| 116A | Gweithredu | Rhaid ichi -<br>(a) datgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy’n nodi eich trefniadau ar gyfer disgyblu staff y caiff unrhyw aelod o staff ymateb | 28/02/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn ei erbyn, a<br>(b) os byddwch yn dechrau gweithdrefn ddisgyblu mewn perthynas ag aelod o staff, rhoi gwybod i'r aelod hwnnw o staff am yr hawl honno. | |
| 117 | Gweithredu | Os byddwch yn trefnu cyfarfod ag aelod o staff ynghylch achos disgyblu mewn perthynas â'i ymddygiad, rhaid ichi –<br>(a) cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg, a<br>(b) os yw'r aelod o staff yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol). | 28/02/2025 |
| 119 | Gweithredu | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad yn dilyn proses ddisgyblu, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff -<br>(a) wedi ymateb i honiadau yn ei erbyn yn Gymraeg,<br>(b) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu<br>(c) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu. | 28/02/2025 |
| 120 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i'ch staff, a darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (pan fo rhyngwyneb ar gael). | 28/02/2025 |
| 121 | Gweithredu | Rhaid ichi sicrhau -<br>(a) bod testun pob tudalen ar eich mewnrwyd ar gael yn Gymraeg,<br>(b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich mewnrwyd yn gweithredu'n llawn, ac<br>(c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich mewnrwyd. | 28/02/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 124 | Gweithredu | Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich mewnrwyd sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a rhaid darparu dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol. | 28/02/2025 |
| 126 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar eich tudalennau mewnrwyd yn Gymraeg. | 28/02/2025 |
| 127 | Gweithredu | Rhaid ichi asesu sgiliau Cymraeg eich cyflogeion. | 28/02/2025 |
| 128 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg -<br>(a) recriwtio a chyf-weld;<br>(b) rheoli perfformiad;<br>(c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu;<br>(ch) ymsefydlu;<br>(d) delio â'r cyhoedd; ac<br>(dd) iechyd a diogelwch. | 28/02/2025 |
| 129 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant (yn Gymraeg) ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn -<br>(a) cyfarfodydd;<br>(b) cyfweliadau; ac<br>(c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu. | 28/02/2025 |
| 130 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith -<br>(a) i'ch cyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, a<br>(b) i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr. | 28/02/2025 |
| 131 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i'ch cyflogeion sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol gael hyfforddiant pellach yn rhad ac am ddim er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith. | 28/02/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 132 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i’ch cyflogeion ddatblygu -<br>(a) ymwybyddiaeth o’r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a’i lle yn niwylliant Cymru);<br>(b) dealltwriaeth o’r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau’r Gymraeg;<br>(c) dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio’r Gymraeg yn y gweithle. | 28/02/2025 |
| 133 | Gweithredu | Pan fyddwch yn darparu gwybodaeth i gyflogeion newydd (er enghraifft, fel rhan o broses ymsefydlu), rhaid ichi ddarparu gwybodaeth er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o’r Gymraeg. | 28/02/2025 |
| 134 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu geiriad neu logo ar gyfer llofnodion e-bost eich staff sy’n eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu’n dysgu’r iaith. | 28/02/2025 |
| 135 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu geiriad ar gyfer eich cyflogeion fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o’u manylion cyswllt mewn negeseuon e-byst, ac i ddarparu fersiwn Gymraeg o unrhyw neges sy’n hysbysu pobl eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon ebost. | 28/02/2025 |
| 136 | Gweithredu | Pan fyddwch yn asesu’r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid ichi asesu’r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a’i chategoreiddio fel swydd pan fo un neu ragor o’r canlynol yn gymwys -<br>(a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;<br>(b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i’r swydd;<br>(c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu<br>(ch) nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol. | 28/02/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 136A | Gweithredu | Os byddwch wedi categoreiddio swydd fel un sy’n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, rhaid ichi -<br>(a) pennu hynny wrth hysbysebu’r swydd, a<br>(b) hysbysebu’r swydd yn Gymraeg. | 28/02/2025 |
| 137 | Gweithredu | Pan fyddwch yn hysbysebu swydd, rhaid ichi ddatgan y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg. | 28/02/2025 |
| 137A | Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi -<br>(a) ffurflenni cais am swyddi;<br>(b) deunydd esboniadol ynghylch eich proses ar gyfer ymgeisio am swyddi;<br>(c) gwybodaeth am eich proses gyf-weld, neu am unrhyw ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi;<br>(ch) swydd-ddisgrifiadau;<br>rhaid ichi eu cyhoeddi yn Gymraeg a rhaid ichi sicrhau nad ydych yn trin unrhyw fersiynau Cymraeg o’r dogfennau yn llai ffafriol na fersiynau Saesneg ohonynt. | 28/02/2025 |
| 137B | Gweithredu | Rhaid ichi beidio â thrin cais am swydd a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, o ran y dyddiad cau yr ydych yn ei osod ar gyfer cael ceisiadau, ac o ran amseriad rhoi gwybod i unigolion ynghylch penderfyniadau). | 28/02/2025 |
| 138 | Gweithredu | Rhaid ichi sicrhau bod eich ffurflenni cais am swyddi yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno cael cyfweliad neu ddull arall o asesiad yn Gymraeg ac, os yw unigolyn yn dymuno hynny, rhaid ichi gynnal unrhyw gyfweliad neu ddull arall o asesiad yn Gymraeg (heb | 28/02/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol) | |
| 140 | Gweithredu | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i unigolyn beth yw’ch penderfyniad mewn perthynas â chais am swydd, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os gwnaed y cais yn Gymraeg. | 28/02/2025 |
| 141 | Gweithredu | Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu’n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), rhaid i unrhyw destun sy’n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy’n arddangos y testun Saesneg cyfatebol neu ar arwydd ar wahân), ac os yw’r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na’r testun Saesneg. | 28/02/2025 |
| 142 | Gweithredu | Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu’n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw’n cyfleu yr un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i’r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy’n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. | 28/02/2025 |
| 143 | Gweithredu | Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a arddangosir yn eich gweithle yn gywir o ran ystyr a mynegiant. | 28/02/2025 |
| 144 | Gweithredu | Pan fyddwch yn gwneud cyhoeddiadau dros offer sain yn eich gweithle, rhaid i’r cyhoeddiad hwnnw gael ei wneud yn Gymraeg, ac os gwneir y cyhoeddiad yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i’r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf. | 28/02/2025 |
| 147 | Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion yr ydych yn eu cael sy’n ymwneud â’ch cydymffurfedd â’r safonau. | 28/02/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 148 | Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 28/02/2025 |
| 149 | Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'r Gymraeg (pa un ai yw'r gŵyn yn ymwneud â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy ai peidio). | 28/02/2025 |
| 150 | Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw cofnod o'r camau yr ydych wedi eu cymryd i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 28/02/2025 |
| 151 | Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau iaith Gymraeg eich cyflogeion a wnaed gennych yn unol â safon 127), o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, phan fo hynny'n wybyddus ichi, rhaid ichi gadw cofnod o lefel sgiliau'r cyflogeion hynny. | 28/02/2025 |
| 152 | Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o -<br>(a) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn Gymraeg (yn unol â safon 128), a<br>(b) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn unol â safon 128, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y fersiwn honno o'r cwrs. | 28/02/2025 |
| 153 | Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw cofnod o bob asesiad a gynhaliwch (yn unol â safon 136) mewn cysylltiad â'r sgiliau Cymraeg y gallai fod eu hangen mewn perthynas â swydd newydd neu swydd wag. | 28/02/2025 |
| 154 | Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol o nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gategoreiddiwyd (yn unol â safon 136) fel swyddi sy'n gofyn<br>(a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; | 28/02/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | (b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y penodir rhywun i'r swydd;<br>(c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu<br>(ch) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol. | |
| 155 | Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael -<br>(a) ar eich gwefan, a<br>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | 28/02/2025 |
| 156 | Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi -<br>(a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn -<br>(i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a<br>(ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny,<br>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac<br>(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | 28/02/2025 |
| 157 | Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi -<br>(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer<br>(i) goruchwylio'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,<br>(ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a | 28/02/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | (iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny,<br>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac<br>(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | |
| 158 | Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau | (1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.<br>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.<br>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.<br>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.<br>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael -<br>(a) ar eich gwefan, a<br>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | 28/02/2025 |
| 159 | Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 28/02/2025 |
| 160 | Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r | 28/02/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | |
| 161 | Atodol - Llunio Polisi | Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy’n cofnodi’r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a’r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â’r safonau hynny, ar gael -<br>(a) ar eich gwefan, a<br>(b) ym mhob un o’ch swyddfeydd sy’n agored i’r cyhoedd. | 28/02/2025 |
| 162 | Atodol - Llunio Polisi | Rhaid ichi -<br>(a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy’n delio â’r materion a ganlyn -<br>(i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â’ch cydymffurfedd â’r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a<br>(ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i’ch staff ynglŷn â delio â’r cwynion hynny,<br>(b) cyhoeddi dogfen sy’n cofnodi’r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac<br>(c) sicrhau bod copi o’r ddogfen honno ar gael, ym mhob un o’ch swyddfeydd sy’n agored i’r cyhoedd. | 28/02/2025 |
| 163 | Atodol - Llunio Polisi | Rhaid ichi -<br>(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer goruchwylio’r modd yr ydych yn cydymffurfio â’r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,<br>(b) cyhoeddi dogfen sy’n cofnodi’r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac<br>(c) sicrhau bod copi o’r ddogfen honno ar gael ym mhob un o’ch swyddfeydd sy’n agored i’r cyhoedd. | 28/02/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 164 | Atodol - Llunio Polisi | (1) Rhaid ichi lunio adroddiad, ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.<br>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.<br>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.<br>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.<br>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael -<br>(a) ar eich gwefan, a<br>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | 28/02/2025 |
| 165 | Atodol - Llunio Polisi | Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 28/02/2025 |
| 166 | Atodol - Llunio Polisi | Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 28/02/2025 |
| 167 | Atodol - Gweithredu | Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael -<br>(a) ar eich gwefan, a<br>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | 28/02/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 168 | Atodol - Gweithredu | Rhaid ichi -<br>(a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn -<br>(i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a<br>(ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny, a<br>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich mewnrwyd. | 28/02/2025 |
| 169 | Atodol - Gweithredu | Rhaid ichi -<br>(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer<br>(i) goruchwylio'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,<br>(ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a<br>(iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny, a<br>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich mewnrwyd. | 28/02/2025 |
| 170 | Atodol - Gweithredu | (1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.<br>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn (pan fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt) -<br>(a) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â | 28/02/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | safon 151);<br>(b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);<br>(c) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);<br>(ch) nifer y swyddi newydd a’r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy’n gofyn -<br>(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol<br>(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i’r swydd,<br>(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu<br>(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154);<br>(d) nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â’ch cydymffurfedd â’r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.<br>(3) Rhaid ichi  gyhoeddi’r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae’r adroddiad yn ymwneud â hi.<br>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i’r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.<br>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o’ch adroddiad blynyddol ar gael -<br>(a) ar eich gwefan, a<br>(b) ym mhob un o’ch swyddfeydd sy’n agored i’r cyhoedd. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 171 | Atodol - Gweithredu | Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 28/02/2025 |
| 172 | Atodol - Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 28/02/2025 |
| 173 | Atodol - Hybu | Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau hybu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael -<br>(a) ar eich gwefan, a<br>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | 28/02/2025 |
| 174 | Atodol - Hybu | Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau hybu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 28/02/2025 |
| 175 | Atodol - Cadw Cofnodion | Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael -<br>(a) ar eich gwefan, a<br>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | 28/02/2025 |
| 176 | Atodol - Cadw Cofnodion | Rhaid ichi ddarparu unrhyw gofnodion a gadwasoch yn unol â'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy i Gomisiynydd y Gymraeg, os bydd y Comisiynydd yn gofyn am y cofnodion hynny. | 28/02/2025 |

**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg

Dyddiad: 16/08/2024

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

6 Medi, 2024

| | |
|---|---|
| TEITL: | Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) - adolygiad o gydnabyddiaeth ariannol aelodau lleyg Cydbwyllgorau Corfforedig |
| AWDUR: | Iwan Evans, Swyddog Monitro |

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Bwriad yr adroddiad hwn yw diweddaru'r Aelodau ar Benderfyniad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol o ran cydnabyddiaeth ariannol aelodau lleyg y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Nodi Penderfyniad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW).

2.2. Mabwysiadu cyfradd fesul awr i dalu hawliadau a gyflwynir gan aelodau lleyg.

3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Wrth i'r CBC ymsefydlu bydd yn penodi aelodau cyfetholedig nad ydynt yn Aelodau o unrhyw Gyngor cyfansoddol. Mae'r aelodau hyn yn gwbl annibynnol o fusnes llywodraeth leol a rhanbarthol, ac fel aelodau lleyg dônt â phrofiadau a sgiliau sydd o fudd i waith y CBC. I gefnogi'r amrywiaeth a'r arbenigedd cywir i ddenu aelodau lleyg cyfetholedig, mae'r IRPW wedi cynnal ymarfer ymgynghori i adolygu'r sefyllfa o ran cydnabyddiaeth ariannol.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae gan y Panel Annibynnol rymoedd statudol i osod lefel y gydnabyddiaeth ariannol i Aelodau sy'n cael eu hethol a'u penodi i'r CBC. Adolygodd y Panel y sefyllfa ar drefniadau cydnabyddiaeth ariannol CBC yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2022/3. Gan mai newydd oedd y CBC yr adeg honno, ni wnaethpwyd unrhyw benderfyniad o ran cyflogau, ond yn ei adroddiad fe wnaeth y Panel ategu fod yna gyfle i bob Aelod hawlio cyfraniad tuag at gostau gofal, teithio a chynhaliaeth.

4.2. Fodd bynnag, mae'r IRPW yn cydnabod bod CBC yn aeddfedu a bod aelodau cyfetholedig yn cael eu penodi i is-bwyllgorau ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac yn dilyn cyfnod o ymgynghori mae wedi penderfynu y dylid rhoi cydnabyddiaeth ariannol i aelodau lleyg fel a ganlyn: "Bydd aelodau CBC yn derbyn tâl ar yr un sail ag aelodau cyfetholedig (lleyg) gyda hawliau pleidleisio cyrff eraill o fewn y teulu llywodraeth leol" (mae Adroddiad Panel Annibynnol Cymru yn ***Atodiad 1***).

4.3. Daeth yr hawl i hawlio cydnabyddiaeth ariannol i rym o ddyddiad y cyhoeddiad (2 Awst), ac mae'r cyfraddau tâl fel a ganlyn:

- Cadeiryddion lleyg pwyllgorau = cyfradd fesul awr o £33.50; hyd at 4 awr £134; 4 awr a mwy £268
- Aelodau lleyg cyffredin gyda hawliau pleidleisio = cyfradd fesul awr £29.75; hyd at 4 awr £119; 4 awr a mwy £238

4.4. Rôl y Gwasanaethau Democratiaeth yw pennu ymlaen llaw p'un a yw cyfarfod am bara diwrnod cyfan neu hanner diwrnod. Pan fo cyfarfod wedi'i drefnu i bara am ddiwrnod cyfan, telir y ffi ar y sail hon hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn gorffen o fewn pedair awr. Gellir gweld yn hawdd fod y dull hwn yn creu canlyniadau annheg ac aneffeithlon. Ystyrir y byddai'n decach ac yn fwy effeithiol pe defnyddid cyfradd fesul awr fyddai'n cynnwys gwaith paratoi a theithio.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Mae'r adroddiad yn cynnwys yr holl oblygiadau cyfreithiol.

---

ATODIADAU:

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Adroddiad Atodol |

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro:**

Awdur yr adroddiad.

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

"Fel mae'r adroddiad yn egluro'n glir, mae tâl aelodau lleyg yn cael ei osod gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Wrth gydnabod yr anghysonderau posibl a amlygir ym mharagraff 4.4, nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i fabwysiadu'r penderfyniad a geisir, gan gynnwys defnyddio cyfradd fesul awr lle bo hynny'n briodol."

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Independent Remuneration Panel for Wales

# Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

## Adroddiad Atodol

Adolygiad o daliadau i aelodau lleyg cyd-bwyllgorau corfforedig

Gorffennaf 2024



OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG50369, ISBN digidol 978-1-83625-501-7

**Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adolygiad o daliadau i aelodau lleyg cyd-bwyllgorau corfforedig**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ("y Panel") yn gyfrifol am benderfynu ar y fframwaith cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer taliadau i aelodau a etholwyd ac aelodau a benodwyd i brif gynghorau, awdurdodau parciau cenedlaethol, awdurdodau tân ac achub a chyd-bwyllgorau corfforedig yng Nghymru. Mae'r awdurdodau perthnasol hyn yn rhan o'r teulu llywodraeth leol.

1.2 Caiff democratiaeth ei chryfhau pan fo aelodaeth awdurdodau perthnasol yn adlewyrchu'n ddigonol gyfansoddiad demograffig a diwylliannol y cymunedau a wasanaethir gan y cyfryw awdurdodau. Felly, mae penderfyniadau'r Panel wedi'u gwreiddio yn yr egwyddor tâl teg, gan fod hon yn elfen allweddol o annog a galluogi pobl i gymryd rhan mewn democratiaeth leol.

## 2. Gwybodaeth gefndir am rôl y cyd-bwyllgorau corfforedig

2.1 Sefydlwyd cyd-bwyllgorau corfforedig yn dilyn sefydlu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (“Deddf 2021”) sy'n darparu fframwaith ar gyfer cydweithredu rhanbarthol drwy fecanwaith mwy cydlynol, cyson, a reolir yn ddemocrataidd o'r enw Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

2.2 Mae adran 142 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gosod swyddogaethau’r Panel mewn perthynas â thaliadau i aelodau ‘awdurdod perthnasol’. Mae adran 144 o’r Mesur yn disgrifio beth yw ‘awdurdod perthnasol’. Yn rheoliad 4(1)(c)(i) o Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021/1349, ychwanegwyd cyd-bwyllgorau corfforedig at y disgrifiad o’r ‘awdurdod perthnasol’ yn adran 144(2) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, gan eu cynnwys yng nghylch gwaith y Panel o 3 Rhagfyr 2021 ymlaen.

2.3 Mae cyd-bwyllgor corfforedig yn gorff corfforedig ar wahân a gaiff gyflogi staff, dal asedau a chyllidebau, a chyflawni swyddogaethau. Mae pedwar cyd-bwyllgor corfforedig yng Nghymru ar hyn o bryd:

- Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Prif Gynghorau Gwynedd, Sir Ddinbych, Ynys Môn, Wrecsam, Conwy, Sir y Fflint ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).
- Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Prif Gynghorau Powys, Ceredigion, ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog).
- Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain (Prif Gynghorau Caerdydd, Bro Morgannwg, Sir Fynwy, Rhondda Cynon Taf, Casnewydd, Merthyr Tudful,

Caerffili, Torfaen, Blaenau Gwent, a Phen-y-bont ar Ogwr).

- Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin (Prif Gynghorau Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro).

2.4 Mae gan gyd-bwyllgorau corfforedig ddyletswyddau i baratoi Cynllun Datblygu Strategol a Chynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Caiff y cyd-bwyllgorau corfforedig hefyd arfer pŵer llesiant economaidd, sef y pŵer i wneud unrhyw beth i wella neu i hyrwyddo llesiant economaidd eu hardal. Y nod yw cysoni dulliau datblygu economaidd, trafnidiaeth a chynllunio defnydd tir i alluogi rhanbarthau i ddatblygu economïau rhanbarthol llwyddiannus ac annog twf lleol.

2.5 Penderfyniad ei aelodau i raddau helaeth yw sut mae cyd-bwyllgor corfforedig yn cyflawni ei swyddogaethau ac yn gweithredu. Mae’r hyblygrwydd hwn yn galluogi cyd-bwyllgorau corfforedig i wahaniaethu rhwng ardaloedd daearyddol i ddiwallu anghenion ac uchelgeisiau penodol eu rhanbarth.

## 3. Aelodaeth a strwythur

3.1 Mae Deddf 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i arweinwyr pob prif gyngor cyfansoddol fod yn aelodau o'u priod gyd-bwyllgorau corfforedig. Mae'r arweinwyr, wrth ymgymryd â'u rolau o fewn y cyd-bwyllgorau corfforedig, yn gwneud penderfyniadau ar ran y cynghorau y maent wedi’u hethol i'w cynrychioli. Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn aelodau o'u cyd-bwyllgor/cyd-bwyllgorau corfforedig rhanbarthol at ddibenion paratoi'r Cynllun Datblygu Strategol.

3.2 Disgwylir i gyd-bwyllgorau corfforedig hefyd ymgysylltu â sefydliadau neu gyrff o fewn eu rhanbarth, a’u cynnwys yn eu gwaith drwy, er enghraifft, gyfethol cynrychiolwyr prifysgolion a byrddau iechyd lleol. Y cyd-bwyllgorau corfforedig sy’n penderfynu pwy gaiff ei gyfethol ac ar ba delerau (gan gynnwys a oes gan aelodau cyfetholedig hawl i bleidleisio).

3.3 Caiff y cyd-bwyllgorau corfforedig sefydlu is-bwyllgorau i gefnogi eu gwaith gweinyddu a llywodraethu. Mae’r canllawiau statudol ar gyd-bwyllgorau corfforedig yn nodi disgwyliad y bydd cyd-bwyllgorau corfforedig yn sefydlu is-bwyllgorau ar gyfer pob un o'r meysydd gweithredol allweddol y maent yn eu harfer. Fodd bynnag, nid yw’r canllawiau yn nodi sut y dylent wneud hynny. Er enghraifft, gallai cyd-bwyllgor corfforedig benderfynu bod is-bwyllgorau yn cael eu harwain gan aelod neu ddeiliad portffolio o weithrediaeth y cynghorau cyfansoddol ac y bydd aelodau portffolio o gynghorau eraill y rhanbarth yn bresennol. Gallant hefyd benodi aelodau lleyg sydd â hawliau pleidleisio.

3.4 Mae'n ofynnol i gyd-bwyllgorau corfforedig fod â Phwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y mae un rhan o dair o'r aelodau yn aelodau lleyg annibynnol.

3.5 Er bod statws cyfreithiol aelod lleyg yn wahanol i statws aelod cyfetholedig awdurdod perthnasol arall, mae gan bob un ohonynt hawliau pleidleisio ac maent yn rhannu rolau a chyfrifoldebau tebyg. Maent yn annibynnol ac nid ydynt yn aelod nac yn gynrychiolydd cyngor neu gorff cyfetholedig.

## 4. Taliadau cyfredol

4.1 Ystyriodd y Panel y trefniadau tâl ar gyfer cyd-bwyllgorau corfforedig yn ei Adroddiad Blynyddol 2022 i 2023. Roedd cyd-bwyllgorau corfforedig yn eu camau cynnar a'u hunig aelodau'n arweinwyr yr awdurdodau ‘cartref’. Daeth y Panel i'r casgliad na fyddai cyflog ychwanegol yn cael ei dalu mewn perthynas â'u rôl ar gyd-bwyllgor corfforedig, ond cytunwyd y byddai’r tâl yn cael ei adolygu wrth i'r cyd-bwyllgorau corfforedig ddatblygu.

4.2 Fodd bynnag, penderfynodd y Panel dalu cyfraniad at gostau gofal a theithio a chostau cynhaliaeth i bob aelod cyd-bwyllgor corfforedig. Cafodd y penderfyniad hwn ei gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol hwnnw.

## 5. Beth sydd wedi newid?

5.1 Ym mis Tachwedd 2023, cyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad ar gyd-bwyllgorau corfforedig. Mae cyd-bwyllgorau corfforedig bellach yn fwy sefydledig. Sefydlwyd Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac is-bwyllgorau eraill, a phenodwyd aelodau lleyg.

## 6. Cysondeb y dull gweithredu ar draws y teulu llywodraeth leol

6.1 Mae'r ffioedd presennol ar gyfer aelodau a gyfetholwyd i brif gynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol wedi'u nodi ym Mhenderfyniadau'r Panel ar gyfer 2024. I'r gwrthwyneb, nid yw'r Panel eto wedi gosod ffi ar gyfer aelodau lleyg cyd-bwyllgorau corfforedig.

6.2 Mae'r Panel yn cydnabod bod aelodau lleyg cyd-bwyllgorau corfforedig yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i ddemocratiaeth leol yng Nghymru. Mae'n credu y dylid eu talu'n deg.

6.3 Mae'r Panel o'r farn ei bod yn bwysig bod taliadau a lwfansau i aelodau a etholwyd ac aelodau a benodwyd i'r holl awdurdodau perthnasol o fewn y teulu llywodraeth leol yn deg ac yn gyson.

6.4 Mae’r Panel yn credu bod y sefyllfa bresennol yn anghyson. Felly, mae'n gofyn am eich barn ynghylch cysoni'r dull a ddefnyddir i dalu aelodau lleyg cyd-bwyllgorau corfforedig â thâl aelodau cyfetholedig ar draws yr awdurdodau perthnasol o fewn y teulu llywodraeth leol.

## 7. Ymgynghoriad

7.1 Cyhoeddodd y Panel adroddiad atodol drafft ar gyfer ymgynghori arno dros gyfnod o bedair wythnos. Gofynnodd yr adroddiad atodol drafft a ddylid talu aelodau lleyg cyd-bwyllgorau corfforedig yn yr un modd ag aelodau cyfetholedig awdurdodau perthnasol eraill.

7.2 Mae'r Panel yn mynegi ei werthfawrogiad i'r rhai a gymerodd yr amser i anfon eu barn a'u sylwadau.

7.3 Roedd bron pob ymateb yn gefnogol i'r dull a nodwyd yn yr adroddiad.

O ganlyniad, mae'r Panel wedi penderfynu cyhoeddi'r adroddiad terfynol heb unrhyw ddiwygiadau ac wedi dod i'r penderfyniad a ganlyn:

**Penderfyniad 1**

Bydd aelodau lleyg Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cael eu talu ar yr un sail ag aelodau cyfetholedig (lleyg) sydd â hawliau pleidleisio cyrff eraill o fewn y teulu llywodraeth leol.

Nodir y symiau isod.

**Tabl 1: taliadau a wneir i aelodau lleyg cyd-bwyllgorau corfforedig**

| Rôl | Cyfradd tâl fesul awr | Cyfradd tâl hyd at 4 awr | Cyfradd tâl 4 awr a throsodd |
|---|---|---|---|
| Cadeiryddion lleyg pwyllgorau | £33.50 | £134 | £268 |
| | | | |
| Aelodau lleyg cyffredin sydd â hawliau pleidleisio | £29.75 | £119 | £238 |
| | | | |

Bydd yr adroddiad yn effeithiol o'r dyddiad cyhoeddi.